

**Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth
yng Nghymru.**

13 Mehefin 2017

Cynnwys

Rhagair

1. Gorolwg	5
2. Cylch Gwaith a Blaenoriaethau	6
3. Dull Gweithredu	8
4. Cyd-destun	9
5. Themâu a negeseuon yn deillio o'r dystiolaeth	46
6. Casgliadau ac Argymhellion	82
7. Atodiad 1: Tirwedd Gyffredinol Cyhoeddi a Llenyddiaeth	90
8. Atodiad 2: Rhestr o unigolion – trafodaethau a gynhaliwyd	93
9. Atodiad 3: Tystiolaeth a dderbyniwyd	95
10. Atodiad 4: Holiadur a ddisbarthwyd	99
11. Atodiad 5: Dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r ymatebion i'r Holiadur	100
12. Atodiad 6: Mapiau yn dangos lleoliad cyhoeddwr a llyfrwerthwyr yng Nghymru	178
13. Atodiad 7: Cymariaethau rhyngwladol rhwng Cymru a gwledydd eraill	180
14. Atodiad 8: Dyfyniadau o adroddiad interim a terfynol Adolygiad Diamond	187
15. Atodiad 9: Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru – Cefnogaeth i Llenyddiaeth a Gwyliau	189
16. Atodiad 10 : Cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer gweithgaredd llenyddol 2012/13 i 2015/16	191
17. Atodiad 11 : Cyllid Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ar gyfer gweithgaredd llenyddol 2012/13 i 2015/16	210

Rhagair

Mae'r adroddiad annibynnol hwn yn cynnwys dadansoddiad o gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru. Mae'n cynnwys dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwerthuso'r sefyllfa bresennol gan wahodd rhanddeiliaid i gyflwyno gwybodaeth fanwl ynghylch y seilwaith presennol a'r cymorth ariannol sydd ar gael i hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

Mae ecosystem llenyddiaeth a chyhoeddi Cymru yn cynnwys ystod amrywiol o weithgareddau sy'n cadarnhau pwysigrwydd cael cyllid priodol a sefydlu seilwaith a fydd yn dathlu hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru ymhellach. Fel y nodir yn yr adroddiad, rhaid ystyried hyrwyddo llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru, ar y cyd â'r holl gelfyddydau eraill, o fewn datganiad polisi clir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cymdeithas gynhwysol a Chymru sy'n fwy hyderus, yn fwy cyfartal, yn fwy medrus ac yn fwy cadarn. Mae gan y diwydiant cyhoeddi a hyrwyddo llenyddiaeth ran allweddol i'w chwarae o ran gwella hunaniaeth ddiwylliannol ddwyieithog ein cenedl.

Rhoddodd yr adolygiad gyfle i ailystyried natur y seilwaith presennol o gymorth drwy seilwaith a'r ddynameg sy'n newid yn gyson yn y byd cyhoeddi. Roedd newidiadau o'r fath yn amrywio o'r ffyrdd creadigol y mae awduron yn arfer eu crefft, y datblygiadau digidol ar gyfer cyhoeddi a'r cyfleoedd sy'n ehangu i ddarllenwyr ymgysylltu â llenyddiaeth, boed hynny drwy ddiwyddiadau byw neu drwy ddulliau eraill.

Mae gan lenyddiaeth yng Nghymru draddodiad cyfoethog a bywiogrwydd cyfoes y dylid ei ddathlu a'i gefnogi. O ran hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu cenedl ddwyieithog, mae pwysigrwydd creu llenyddiaeth a chyhoeddi yn allweddol er mwyn i'r llywodraeth gyrraedd ei thargedau strategol. Fodd bynnag, dyma'r amser priodol i Lywodraeth Cymru ystyried a oes angen unrhyw newidiadau strwythurol ychwanegol i hyrwyddo effaith gweithgarwch o'r fath. Ni ddylid tanamcangyfrif gwerth economaidd a chymdeithasol y gweithgaredd hwn. Mae angen cefnogaeth ar awduron Cymru a dylai'r cyllid presennol a gynigir i gefnogi datblygu'r seilwaith fod yn briodol ac yn addas at y diben, er mwyn gallu buddsoddi ymhellach ym maes datblygu talent a chyhoeddi, er mwyn meithrin cadernid yn y sector creadigol hwn.

Yng nghyd-destun presennol y newidiadau sylweddol ar ôl Brexit, bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru ystyried ei pholisi diwylliannol a, lle y bo'n briodol, ei gydlynu ymhellach, er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl dathlu 'Cymru greadigol' ar lwyfan rhyngwladol. Mae gan lenyddiaeth ran bwysig iawn i'w chwarae yn hyn o beth.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r panel am eu proffesiynoldeb a'u gwaith caled. O ystyried y swm sylweddol o dystiolaeth a gyflwynwyd daeth yn amlwg bod angen amser ychwanegol i ganiatáu i'r ysgrifenyddiaeth ac aelodau'r panel ystyried y dystiolaeth yn fanwl. Roedd y trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn angerddol ac yn dangos yn glir lefel y diddordeb proffesiynol yn y pwnc. Hoffwn hefyd gofnodi diolch y panel i swyddogion Llywodraeth Cymru a gefnogodd yr adolygiad hwn. Nodaf yn benodol waith caled a chyfraniad adeiladol Paul Kindred, Hywel Owen, Rachel Whitfield-Pierce a Lea Beckerleg.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar y cyfleoedd strategol sydd ar gael i wella'r ecosystem bresennol ar gyfer cynhyrchu llenyddiaeth a'r byd cyhoeddi yng Nghymru. Gydag unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus, rhaid rhoi ystyriaeth briodol i bwysigrwydd gwerth am arian, atebolrwydd a threfniadau llywodraethu da. Rhaid i ecosystem effeithiol sy'n cefnogi llenyddiaeth a chyhoeddi allu dangos ei bod yn cyflawni amcanion strategol clir, boed y rheini'n gysylltiedig â chyfalaf economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol.

Wrth wraidd yr adolygiad hwn mae'r cyfle i ddathlu Cymru - grym creadigol llenyddiaeth i ddisgrifio, dehongli a dathlu ein hunaniaeth. Mae gwerth mawr i'r grym hwnnw, ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol. Dylem barhau i adeiladu ar y seilwaith presennol, gwella doniau creadigol ein hawduron a chefnogi seilwaith cyhoeddi deinamig ar gyfer ein gwlad.

Yr Athro Medwin Hughes DL



1. Gorolwg

Dyma'r adroddiad annibynnol cyntaf sy'n ystyried cymorth cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru. Nid oes unrhyw banel annibynnol arall wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru (na'r Swyddfa Gymreig, cyn 1999) i ystyried y maes hwn yn ei gyfanrwydd.

Yn ystod 2014 comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru i lyfrau o Gymru. Yn yr adolygiad hwnnw aseswyd:

- Y sail resymegol dros y cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru i lyfrau o Gymru.
- Ai Cyngor Llyfrau Cymru yw'r cyfrwng mwyaf priodol o hyd i ddarparu'r cymorth hwnnw.
- Y dystiolaeth o ran gwerth am arian y dull presennol.

Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan yr adolygiad hwnnw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru¹

Nod yr adolygiad hwn yw cynnal dadansoddiad ehangach o'r cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth. Wrth wneud hyn rydym wedi bod yn ymwybodol o flaenoriaethau strategol ehangach Llywodraeth Cymru a'i ymrwymadau cyfreithiol i bobl Cymru, gan gynnwys y rhai hynny a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym hefyd, fel y mwyafrif sydd â diddordeb yn y maes hwn, yn ymwybodol fod newidiadau sylweddol wedi bod i'r modd y cynhyrchir deunydd ysgrifenedig a chlywedol gan gynnwys, ond heb gyfyngu, i gynnydd plattformau digidol. Disgwylir newidiadau sylweddol pellach, nifer yn anhagwladwy ar hyn o bryd, dros y 5-10 mlynedd nesaf. Gydag hyn mewn golwg rydym wedi ffocysu ar yr angen am strwythurau cefnogol a fydd yn addas nid yn unig yn 2017 ond yn ddigon hyblyg i ymateb i esblygiad pellach yn y sector, gan barhau'n berthnasol ac adnabod cyfleoedd newydd i gefnogi cyhoeddi a llenyddiaeth ledled Cymru.

Mae tirwedd llenyddiaeth yn dechrau gyda'r awdur ac yn gorffen gyda'r darlennydd (neu i'r gwrthwyneb). Ceir trosolwg o'r broses gyhoeddi er mwyn deall yn well lle y gall cefnogaeth ariannol fod ar gael yn **Atodiad 1**

Yn ogystal mae **Atodiad 7** yn cynnwys cymariaethau rhwng y sectorau cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru a chenedloedd Ewropeaidd eraill – 'rhanbarthau ymreolaethol' neu 'ddeddfwrfeydd is-wladwriaethau' gwladwriaethau sofran.

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi darllen, gwranddo ac ystyried barn rhanddeiliaid ar draws yr ecosystem cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru ac rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu sylwadau ac wedi darparu tystiolaeth i'r Panel Arolygu

Mae'r adroddiad hwn yn cwblhau gwaith y Panel Adolygu. Mae'n cyflwyno dadansoddiad a chanfyddiadau allweddol y Panel ac, yn unol â'n cylch gwaith, yn cynnig cyfres o argymhellion yn ymwneud â darparu cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yn y dyfodol yng Nghymru.

¹ <http://gov.wales/docs/drah/publications/170609-review-of-support-for-books-from-wales-en.pdf>

2. Cylch gwaith a blaenoriaethau

2.1. Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd gyloch gorchwyl a blaenoriaethau ar gyfer yr Adolygiad hwn. ²

2.2. Yn fras cwmpas yr adolygiad yw asesu:

- i. Prif nodau Llywodraeth Cymru o safbwynt cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, yn y ddwy iaith; h.y., beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a hynny ar lefel ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd? A yw'r nodau hyn yn addas i'w diben o hyd yn yr unfed ganrif ar hugain?
- ii. Cwmpas a graddfa'r cymorth a gaiff ei roi ar hyn o bryd i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys y berthynas rhwng y cyrff sy'n gyfrifol am gyflenwi'r cymorth hwn.
- iii. Datblygiadau digidol o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.
- iv. Y trefniadau gweinyddol o ran cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith, yn ogystal ag ar gyfer papurau bro.
- v. Y cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth mewn ardaloedd difreintiedig ar draws Cymru.

Nid oedd adolygiad penodol o gyhoeddiadau academaidd o fewn cylch gwaith a chyfrifoldebau'r adolygiad hwn o Gyhoeddi a Llenyddiaeth. Bydd hyn yn cael ei egluro yn fwy manwl yn hwyrach yn yr adroddiad.

Aelodau'r Panel

- **Yr Athro Medwin Hughes (Cadeirydd)**

Is-Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. **Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones (Is-Gadeirydd)**

Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant ac Athro y Cyfryngau a'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Aberystwyth.

- **John Williams**

Yn ysgrifennu nofelau, straeon byrion a sgrïptiau sydd wedi'u lleoli o fewn Caerdydd sy'n prysur newid. Ar hyn o bryd mae John yn ysgrifennu erthyglau ar gyfer y Mail on Sunday a'r Independent ac ef yw un o gyd-drefnyddion Gŵyl Talacharn.

- **Philippa Davies**

² <http://gov.wales/newsroom/culture-tourism-sport/2016/160315-literature-review/?skip=1&lang=cy>

Awdur a Seicolegydd Busnes, gyda 12 llyfr ffeithiol a ffuglen wedi eu cyhoeddi, ac hefyd yn ysgrifennu cynnwys gwe ar gyfer The Economist ac Udemy.

- **Martin Rolph**

Ymgynghorydd. Cynhaliodd Martin adolygiad annibynnol o gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfrau o Gymru sef Yr Adolygiad o Gymorth i Lyfrau o Gymru yn ystod 2014.

3. Dull gweithredu

3.1. Er mwyn asesu'r pum prif faes a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, aeth y Panel Adolygu ar drywydd dull yn seiliedig ar dystiolaeth wrth ddatblygu ei ddadansoddiad a'i gasgliadau, gan seilio ei argymhellion i Weinidogion Cymru ar y dystiolaeth honno. Er mwyn sicrhau bod gan y Panel fynediad i ddigon o dystiolaeth a barn eang i fod yn sail i'w drafodaethau, rhoddwyd cynllun cynhwysfawr ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

3.2. Ymysg y gweithgareddau ymgysylltu roedd:

- Aelodaeth o'r Panel Adolygu: sefydlwyd panel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys unigolion o sefydliadau allweddol neu ag arbenigeddau allweddol yn y sector;
- Cyfarfodydd o'r Panel Adolygu;
- Adolygiad o lenyddiaeth - deunydd cyhoeddus;

Sesiynau tystiolaeth - cynhaliwyd sawl cyfarfod o'r Panel i gymryd tystiolaeth ar ffurf ffeithiau a barn gan amrywiaeth o randdeiliaid yn y maes - mae rhestr lawn o'r rhai y cawsom gyfarfod â hwy yn **Atodiad 2**

- Adolygiad o dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol - darparodd nifer o randdeiliaid y cawsom drafodaethau â hwy dystiolaeth ysgrifenedig atodol, naill ai'n wirfoddol neu ar gais. Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth hon eisoes ar gael ac yn wybodaeth gyhoeddus - mae rhestr lawn o'r dogfennau a dderbyniwyd gennym yn **Atodiad 3**;
- Holiadur ar-lein - rhan bwysig iawn o'r dystiolaeth a ystyriwyd gennym oedd yr ymatebion i'n holiadur. Mae copi o'r holiadur yn **Atodiad 4**, a dadansoddiad o'r ymatebion yn **Atodiad 5**.

1. Cyd-destun

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru - Diwylliant a'r Diwydiannau Creadigol

Wrth werthuso'r cylch gorchwyl a bennwyd ar gyfer yr adolygiad hwn rhoddodd y Panel sylw i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Symud Cymru Ymlaen 2016-2021³.

Nododd y Panel y datganiad clir o fwriad yn y ddogfen bolisi i ddathlu cyfoeth diwylliannol amrywiol Cymru ac adeiladu ar hynny. Cafwyd cadarnhad hefyd o fwriad datganedig y Llywodraeth i gefnogi a meithrin y celfyddydau yng Nghymru ymhellach hyn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a oedd yn dangos pwysigrwydd amgylchedd diwylliannol deinamig a bywiog.

Rhaid i hyrwyddo llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru gael ei ystyried ar y cyd â'r holl 'gelfyddydau' eraill o fewn datganiadau polisi clir Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymdeithas gynhwysol, "Cymru sy'n fwy hyderus, yn fwy cyfartal, yn fwy medrus ac yn fwy cadarn". Mae datblygu a buddsoddi ymhellach mewn 'cyfalaf diwylliannol' yn allweddol i hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol cenedl. Mae cyfoeth ac amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru yn cadarnhau'r ffaith bod ecosystem llenyddiaeth a chyhoeddi Cymru yn un helaeth a deinamig sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at y blaenoriaethau a nodwyd gan y Llywodraeth wrth gefnogi mentrau diwylliannol yng Nghymru. Fodd bynnag, dyma'r amser priodol i ailystyried y seilwaith presennol.

Ar sail y dystiolaeth sylweddol a gyflwynwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, nododd y Panel y rhwydwaith amrywiol o sefydliadau, mudiadau a grwpiau llenyddol sydd oll wedi chwarae rhan mewn diffinio ecosystem gyhoeddi ar gyfer Cymru. Rhoddodd yr adolygiad y cyfle i fyfyrion feirniadol ar effeithiolrwydd y deinameg presennol rhwng y gwahanol randdeiliaid allweddol.

Wrth adolygu'r gweithgareddau cyfredol sy'n gysylltiedig â chyhoeddi a hyrwyddo llenyddiaeth roedd y Panel yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cydnabod y ffactorau gwahanol sy'n gysylltiedig â chyhoeddi a hyrwyddo llenyddiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid cydnabod bod y model busnes ac ymyrraeth yn amrywio rhwng y ddwy iaith. Er mwyn i'r Llywodraeth gyrraedd ei tharged o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd yn hanfodol adeiladu ymhellach ar y cysylltedd digidol rhwng cyhoeddi, addysg a llythrennedd yn y Gymraeg.

Diwydiannau Creadigol - yn y DU a Chymru

Rhaid i unrhyw ystyriaeth briodol o ecosystem gyhoeddi yng Nghymru ystyried y gweithgareddau amrywiol a gynigir ar hyn o bryd yng nghyd-destun y buddsoddiad a wneir o fewn y diwydiannau creadigol ehangach. Yn y gorffennol, mae diffinio'r diwydiannau creadigol wedi bod yn ddadleuol. Nododd y Panel y diffiniad a gynigir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o lenyddiaeth a chyhoeddi, sef y diwydiannau hynny sy'n tarddu o greadigrwydd, sgiliau a thalent unigol ac sydd â'r potensial i greu cyfoeth a swyddi drwy gynhyrchu ac eiddo deallusol a manteisio arno⁴.

³ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy>


⁴ *Creative Industries Economic Estimates: Full Statistical Release*, Department for Culture, Media and Sport, 2011 t.6.

Yn y DU gyfan yn 2015, roedd 200,000 o swyddi cyhoeddi yn y diwydiannau creadigol - cynnydd o 3.7 y cant rhwng 2014 a 2015. Yn ogystal, mae gwerth y diwydiant cyhoeddi'r DU i'r economi yn parhau i gynyddu: yn 2014 gwelwyd cynnydd o 2.8 y cant yng ngwerth ychwanegol gros cyhoeddi o flwyddyn i flwyddyn, ac mae wedi cynyddu 1.6 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2008 a 2013.

Yn ôl ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru, mae 84,000 o bobl yn gweithio yn yr 'econi greadigol' yng Nghymru. O'r rhain, mae bron i 53,000 yn gweithio yn y diwydiannau creadigol, ac mae tua 31,000 yn gweithio mewn galwedigaethau creadigol y tu allan i'r diwydiannau creadigol. Mae rhagor o fanylion am y diwydiannau creadigol yng Nghymru yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru⁵.

Wrth werthuso pa mor briodol yw'r buddsoddiad presennol gan Lywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwn, ystyriodd y Panel y berthynas ehangach rhwng y diwydiannau creadigol a'u gwerth i'r economi. Mae ymchwil yn dangos sut y mae gwahanol fathau o'r diwydiannau hyn yn helpu twf economaidd.

Yn eu papur 'Four Models of the Creative Industries' (2008) ⁶ mae Potts a Cunningham yn dadansoddi'r berthynas rhwng y diwydiannau creadigol a'u gwerth i'r economi yn ei chyfanrwydd. Maent yn disgrifio pedwar model:



1. Lles: lle mae angen cymhorthdal a lle y ceir gwerth economaidd negyddol
2. Cystadleuaeth: ble mae'r diwydiannau creadigol yn gweithio fel unrhyw ddiwydiant arall
3. Twf: lle mae buddsoddiad a thwf yn flaenoriaethau
4. Arloesi: ble y caiff dyfeisgarwch yn y diwydiannau creadigol ei gefnogi er mwyn lledaenu i wahanol sectorau, er enghraifft drwy ddatblygu meddalwedd neu arloesi digidol.

Yn ei dadansoddiad o'r sectorau diwylliant a llenyddiaeth mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar y model Lles, sy'n cynrychioli rhan helaethaf y gweithgarwch yng Nghymru.

Yn *Social Network Markets: A New Definition Of The Creative Industries* (2008) ⁷ mae Potts, Cunningham, Hartley ac Ormerod yn dadlau o blaid ddiffiniad mwy defnyddiol sy'n seiliedig ar y

⁵ <http://gov.wales/topics/businessandconomy/our-priority-sectors/creative-industries/?skip=1&lang=cy>

⁶ 'Four Models Of The Creative Industries' (2008)

⁷ [Social Network Markets: A New Definition Of The Creative Industries](#)

farchnad o ddiwydiannau creadigol, lle mae'r hyn sy'n cael ei greu a'i fwynhau yn dibynnu llawer mwy ar dafod leferydd, chwaeth, diwylliant, poblogrwydd ac adborth ar ffurf gwybodaeth, na diwydiannau eraill.

'The CIs, then, are properly defined in terms of a class of economic choice theory in which the predominant fact is that, because of inherent novelty and uncertainty, decisions both to produce and to consume are determined by the choice of others in a social network. This class of social network choice is, we suggest, the proper definition of the creative industries.'

Gall y goblygiadau ar gyfer polisi fod fel a ganlyn:

- Ystyrir diwydiannau creadigol yn llai fel lles cymdeithasol ac yn fwy fel systemau arloesi
- Newid o'r model cydadferol o'r brig i lawr i fodel hwyluso ac arloesi arbrofol o'r bôn i fyny.
- Datblygu microddata manylach a gwell ar gwmnïau, swyddi a phatrymau gweithgaredd, gan fwrw goleuni ar fecanweithiau twf economaidd a'r rhyngweithio ymysg gweithredoedd a sefydliadau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.

Yn ei lyfr *Positive Linking* mae cydawdur y papur uchod yn trafod sut mae rhoi pwyslais ar bobl fel creaduriaid cymdeithasol yn arwain at oblygiadau o ran llunio polisiâu, gyda normau, pwysau gan gyfoedion a dylanwadwyr yn pennu ei weithrediad llwyddiannus:

'A key point here is that when network effects are present, the most effective policies are unlikely to be generic, across-the-board changes to incentives. Careful prior analysis and thoughtful targeting become the order of the day. If we can get right, or even approximately right, less can be more. Fewer resources used more intelligently can potentially lead to much more effective strategies'.

Gellir ystyried polisi ar lenyddiaeth a chyhoeddi yn allweddol i dwf yn y diwydiannau creadigol, i helpu i ddatblygu ysgrifenyddwyr copi ar gyfer y we, y rhai sy'n ysgrifennu gemau chwaraeon, awduron sgript ar gyfer ffilm, teledu ac animeiddio, yn ogystal â ffuglen y gellir defnyddio eu creadigaethau ar wahanol lwyfannau.

Manteision Economaidd

Os yw cefnogaeth ariannol y Llywodraeth ar gyfer cyhoeddi yng Nghymru yn mynd i sicrhau manteision economaidd mwy sylweddol, yna mae angen i'r diwydiant ddeall bod cyfraniad y diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth at ddatblygiad economaidd yn dibynnu'n hollbwysig ar gynhyrchu gwaith sydd â gwerth eiddo deallusol gwreiddiol o ran hawlfraint. Ac mae hyn yn cynnwys datblygu seilwaith ar gyfer busnesau cyhoeddi a datblygu talent awduron yng Nghymru.

Mae dau gwestiwn allweddol i'w hystyried o ran manteision datblygu economaidd a llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru:

- A yw'r cyllid hwn yn helpu i ddatblygu seilwaith cyhoeddi?
- A yw'r cyllid hwn yn cyfrannu at lwybrau talent i awduron?

Swyddi Cynaliadwy

Yn 2015, roedd 200,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant cyhoeddi ledled y DU. Nid oes data penodol ar gael ar statws cyflogaeth o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru - boed yn llawn amser neu'n rhan amser. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Llyfrau yn cyfeirio'n rheolaidd at y ffaith bod tua 1,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddi yng Nghymru a dyna'r unig

ffynhonnell sydd ar gael. Mae'r gyfradd yng Nghymru, felly, yn amlwg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (h.y tua dim ond 0.5% o gyfanswm y DU o gymharu â chyfanswm gweithlu Cymru sydd tua 5% o gyfanswm gweithlu'r DU). Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad oes gan Gymru gyhoeddwr mawr fel y rhai a geir yn Llundain, Caeredin a Rhydychen. Ar yr un pryd, mae'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru wedi ei leoli yn bennaf mewn ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru

Ni fanteisiwyd ar gyfleoedd digidol i gynhyrchu cyfryngau newydd megis llyfrau llafar. Mae angen datblygu sgiliau newydd ar gyfer cynhyrchu llenyddiaeth ar gyfer amrywiol lwyfannau: creu a rheoli cymuned ar-lein; creu a chynhyrchu pigion fideo a marchnata ar draws platfformau megis Amazon.

Fodd bynnag, mae patrymau cyflogaeth a swyddi cynaliadwy yn y byd llenyddiaeth a chyhoeddi yn newid ledled y byd. Yn gynyddol, mae arbenigeddau megis golygu a dylunio yn cael eu rhoi ar gontractau allanol i weithwyr llawrydd, ac mae llwyfannau digidol yn cynnig cyfleoedd i awduron fod yn hunangyhoeddwr, yn hybrid - sy'n cyhoeddi'n draddodiadol ac yn hunangyhoeddi - ac i gael mynediad hawdd i farchnadoedd byd-eang yn ogystal â marchnadoedd lleol. Mae arbenigedd digidol a dealltwriaeth o farchnata ar-lein yn bwysig iawn o ran y sianelau dosbarthu newydd hyn, fel y dangoswyd gan Book Swarm⁸, asiantaeth ddigidol ar gyfer busnesau llyfrau a bookbridgr⁹, cymuned flogio, a sefydlwyd gan y cyhoeddwr Hodder Headline.

Mae dewisiadau amgen, yn hytrach na bod ar domen llawysgrifau digymell yn swyddfa cyhoeddwr, yn dod i'r amlwg. Mae Lisa Hall¹⁰ yn ysgrifennu blog llyfrau poblogaidd, ac yn sgil ei chysylltiadau gyda chyhoeddwr bu'n haws iddi sicrhau bod ei nofel *Between You and Me*¹¹ yn cael ei chyhoeddi'n draddodiadol, tra bod ei phresenoldeb sylweddol ar-lein yn helpu adolygiadau a gwerthiannau.

Yn yr un modd ag y mae newyddiadurwyr bellach yn cael eu cyflogi'n gynyddol mewn rolau cysylltiadau cyhoeddus ac fel awduron technegol, mae rhai awduron creadigol yn ategu eu harbrofion llenyddol drwy ysgrifennu papurau gwyn, copi ar lein, cylchlythyrau a chynnwys ar gyfer blogiau i gleientiaid sy'n barod i dalu iddynt. Mae gwefannau fel *Upwork*¹² yn gweithredu fel brocer ar-lein er mwyn i'r awduron hyn allu masnachu ledled y byd.

Er bod ysgrifennu ar gyfer y sgrin yn hynod gystadleuol, gyda Hollywood yn cyflogi rhwng 7 - 8000 o awduron yn ôl yr amcangyfrifon, mae'r twf mewn fideos ar-lein yn aml yn golygu bod gwaith lleol ar gael i ysgrifenwyr sgrïptiau i helpu busnesau i gyfleu eu neges.

Yn aml, mae gwaith lleol ar gyfer ysgrifenwyr sgrïptiau i helpu busnesau i gyfleu eu neges. Yn ôl y papur gwyn hwn gan Cisco¹³, rhagwelir mai fideo fydd 80% o draffig y rhyngwyd erbyn 2019.

Mynychodd tua 140,000 o bobl Eisteddfod Genedlaethol 2016 yn y Fenni, ac mae'r ffigurau presenoldeb yn dangos cynulleidfa weddol sefydlog a rhagweladwy ar gyfer y diwylliant Cymraeg. Fel y mae chwilio yn ôl iaith ar Google yn dangos, byddai'r gynulleidfa hon yn niche pendant ar gyfer cynnwys arloesol ar-lein ar draws llwyfannau. Mae rhywfaint o gefnogaeth i'r

⁸ <http://bookswarm.co.uk>

⁹ <http://www.bookbridgr.com/>

¹⁰ <http://www.lisahallauthor.co.uk/>

¹¹ <https://www.amazon.co.uk/Between-You-Me-bestselling-psychological-ebook/dp/B01B7RRNB8>

¹² <https://www.upwork.com/hire/business-writers/>

¹³ <http://www.cisco.com/c/en/us/solutions/collateral/service-provider/visual-networking-index-vni/complete-white-paper-c11-481360.html>

syniad hwn yn sgil poblogrwydd cynyddol Grwpiau Dysgwyr ar Facebook fel 'Dwi'n Dysgu Cymraeg' (4340 o aelodau) a 'Say Something in Welsh' (3452 o aelodau), sy'n dangos brwdfrydedd ac awydd am gynnwys Cymraeg mewn amrywiol fformatau, y gellid ei gael o wefan ganolog.

Cyfyngau Print yng Nghymru

Mae'n werth ystyried yn gryno sefyllfa bresennol y cyfyngau print yng Nghymru.

Cyfeiriodd tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Panel, yn cynnwys ymatebion i'r arolwg ar-lein, at bwysigrwydd y diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru oherwydd gwendid y cyfyngau print yng Nghymru - trafodir hyn yn fanylach yn y dadansoddiad o'r arolwg yn **Atodiad 5**. Yn ogystal, nid yw'r papurau sydd â'r cylchrediad mwyaf yng Nghymru megis *The Sun*, *The Daily Mail* yn rhoi llawer o sylw i Gymru yn gyffredinol, heb sôn am y diwydiant cyhoeddi. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad cyson yn nifer y darllenwyr papurau newydd dyddiol yng Nghymru. Dangosodd ffigurau diweddaraf y Swyddfa Archwilio Cylchrediad ym mis Chwefror 2017 mai *The Daily Post* bellach yw'r papur newydd rhanbarthol sy'n gwerthu orau yng Nghymru - gan werthu 22,251 o gopïau ar gyfartaledd yn 2016 o gymharu â 23,645 o gopïau wedi'u hargraffu a werthwyd yn 2015. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gostyngiad yn y ffigurau cylchrediad.

	1979	1997	2005	2015	2016
Daily Post	50,000	52,000	40,835	23,645	22,251
South Wales Evening Post	69,000	67,185	56,487	23,870	21,031
Western Mail	94,000	61,541	43,247	18,063	15,697
South Wales Echo	120,000	74,246	57,852	17,820	15,140
South Wales Argus	53,000	30,597	30,295	11,475	10,808

Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar-lein ar gyfer y mwyafrif o deitlau. Tyfodd cynulleidfa Wales Online 13.1% gan gyrraedd cyfartaledd o 292,824 o borwyr unigryw dyddiol, yn ôl ffigurau diweddaraf ABC yn 2017. Tyfodd gwefan y Daily Post 5.1% i gyrraedd 81,125 o borwyr unigryw dyddiol. Er bod y ffigurau ar-lein yn galonogol, nid ydynt yn cynhyrchu'r math o incwm a allai ddisodli'r gwerthiannau a'r refeniw hysbysebu a gollir gan bapurau newydd.

Sylw yn y cyfyngau i'r sectorau cyhoeddi a llenyddiaeth

Nododd y Panel y prinder sylw i'r diwydiant yn y wasg yn gyffredinol mewn papurau newydd a chan ddarleddwyr yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o lyfrau yn ogystal â rhaglenni penodol. Er bod rhaglenni fel *Heno* ar S4C yn cynnwys eitemau rheolaidd ar y diwydiant, gan gynnwys digwyddiadau lansio llyfrau, nid oes darpariaeth debyg yn Saesneg ar BBC Cymru neu ITV Cymru. Awgrymodd y Panel, felly, y dylid gwella'r cysylltiadau rhwng y sector a'r cyfyngau prif ffrwd yng Nghymru. Dylai'r darleddwyr wneud llawer mwy i drafod llyfrau o Gymru a dylid trafod llyfrau Cymraeg gan y cyfyngau Seisnig, ynghyd ag i'r gwrthwyneb, er mwyn croesi'r ffiniau rhwng y ddau ddiwylliant a thraddodiad y genedl.

Sut y mae Llenyddiaeth a Chyhoeddi yn cyfrannu at bolisiau Llywodraeth Cymru

Gofynnwyd i'r Panel asesu a oedd prif amcanion Llywodraeth Cymru o ran cefnogi'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, yn y ddwy iaith, yn briodol ac yn addas at y diben. Dim ond os bydd yn cefnogi'n glir y rhaglen a gytunwyd ar gyfer y Llywodraeth y bydd modd cyfiawnhau unrhyw wariant gan Lywodraeth Cymru. Ystyriodd y Panel ddogfen strategaeth y Llywodraeth *Symud Cymru Ymlaen 2016-2022*¹⁴ fel y datganiad polisi cyffredinol a gwerthuswyd y buddsoddiad presennol yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd.

Ystyriodd hefyd weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant yng Nghymru a amlinellwyd yn y ddogfen *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru*¹⁵ a lanswyd ym mis Rhagfyr 2016.

Mae'n amlwg y bydd cefnogi a gwella diwydiant cyhoeddi dwyieithog llwyddiannus yng Nghymru nid yn unig yn gwneud cyfraniad at y strategaeth twf economaidd sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, ond hefyd yn cefnogi'r mentrau microfusnes niferus sydd wedi'u sefydlu, ar y cyfan, mewn cyd-destunau gwledig ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae cyfarwydddebau polisi cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru, datblygu system addysgol newydd a'r gofyniad i gynhyrchu a chyhoeddi deunyddiau dwyieithog hefyd yn cadarnhau pa mor briodol yw parhad cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer cyhoeddi yng Nghymru.

Yn yr un cyd-destun mae hyrwyddo llenyddiaeth yng Nghymru wrth wraidd polisi diwylliannol a chreadigol deinamig. Bydd Cymru greadigol llwyddiannus yn gweld gwerth buddsoddi mewn hyrwyddo talent lenyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gan gydnabod y ffaith bod gan Gymru un o'r traddodiadau lenyddol a llafar hynaf yn Ewrop, mae hefyd yn hanfodol bod cefnogaeth barhaus yn cael ei rhoi yn y ddwy iaith i ddatblygu talent lenyddol greadigol Cymru ymhellach. Er mwyn cyflwyno Cymru greadigol ar lwyfan rhyngwladol, rhaid cynnwys y cyfoeth o dalent lenyddol fodern sydd gennym yn y ddwy iaith. Bydd buddsoddi mewn cyfieithu a marchnata rhyngwladol yn allweddol i ddangos Cymru 'gysylltiedig' gyda pholisi diwylliannol cryf.

Ystyriodd y Panel hefyd y rhwymedigaethau cyfreithiol a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁶ ac ystyriwyd pe bai'r Llywodraeth yn dangos yn llwyddiannus y rôl bwysig y mae diwylliant yn ei chwarae wrth wella iechyd a llesiant, yna roedd parhau i fuddsoddi mewn datblygu, hyrwyddo a chyhoeddi llenyddiaeth yn gwbl briodol.

¹⁴ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy>


¹⁵ <http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/arts/a-vision-for-culture-in-wales/?skip=1&lang=cy>

¹⁶ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Model cylchoedd consentrig y diwydiannau diwylliannol

Wrth ystyried lle llenyddiaeth a chyhoeddi yn y diwydiannau creadigol neu ddiwylliannol yn eu cyfanrwydd, mae'r model isod yn ddefnyddiol fel cyfraniad at osod y cyd-destun¹⁷.



Cyngor Llyfrau Cymru (y Cyngor Llyfrau)

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy'r Cyngor Llyfrau, sy'n gorff anstatudol (ac elusen gofrestrdig) sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i'r fasnach cyhoeddi llyfrau a chylchgronau yng Nghymru. Mae'r Cyngor Llyfrau wedi diffinio ei gylch gwaith fel cefnogi a datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg).

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gyhoeddi yn 2001 a gadeiriwyd gan Delyth Evans yn argymhell nifer o newidiadau i'r trefniadau cyllido ar gyfer y Cyngor Llyfrau. Yn dilyn yr adolygiad hwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r cyllid yr oedd y Cyngor Llyfrau yn ei gael gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac awdurdodau lleol ddod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny yn 2003, penderfynwyd y byddai'r cyllid ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg a ddarparwyd gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer llyfrau Saesneg yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan y Cyngor Llyfrau.

Cyn 2003, felly roedd y Cyngor Llyfrau ond yn ymwneud â'r byd cyhoeddi Cymraeg.

¹⁷ Throsby, David. Cultural Trends Cyf. 17, Rhifyn 3, tudalennau 147-164, Cyhoeddwyd ar Iain 26 Medi 2008)

Y Sefyllfa Ariannu

Cyllideb 2016-17

Derbyniodd y Cyngor Llyfrau £3.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17, wedi'i rannu fel a ganlyn:

Prif gategoriâu gwariant y Cyngor Llyfrau yn 2016-17	£
Staff arbenigol sy'n cefnogi cyhoeddwr ac eraill ¹⁸	748
Grantiau Cyhoeddi	2,299
Gweinyddu Grantiau	184
Cyfalaf	60
Costau Rhedeg Craidd	295
Cyfanswm	£3,586

Mae Grant Cyhoeddi'r Cyngor Llyfrau yn cefnogi cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg, gyda 1,632,550 miliwn yn cael ei ddyrannu i gyhoeddiadau Cymraeg a £666,450 i gyhoeddiadau Saesneg

Mae dadansoddiad pellach o'r symiau hyn fel a ganlyn:

¹⁸ h.y. darparu gwasanaethau megis golygu, dylunio, gwasanaethau llyfryddiaethol a marchnata i gyhoeddwr

Grantiau Dosbarthu 2016/17

Cyhoeddiadau Cymraeg

	£
Cyhoeddwy Rhaglenni	360,800
Grantiau Cyhoeddi Unigol	80,000
Taliadau Perfformiad ac ati	14,600
Penodiadau a Hyfforddiant	209,375
Taliadau i Awduron a Darlunwyr	322,775
Marchnata	50,000
Llyfrwerthwyr	45,000
Cyhoeddi Electronig	15,000
Gemau	0
Cylchgronau	345,000
Cymorth i'r Wasg Gymraeg	190,000
Ymchwil i'r Farchnad	0
Cyfanswm y Grantiau ar gyfer Cyhoeddiadau Cymraeg	<u>1,632,550</u>

Cyhoeddiadau Saesneg

	£
Cylchgronau Refeniw	175,000
Llyfrau Refeniw	228,154
Grantiau Cyhoeddi Unigol	60,000
Grantiau Bach a Hyfforddiant	8,500
Blaendaliadau i Awduron	52,000
Cymorth ar gyfer Swyddi	64,240
Marchnata	41,056
Clasuron	37,500
Cyfanswm y Grantiau ar gyfer Cyhoeddiadau Saesneg	<u>666,450</u>

Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy dair prif ymyrraeth - drwy gynnig gwasanaethau arbenigol â chymhorthdal am ffi fechan i'r cyhoeddwy ym meysydd golygu, dylunio, gwerthu a marchnata a hefyd drwy roi cymorth grant i tua 300 o deitlau bob blwyddyn (200 o deitlau Cymraeg a 100 o deitlau Saesneg). Yn ogystal, mae ei Ganolfan Ddosbarthu yn stocio teitlau o ddiddordeb Cymreig yn y ddwy iaith, gan ddsbarthu'r rhain i dros 800 o safleoedd gwerthu.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn sianelu grantiau drwy gyhoeddwy i gefnogi a datblygu diwydiant cyhoeddi ffyniannus a hyfyw. Gall awduron wedyn fanteisio ar sgiliau cyhoeddi a ddarperir gan gyhoeddwy unigol gan gynnwys golygu copi creadigol a marchnata.

Mae cyfran sylweddol o'r grant yn cael ei roi i gyhoeddwr fel grant bloc blynyddol ar gyfer cyhoeddi rhaglen sy'n cynnwys nifer penodol o deitlau (roedd cyllido rhaglen yn un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi yn 2001, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru). Mae'r Cyngor Llyfrau hefyd yn cynnal cynllun cyhoeddi fesul teitl ar gyfer cyhoeddwr sy'n dymuno gwneud cais.

Yn dilyn argymhellion gan nifer o adroddiadau ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn y diwydiant, mae'r Cyngor Llyfrau wedi ymestyn ei gymorth grant i gynnwys ystod ehangach o deitlau masnachol gyda mwy o bwyslais ar ffuglen boblogaidd, cofiannau a chwaraeon er mwyn cyrraedd nifer fwy o ddarllenwyr o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd.

Crynodeb o gyllideb y Cyngor Llyfrau ers 2010-11

	2010-11 £	2011-12 £	2012-13 £	2013-14 £	2014-15 £	2015-16 £	2016-17 £
Costau Rhedeg*	1,305	1,258	1,207	1,153	1,103	1,043	1,043
Grantiau	2,768	2,773	2,773	2,773	2,623	2,483	2,483
Cyfalaf	25	25	25	25	25	60	60
Cyfanswm y cyllidebau gwariant	4,098	4,056	4,005	3,951	3,751*	3,586	3,586
Incwm gwirionedd ol:	3,511,758	3,567,611	3,510,200	3,533,475	3,327,779	2,943,806	dd/b
o Ganolfan Ddosbarthu, adrannau eraill a'r Adran Addysg a Sgiliau							

*gan gynnwys cost y gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan staff y Cyngor Llyfrau

**gan gynnwys gweinyddu grant (£184,000 yn 2016-17)

Mae rhagor o fanylion am y Cyngor Llyfrau ar gael ar ei wefan¹⁹; yn Adroddiad Blynyddol 2015²⁰; yng Nghynllun Gweithredol 2016-17²¹ ac yn y Cynllun Strategol²².

¹⁹ <http://www.clc.org.uk/>

²⁰ <http://www.clc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/dogfennau-documents?diablo.lang=cym>

²¹ <http://www.clc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/dogfennau-documents?diablo.lang=cym>

Cyflwynodd y Cyngor Llyfrau yr wybodaeth gefndir ganlynol i'w hystyried gan y Panel pan roddodd dystiolaeth lafar:

- Er gwaethaf yr awgrym yn enw'r sefydliad yn Saesneg, mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu ac yn cefnogi cyhoeddi a llenyddiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae cyhoeddwr yng Nghymru yn gweithio mewn economi gymhleth ac ansicr, gan gystadlu â'r diwydiant cyhoeddi masnachol sydd wedi'i leoli yn Llundain yn bennaf.
- Nod y Cyngor Llyfrau yw galluogi busnesau ac awduron bach i ddod i amlygrwydd a datblygu.
- Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithio ar draws ardaloedd difreintiedig.
- Mae cyfrifoldeb craidd y Cyngor Llyfrau yn ymwneud â'r diwydiant cyhoeddi ac mae ganddo bryderon difrifol am unrhyw ostyngiad pellach yn y gyllideb a fyddai'n niweidio ei allu i ddarparu a datblygu ei wasanaeth presennol.

Cyngor Llyfrau Cymru - Strategaeth a Strwythur

- Mae dogfen y Cyngor Llyfrau *Edrych Ymlaen* yn edrych tua'r dyfodol, ac yn cynnwys manylion am weithio mwy gyda phrifysgolion a sefydliadau addysgol, gan gynnwys rhoi arweiniad i athrawon i ganfod deunydd darllen addas.
- Pwysleisiodd y Cyngor Llyfrau ei bod yn hanfodol cael strwythur clir i sicrhau datblygiad. Eglurwyd rôl gwahanol Baneli'r Cyngor Llyfrau, sy'n cynnwys y Panel Grantiau Cyhoeddi Cymraeg, y Panel Grantiau Cyhoeddi Saesneg a Phanel Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen.
- Mae cymorth y Cyngor Llyfrau i awduron yn mynd drwy'r cyhoeddwr.
- Mae'r Cyngor Llyfrau yn annog ffurfio grwpiau a chyrrff (e.e. Cwllwm Cyhoeddwr) ac mae'n annog cyhoeddwr Saesneg i ffurfio grŵp tebyg.

Cyngor Llyfrau Cymru - Swyddogaethau a Gwasanaethau

- Mae gwasanaethau'r Cyngor Llyfrau yn cynnwys y Ganolfan Ddosbarthu sy'n cynrychioli cangen fasnachol y Cyngor Llyfrau. Mae'n cyfrannu'n sylweddol at incwm y Cyngor Llyfrau gyda thros 10,000 o deitlau mewn stoc ac mae'n derbyn tua 1000 o deitlau newydd bob blwyddyn - 55% o'r rhain yn deitlau Saesneg.
- Gwasanaeth dylunio a golygu sy'n cynnig gwasanaeth cymorth i gyhoeddwr, yn enwedig cwmnïau cyhoeddi llai, sy'n awyddus i ddatblygu a thyfu.
- Un o nodau allweddol y Cyngor Llyfrau yw galluogi awduron o Gymru i gystadlu ag awduron o Loegr yn ogystal ag annog awduron o Gymru i ddychwelyd i Gymru.
- Targedu ardaloedd difreintiedig a grwpiau difreintiedig a mynd â llyfrau i gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio.
- Mae'r Cyngor Llyfrau hefyd ynghlwm mewn mentrau gan gynnwys:
 - Blwyddyn Darllen Genedlaethol
 - Stori Sydyn/Quick-Reads
 - Dathlu Roald Dahl

²² <http://www.cllc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/dogfennau-documents?diablo.lang=cym>

- Yr Ymgyrch Dinas-Ranbarth - datblygodd y Cyngor Llyfrau gais am gyllid ar gyfer Dinas Darllen Abertawe sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Sut y mae'r cyllid y mae'r Cyngor Llyfrau yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at gyflawni nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor Llyfrau wedi diffinio ei gylch gwaith fel cefnogi a datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg). Mae'r cylch gwaith eang hwn yn caniatáu iddo gyfrannu'n sylweddol at agenda strategol Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd:

(a) Y Gymraeg

Mae gan y Cyngor Llyfrau fandad allweddol i hyrwyddo'r diwydiant Cyhoeddi Cymraeg. Llyfrau a chyhoeddiadau Cymraeg a dwyieithog yw sylfaen cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer y defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg a chyfrannu at gyflawni strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er enghraifft, ariennir Golwg 360, y gwasanaeth newyddion Cymraeg ar-lein, gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Llyfrau. Mae Golwg 360 wedi cyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru i weld gwasanaethau newyddion lluosog yng Nghymru oherwydd hebdo BBC Cymru fyddai'r unig wasanaeth newyddion Cymraeg ar-lein. Mae gwefan lyfryddiaethol a gwerthu llyfrau y Cyngor Llyfrau, gwales.com, yn ganolbwynt digidol ar gyfer y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, yn brif ffynhonnell ar gyfer e-gyhoeddiadau Cymraeg ac yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'w defnyddwyr.

Mae dros 65% o'r cyllid a gaiff y Cyngor Llyfrau gan Lywodraeth Cymru yn cael ei sianelu tuag at gyhoeddiadau Cymraeg. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17 dyrannwyd £1,632,550 i gyhoeddiadau Cymraeg a chlustnodwyd £666,450 ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg. At hynny, mae pob aelod o staff y Cyngor Llyfrau yn ddwyieithog. Mae nifer y cyhoeddwy'r a'r llyfrwerthwyr o fewn ardaloedd lle y ceir cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn fwy na'r hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl pe baent yn cael eu dosbarthu ar draws Cymru ar sail poblogaeth pro rata ac felly maent yn galluogi gweithwyr proffesiynol a medrus i aros o fewn cymunedau lleol, sy'n aml yn gymunedau gwledig.

Mae siopau llyfrau sy'n gwerthu cyfran fawr o lyfrau Cymraeg a deunyddiau eraill yn ganolbwynt bach i siaradwyr rhugl a dysgwyr ar gyfer yr iaith, ei llenyddiaeth a chyfeirio pobl at weithgareddau Cymraeg.

(b) Datblygu Economaidd a Chynaliadwyedd

Mae cyhoeddwy'r, argraffwyr a llyfrwerthwyr yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth medrus iawn a lled-fedrus.

Amcangyfrifir bod tua 1,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y diwydiant ac eithrio awduron - mwy os bydd cyflogaeth eraill sy'n ymwneud â llyfrau, megis llyfrgellwyr, yn cael eu cynnwys. Mae llawer sy'n cynnig gwasanaethau dylunio a golygu yn gwneud hynny fel gweithwyr llawrydd. Mae llawer o'r cwmnïau a'r unigolion hyn wedi'u lleoli yng Nghymru wledig ac yn cyfrannu at yr economi leol.

Mae rhai tai cyhoeddi a siopau llyfrau wedi'u lleoli mewn ardaloedd difreintiedig gwledig ac ôl-ddiwydiannol. Gwnânt gyfraniad cadarnhaol at economi fregus yr ardaloedd hyn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn **Atodiad 6** gyda mapiau yn dangos lleoliad cyhoeddwy a siopau llyfrau ledled Cymru.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn rhedeg Canolfan Ddosbarthu (cyfanwerthwr i bob pwrpas) sy'n ariannu ei hun ar gyrion Aberystwyth. Mae ganddi drosiant o tua £5 miliwn gros a dyma yw sylfaen gwerthiant y rhan fwyaf o gyhoeddwy yng Nghymru.

(c) Llyfrau i Blant a Darllenwyr Ifanc

Gwelwyd datblygiadau sylweddol yn y byd llyfrau Cymraeg gyda chydbwysedd o deitlau gwreiddiol ac addasiadau'n cael eu cyhoeddi ar draws yr ystodau oedran. Mae cyhoeddwy newydd megis Firefly Press hefyd wedi cyfoethogi'r amrywiaeth o lyfrau plant Saesneg sydd ar gael dros y blynyddoedd diwethaf

Mae deunydd darllen addas yn ganolog i ddatblygu gallu a chymhelliant plentyn i ddarllen sydd, yn ei dro, yn sail i sgiliau ysgrifennu a sgiliau llafar. Mae ymchwil yn dangos bod darllen er pleser yn gwella cyrhaeddiad ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu gwobr Tir Na n-Og bob blwyddyn sy'n dathlu'r llyfrau plant gorau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

(ch) Llythrennedd a Darllen

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cefnogi gweithgareddau sy'n helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i wella rhifedd a llythrennedd a datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r ystod eang o lyfrau a gyhoeddir yn addas ar gyfer darllenwyr o wahanol gefndiroedd ac yn ennyn eu diddordeb. Mae prosiectau llythrennedd, megis y cynllun Stori Sydyn llwyddiannus, wedi cael eu datblygu i wneud llyfrau'n hygyrch i'r rhai sy'n llai hyderus o ran eu sgiliau darllen. Yn fwy cyffredinol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf datblygwyd ystod eang o ddeunydd darllen deniadol a phoblogaidd sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cefnogi datblygu cyhoeddiadau digidol gan gyhoeddwy yn y Gymraeg a'r Saesneg, a datblygu llwyfannau eraill fel apiau ar gyfer cylchgronau yn y ddwy iaith. Mae ei wefan, gwales.com, yn darparu modd i ddarllenwyr gael mynediad i e-lyfrau Cymraeg a Saesneg.

(d) Trechu tlodi a gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd

Mae Strategaeth Tlodi Plant y Cyngor Llyfrau yn ddogfen fyw sy'n cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac yn cefnogi argymhellion adroddiad y Farwnes Kay Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi.²³

Mae gwaith y Cyngor Llyfrau yn cyfrannu at liniaru effeithiau tlodi. Caiff hyn ei gyflawni drwy hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau yn y meysydd hyn mewn perthynas â chynlluniau'r Cyngor Llyfrau i hyrwyddo darllen, a thrwy weithgarwch ariannu ar y cyd ag awdurdodau addysg a llyfrgelloedd. Bydd y gweithgareddau yn sail i gyfraniad y Cyngor Llyfrau at fynd i'r afael â thlodi, yn enwedig ymhlith plant.

²³ <http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf>

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cydlynu Sialens Ddarllen yr Haf ac mae'n gweithio'n agos gyda llyfrgelloedd ac ysgolion i sicrhau bod plant yn cael budd o'r prosiectau hyn. Bydd y gweithgareddau yn sail i gyfraniad y Cyngor Llyfrau at fynd i'r afael â thlodi, yn enwedig ymhlith plant.

Caiff strategaeth gyhoeddi y Cyngor Llyfrau ei llywio gan ei Strategaeth Tlodi Plant ac mae'n cynnwys gweithgareddau i hyrwyddo darllen fel sgil i drechu tlodi ymhlith teuluoedd, yn enwedig ymysg plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae digwyddiadau a drefnir ar y cyd â Diwrnod y Llyfr yn hyrwyddo cynhwysiant a chydweithredu ar draws y sector sy'n gysylltiedig â datblygu llythrennedd.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cydlynu'r gwaith o gyhoeddi teitlau Stori Sydyn/Quick Reads i'r rhai sy'n llai hyderus o ran eu sgiliau darllen ac yn hyrwyddo darllen fel sgil sy'n angenrheidiol i leddfu tlodi. Mae Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi arian ar wahân i'r Cyngor Llyfrau ar gyfer hyn.

(dd) Amrywiaeth Diwylliannol

Mae'r diwydiant cyhoeddi yn adlewyrchu i raddau helaeth, ond nid yn gyfan gwbl, amrywiaeth diwylliannol Cymru drwy gymysgedd o ysgrifennu clasurol, llenyddol a chyfoes mewn gwahanol genres. Mae'r Cyngor Llyfrau wedi gwneud penderfyniad bwriadol yn ystod y tair blynedd diwethaf i roi pwyslais ar ymestyn yr ystod o deitlau yn y ddwy iaith. Mae hyn wedi cyfrannu at hyrwyddo cydraddoldeb ymhlith darllenwyr yn ogystal â chynnig ystod o brofiadau darllen i bob darllenydd

Yn ei Gynllun Strategol, mae'r Cyngor Llyfrau yn rhestru sut y mae'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd:

- Cyflwyno diwylliant a threftadaeth Cymru drwy ystod eang o ddeunydd darllen amrywiol sy'n cyflwyno hanes Cymru a'i phobl
- Hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ei chyflwyno fel iaith fyw a pherthnasol
- Hybu llythrennedd a darllen fel sgiliau hanfodol bywyd
- Cyfrannu at raglen sy'n mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd drwy sicrhau deunydd darllen sy'n amrywiol ac yn gynhwysol
- Hyrwyddo iechyd pobl Cymru gan bwysleisio budd darllen i les yr unigolyn
- Cyfrannu at economi Cymru drwy gefnogi diwydiant cynhenid a'i gyrhaeddiad ledled Cymru
- Cyfannu diwylliannau Cymru drwy gynnig cefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer y ddwy iaith
- Cefnogi'r sector addysg drwy ddarparu deunydd darllen sy'n atodol i'r deunyddiau addysgol a noddir gan y Llywodraeth
- Hybu Cymru dramor drwy ei llenyddiaeth gyfoethog a bri ei hawduron
- Cyfrannu at y disgwrs cenedlaethol drwy gefnogi cylchgronau materion cyfoes a llenyddol ynghyd â deunydd academaidd

- Cefnogi deunydd digidol a hybu arloesedd yn y maes.

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu gyda chyfuniad o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac arian y loteri. Yn ystod 2016/17, derbyniodd Cyngor y Celfyddydau £30.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru ac £16 miliwn o arian y loteri. Mae gan Gyngor y Celfyddydau sefydliadau cenedlaethol ac mae Llenyddiaeth Cymru yn un ohonynt ar hyn o bryd. Nod Cyngor y Celfyddydau yw gwneud y celfyddydau mor ganolog ag y bo modd i fywydau a llesiant y genedl a chefnogi a meithrin y celfyddydau a rhoi llwyfan iddynt. Mae Cyngor y Celfyddydau yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac i feithrin talent ifanc. Mae'r cyfryngau digidol yn dod yn rhan gynyddol o fecanwaith cyflawni'r Cyngor.

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw'r gangen o Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n ysgogi ac yn cefnogi ymgysylltiad rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. Nod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw rhoi llwyfan rhyngwladol i gelfyddydau Cymreig a chodi proffil Cymru yn rhyngwladol.

Fel y nodwyd eisoes, yn dilyn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyhoeddi yn 2003, trosglwyddwyd y cyllid a ddarparwyd gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg i Lywodraeth Cymru yn 2003 ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Llyfrau Cymru. Cadwodd Cyngor y Celfyddydau y cyfrifoldeb dros gefnogi datblygiad awduron a hyrwyddo llenyddiaeth o Gymru yn y ddwy iaith. Ym maes llenyddiaeth a chyhoeddi rhyngwladol cefnogir Cyfnewidfa Lên Cymru hefyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yn 2011, trosglwyddodd Cyngor y Celfyddydau ei gyfrifoldebau eraill dros weithgareddau sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth i gorff newydd, Llenyddiaeth Cymru. Mae crynodeb o'r cymorth i lenyddiaeth a ddarparwyd ar ran Llywodraeth Cymru drwy Gyngor y Celfyddydau rhwng 2012-2016 ac hefyd y gefnogaeth strategol gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn y tabau yn **Atodiadau 10 a 11**.

Mae rhagor o fanylion am weithgareddau Cyngor y Celfyddydau ar ei wefan;²⁴ yn Adroddiad Blynyddol 2015-16;²⁵ yn Llythyr Cylch Gwaith 2016-17;²⁶ ac yn ei Gynllun Gweithredol ar gyfer 2016-17²⁷

Cyngor y Celfyddydau - cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Amlinellir blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Darperir gwybodaeth isod am sut y mae Cyngor y Celfyddydau wedi cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn ei Llythyr Cylch Gwaith.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Cyngor y Celfyddydau yn un o'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n dod o fewn cylch gwaith y

²⁴ <http://www.arts.wales/?diablo.lang=cym>

²⁵ http://www.arts.wales/c_adroddiadau-blynyddol/adroddiad-a-datganiadau-ariannol-2015-16

²⁶ <http://gov.wales/docs/drah/publications/170307-acw-remit-letter-cy.pdf>

²⁷ http://www.arts.wales/c_corporate-plans-and-strategies/cynllun-gweithredol?diablo.lang=cym

Ddeddf. Caiff gweithgareddau Cyngor y Celfyddydau eu harwain a'u monitro gan Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae wedi datblygu a chyhoeddi Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae hefyd wedi buddsoddi mewn prosiectau 'blaenllaw', megis *Syniadau: Pobl: Lleoedd* sy'n hyrwyddo llesiant a datblygu cynaliadwy.

Bod yn Greadigol Egnïol

Blaenoriaeth allweddol yw annog mwy o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mesur cynnydd yn erbyn y nod hwn drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddata ac ymchwil. Y prif ffynonellau gwybodaeth yw:

Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru: Rhwydwaith cenedlaethol Cyngor y Celfyddydau o 67 o sefydliadau allweddol sy'n cael arian refeniw yn flynyddol yw Portffolio Celfyddydau Cymru. Y prif ffigurau ar gyfer mynychu digwyddiadau portffolio yn 2015/16 oedd: (a) cyfanswm o 3,740,833 o fynychiadau (gostyngiad o 3.9% ers y flwyddyn flaenorol) a (b) cyfanswm o 18,336 o ddigwyddiadau (gostyngiad o 7.7%). Mae ffigurau cyfranogiad wedi cynyddu, fodd bynnag. Y ffigurau yn 2015/16 oedd 1,141,730 (cynnydd o 2.1% ers 2014/15) a chyfanswm o 71,728 o ddigwyddiadau cyfranogol (cynnydd o 4.2%).

Arolwg Omnibws Plant: Mae Cyngor y Celfyddydau yn comisiynu arolwg blynyddol o bresenoldeb a chyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r prif ffigurau ar gyfer 2016 yn cynnwys: (a) mynychodd 82.9% o blant a phobl ifanc yng Nghymru ddigwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (gostyngiad o 5.8% ers 2015), (b) cymerodd 86.3% o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (gostyngiad o 2.2% ers 2015).

Pobl anabl yn mynychu digwyddiadau celfyddydol: Mae Cyngor y Celfyddydau wedi creu'r cynllun *Hynt*, menter a gynlluniwyd i'w gwneud yn haws i bobl anabl a'u cymdeithion/gofalwyr fynychu digwyddiadau celfyddydol. Mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos bod 26 o leoliadau yn cymryd rhan yn y prosiect hwn a bod o leiaf draean o tua 8000 o ddeiliaid cardiau Hynt wedi defnyddio eu cardiau yn ystod y 18 mis diwethaf.

Ar y cyfan, er bod cyfranogiad wedi cynyddu, mae cyni economaidd parhaus yn sicr yn cael effaith. Mae Cyngor y Celfyddydau yn ystyried pa gynlluniau newydd y bydd angen iddo eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â gwahaniaethau parhaus mewn cyfraddau ymgysylltu ar draws Cymru.

Addysg a Sgiliau

Y rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* yw'r prif weithgaredd yn y maes hwn. Rhaglen pum mlynedd gwerth £20 miliwn, a ariennir ar y cyd gan Gyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru yw *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*.²⁸ Cafodd y rhaglen ei dyfeisio i gyflawni argymhellion yr adroddiad "Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru" gan yr Athro Dai Smith (2013).²⁷ Mae tri prif amcan i'r rhaglen: (i) cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd creadigol mewn ysgolion, (ii) gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd, a (iii) cefnogi athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau i ddatblygu eu sgiliau. Mae dwy elfen i'r rhaglen - *Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan*.

Mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn dod â disgyblion, athrawon, asiantau creadigol ac ymarferwyr y celfyddydau ynghyd i archwilio a datblygu dulliau creadigol o addysgu a dysgu. Ar hyn o bryd mae 279 o ysgolion yn cymryd rhan weithredol yn y cynllun. Yn 2017-2018, bydd hyn yn

²⁸ <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/arts-in-education-review/?skip=1&lang=cy>

cynyddu i dros 530 o ysgolion. Mae'r elfen y Celfyddydau ac Addysg yn canolbwyntio ar gynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol i ysgolion. O dan yr elfen hon mae Cyngor y Celfyddydau wedi sefydlu pedwar *Rhwydwaith Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg*, a'u cylch gwaith yw: (a) creu a sefydlu cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer athrawon, artistiaid a sefydliadau celfyddydol, (b) darparu hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i athrawon a gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, (c) darparu gwasanaeth broceriaeth rhwng artistiaid, sefydliadau celfyddydol ac ysgolion, a (ch) rheoli a chydgyssylltu rhaglen i adnabod arbenigwyr celfyddydol mewn ysgolion a'u cefnogi i rannu'r arbenigedd gydag ysgolion eraill.

Mae *Cronfa Profi'r Celfyddydau* yn rhoi grantiau i ysgolion, drwy gynllun "Ewch i Weld" er mwyn mynychu digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol. Mae cyllid ar gael hefyd drwy "Cydwethio Creadigol", cynllun i annog ysgolion i ddyfeisio prosiectau celf arloesol mewn cydweithrediad â sefydliadau celfyddydol.

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru: partneriaeth rhwng Tŷ Cerdd (y mae ei gylch gwaith yn cynnwys Band Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Band Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Côr Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Côr Hyfforddi Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Jazz Cenedlaethol Ieuencid Cymru a Cherddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuencid Cymru) a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (sydd â chyfrifoldeb am Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru, Theatr Genedlaethol Ieuencid Cymru a Dawns Genedlaethol Ieuencid Cymru). Ar hyn o bryd mae Cyngor y Celfyddydau yn arwain newidiadau i strwythur sefydliadol Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru, sy'n anelu at helpu i ddatblygu model busnes mwy cynaliadwy.

Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth: Ym mis Chwefror 2017, cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith y penderfyniad i greu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth. Y nod yw gwella ffurfiau presennol o gyllid sydd ar gael i helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn cerddoriaeth ac i ddatblygu eu talentau yn y maes.

Trechu Tlodi

Mae'r *Rhaglen Cyfuno* yn dechrau ar gyfnod newydd yn ei hanes yn sgil dirwyn mecanwaith cyllido Cymunedau yn Gyntaf i ben. Yn dilyn blwyddyn gyntaf lwyddiannus, mae nifer yr Ardaloedd Arloesi wedi cynyddu o chwe ardal i ddeg. Mae Cyngor y Celfyddydau yn ymwneud â phob un o'r rhain, ac mae'n parhau i chwarae rhan ragweithiol yn y Grŵp Gweithrediadau sy'n helpu i lunio'r rhaglen *Cyfuno* newydd.

Cynaliadwyedd a chynyddu'r elw ar fuddsoddiad i'r eithaf

Arian portffolio: Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd yn cynyddu'r cymorth grant ar gyfer 2017-18 3.5%, trosglwyddodd Cyngor y Celfyddydau yr un lefel o gynnydd i'w sefydliadau portffolio.

Gwynwch: rhan allweddol o ddull gweithredu Cyngor y Celfyddydau yw ei raglen "Gwynwch" newydd ar gyfer ei sefydliadau portffolio. Mae hyn yn cynnwys cyngor diagnostig arbenigol, a buddsoddiad cyfalaf (os gellir ei gyfiawnhau) i alluogi newid a meithrin gallu. Derbyniodd Cyngor y Celfyddydau 53 o ymatebion gan sefydliadau portffolio mewn ymateb i'w alwad am ddatganiadau o ddiddordeb. Ochr yn ochr â hyn, datblygodd Cyngor y Celfyddydau hefyd gyfres o ddatganiadau meistr a gweithdai arweinyddiaeth, sy'n ymdrin â materion fel rheoli newid, codi arian, eiddo deallusol, a datblygu partneriaethau.

Diogelu Seilwaith y Celfyddydau

Cefnogi gwaith partneriaid cyllido: Mae Grŵp Prosiect Awdurdodau Lleol Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn targedu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru wrth iddynt geisio datblygu eu hasesiadau o anghenion lleol. Byddant yn llunio strategaeth a chynllun gweithredu i ddangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

I gefnogi'r gwaith hwn, mae Cyngor y Celfyddydau wedi datblygu *Llyfryn Eiriolaeth* sy'n cael ei ddosbarthu i bob cadeirydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Prif Weithredwyr ac Arweinwyr awdurdodau lleol, Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru. Nod hyn yw amlygu potensial y celfyddydau, a rôl y sector wrth gefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf ar waith yn lleol. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yn cynhyrchu asesiadau o anghenion lleol erbyn diwedd mis Mawrth 2017, fel rhan o'u hymrwymiad i ddeddfwriaeth Llesiant. Byddant yn gofyn am farn Cyngor y Celfyddydau, fel ymgynghorai swyddogol.

Brand Cymru

Gweithgareddau rhyngwladol: Yn ystod 2016-17 - ac yn enwedig ers y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd - mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi mwy o bwyslais ar weithio'n rhyngwladol, fel rhan o naratif Llywodraeth Cymru sy'n datblygu yn y maes hwn. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn gweithio gyda'r British Council ar raglen prosiect grant ar y cyd ar gyfer *India Cymru*, a lansiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ym mis Chwefror. Mae dathlu 70 mlynedd ers annibyniaeth India yn cynnig cyfle pwysig i Gymru ac India adfywio a chryfhau'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli, a datblygu cyfleoedd newydd i gydweithio'n greadigol.

Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd wedi helpu Llywodraeth Cymru i ymateb i'w *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwylliannol â Tsieina*. Chwaraeodd ran ganolog o ran trefnu elfen ddiwylliannol Taith Fasnach Llywodraeth Cymru i Tsieina ym mis Chwefror 2017. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn ymwneud â pharatoi presenoldeb Cymru yn *Biennale Fenis* yn 2017 a fydd yn canolbwyntio ar waith yr artist James Richards.

Technoleg Ddigidol

Ymchwil a Datblygu Digidol: Mae gan Gyngor y Celfyddydau berthynas agos â NESTA, sydd wedi arwain at sefydlu Cronfa Arloesedd Digidol. Mae pum prosiect wedi mynd drwy'r broses Ymchwil a Datblygu lawn. Mae'r ddau sefydliad wrthi'n trafod y cam nesaf. Y meddylfryd presennol yw ehangu'r cwmpas i gynnwys mwy o sefydliadau am lai o gost fesul prosiect.

The Space: Cynhaliodd The Space, ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau ac Academi'r BBC, ddiwrnod celfyddydau digidol ym mis Tachwedd 2016. Mynychodd dros 90 o gynrychiolwyr y digwyddiad, a oedd yn cynnwys trafodaethau panel, arddangosiadau rhyngweithiol a gweithdai ar themâu yn amrywio o gyfleu'r celfyddydau ar sgrin i greu profiadau rhyngweithiol gyda thechnoleg i gynulleidfaoedd.

Y Celfyddydau ac Iechyd

Datblygu Polisi: Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu dull cydgysylltiedig o greu strategaeth ar gyfer y dyfodol, rhwng Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru.

Mae Grŵp Trawsbleidiol ar Gelfyddydau ac Iechyd, o dan gadeiryddiaeth Eluned Morgan AC, yn ystyried y syniad o gyd-gomisiynu ac ariannu astudiaeth i'r Celfyddydau ac Iechyd yng Nghymru, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r astudiaeth ymchwil. Yn y cyfamser, mae rhwydweithiau Celfyddydau ac Iechyd yn parhau i dyfu'n organig. Mae ENGAGE, y

sefydliad celfyddydau gweledol, yn cydlynu rhwydwaith Cymru gyfan, ac yn cynnal cyfarfodydd yn y De a'r Gogledd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi atgyfodi ei gyfarfodydd Grŵp Llywio ar draws Gogledd Cymru.

Yn sgil symposiwm a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cododd diddordeb mewn sefydlu 'Cymuned o Ddiddordeb' yn ymwneud â'r Celfyddydau ac Iechyd o dan faner *1000 o Fywydau* (y gwasanaeth gwella cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru). Mae i hyn botensial cyffrous i ddod â chydweithwyr ynghyd o'r sectorau iechyd a chelfyddydol, sydd â diddordeb yn y maes, ar ffurf rhwydwaith sy'n gysylltiedig â gwella o fewn system y GIG.

Drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2016, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru fel rhan o *Muriau*, yr ail Wyl Celfyddydau ac Iechyd Meddwl a drefnwyd gan Celfyddydau Anabledd Cymru, Ynys Môn a Mind Gwynedd, a Making Minds. Mae'r wyl yn anelu at chwalu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, a chynyddu mynediad i'r celfyddydau ar gyfer y rhai sy'n dioddef salwch meddwl yn ogystal â rhoi llwyfan i artistiaid sy'n byw gyda salwch meddwl.

LLENYDDIAETH CYMRU

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dynodi Llenyddiaeth Cymru yn Gwmni Cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2011 ar ôl uno Academi, yr Asiantaeth Hyrwyddo Llenyddiaeth Genedlaethol a gweinyddwr yr Academi Gymreig (Cymdeithas Awduron Cymru) a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd sydd wedi'i lleoli mewn tŷ a chando gysylltiadau hanesyddol gyda David Lloyd George.

Rôl Llenyddiaeth Cymru yw hwyluso ac ysgogi rhaglenni a digwyddiadau llenyddol ledled Cymru, a hyrwyddo'r gorau o blith ein llenyddiaeth yn rhyngwladol. Mae hefyd yn datblygu ac yn cefnogi llenorion Cymru ar bob cam o'u taith lenyddol.

Fel yr adlewyrchir ar wefan Llenyddiaeth Cymru, ers 2011, mae'r sefydliad wedi:

- ymgysylltu â thros 700,000 o gyfranogwyr, gan gynnwys 255,000 o bobl ifanc mewn gweithgareddau llenyddol dros Gymru
- dyfarnu 140 o Ysgoloriaethau i Awduron gan gynnwys 57 i awduron newydd. Mae llawer o'r derbynwyr hyn wedi mynd ymlaen i gyflawni llwyddiant ac ennill gwobrau o bwys am waith ysgrifenedig gyda chefnogaeth yr ysgoloriaethau, gan gynnwys Jonathan Edwards (Enillydd Gwobr Farddoniaeth Costa 2014), a Kate Hamer (a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Nofel Gyntaf Costa 2015). Ysgoloriaethau a ddyfarnwyd hyd yma: £481,000
- dwysáu ei gwaith gyda phlant a phobl ifanc drwy sefydlu'r rôl newydd Awdur Llawryfog Pobl Ifanc Cymru a chryfhau cysylltiadau â phrosiectau eraill yng Nghymru, megis Bardd Plant Cymru, yn ogystal â dod â'r model Americanaidd poblogaidd, Slam, i Gymru
- ymestyn cyrhaeddiad Menter Datblygu Llenyddiaeth De Cymru drwy gydweithio ag amryw o bartneriaid gan gynnwys Mind, Celf Gwent mewn Iechyd, National Literacy Trust, Grŵp Cymorth i Geiswyr Lloches Bae Abertawe ac Awdurdodau Lleol
- arwain ar ddathliadau canmlwyddiant nodweddiadol megis Gŵyl Dylan Thomas 100, R S Thomas a Roald Dahl 100 Cymru trwy greu rhaglen twristiaeth lenyddol a phrosiectau

addysg ac ymgysylltu ar ran Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.

- ailddatblygu Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Ashley Family Foundation a'r Academi Gymreig
- creu'r prosiect digidol newydd, Her 100 Cerdd, er mwyn dathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth. Mae'r her i bedwar bardd ysgrifennu 100 cerdd mewn 24 awr yn denu cynulleidfa ar-lein o dros 10,000 yn flynyddol a thros 2,500 o ddarllenwyr unigol.

Caiff Llenyddiaeth Cymru ei rheoli gan gyfarwyddwyr anweithredol di-dâl. Mae Llenyddiaeth Cymru yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant ac yn Elusen gofrestredig. Caiff ei reoli gan Fwrdd o un ar ddeg o Gyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr.

Cyngor y Celfyddydau sy'n ariannu Llenyddiaeth Cymru ac mae wedi bod yn rhan o'i bortffolio o sefydliadau sy'n cael Arian Refeniw ers rhai blynyddoedd. Mae Cyngor y Celfyddydau yn trin Llenyddiaeth Cymru fel cwmni cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo Llenyddiaeth. Yn dilyn 'Adolygiad Buddsoddi' Cyngor y Celfyddydau yn 2015, mae'r Cyngor yn parhau i ddiffinio Llenyddiaeth Cymru fel Sefydliad sy'n cael Arian Refeniw. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cefnogi gweithgareddau llenyddol eraill (e.e. digwyddiadau megis Gŵyl y Gelli).

Yn 2016-17, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau £717,163 o arian refeniw craidd i Llenyddiaeth Cymru o gronfa cymorth grant y Cyngor. Neilltuodd Cyngor y Celfyddydau hefyd £151,000 mewn cyllid prosiect i Llenyddiaeth Cymru o'i gyllideb Loteri Genedlaethol

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cynrychioli buddiannau awduron Cymreig o fewn Cymru ac yn rhyngwladol ac yn annog pobl i fwynhau gwaith ysgrifennu gan eraill ac i ysgrifennu eu hunain, drwy raglen o weithdai, cyrsiau, gwyliau a chystadlaethau. Ymysg gwasanaethau Llenyddiaeth Cymru mae mentora, ysgoloriaethau, gwybodaeth a chyngor i awduron, ac asesiad annibynnol o lawysgrifau. Nod Llenyddiaeth Cymru yw rhoi llenyddiaeth wrth galon agendâu llesiant, llythrennedd, cyflogaeth a sgiliau ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod llenyddiaeth yn cael ei gweld fel rhan hanfodol o fywyd cytbwys, ymgysylltiedig ac iach. Mae'n gwneud hyn drwy:

➤ Wella cyfleoedd i gymryd rhan mewn llenyddiaeth:

- Awduron ar Daith
- Llyfr y Flwyddyn
- Mentrau Datblygu Rhanbarthol
- Lolfeydd Llenyddiaeth mewn gwyliau
- Twristiaeth Lenyddol

➤ Darparu llwyfannau ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed, gallu a chefnidir i greu a mwynhau'r byd llenyddol o'u cwrpas:

- Awdur Llawryfog Pobl Ifanc
- Bardd Plant Cymru
- Gweithdai ysgrifennu creadigol mewn ysgolion - Dylanwad ac Awduron ar Daith
- Cyfnodau preswyl i Ysgolion yn Nhŷ Newydd

- Sgwadiâu Sgwennu Pobl Ifanc
 - Slam Cymru
 - Gŵyl Llên Plant Caerdydd
- Datblygu a chefnogi awduron ar bob cam o'u taith ysgrifennu er mwyn cyflawni eu llawn botensial:
- Ysgoloriaethau i Awduron
 - Mentora a Gwasanaethau Beirniadol
 - Cyrsiâu Ysgrifennu a Dosbarthiadau Meistr yn Nhŷ Newydd
 - Gwybodaeth a hyfforddiant
- Gweithio mewn partneriaeth er mwyn codi proffil rhyngwladol awduron a gwaith o Gymru:
- Cyllid ar gyfer grantiau cyfieithu drwy Gyfnewidfa Llên Cymru
 - Rôl lysgenhadol Bardd Cenedlaethol Cymru
 - Gweithio ar ddigwyddiadau mawr a dathliadau canmlwyddiant e.e. Dylan Thomas100 a Roald Dahl 100
- Cynyddu ymgysylltiad â llenyddiaeth drwy lwyfannau digidol:
- Her 100 Cerdd
 - Y Neuadd
 - Cerdd Fawr Dylan
 - Lansio rhestr fer Llyfr y Flwyddyn ar lein.

Mae manylion pellach am weithgareddau Llenyddiaeth Cymru ar ei gwefan;²⁹; i Cynllun Busnes³⁰ ac adroddiad Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru a Datganiadau Ariannol 2015-16³¹

Cyflwynodd swyddogion ac aelod o Fwrdd Llenyddiaeth Cymru yr wybodaeth gefndir a ganlyn i'w hystyried gan y Panel pan roddodd dystiolaeth lafar iddo:

- Mae'r diffiniad o lenyddiaeth yn hollbwysig i gylch gorchwyl yr adolygiad. Nid yw lenyddiaeth yn perthyn i'r llyfr cyhoeddedig yn unig ond y gellir ei llefaru, ei pherfformio, yn ogystal â'i chyhoeddi ac mae lenyddiaeth yn perthyn i bawb.
- Ers ei sefydlu yn sgil uno Academi a Thŷ Newydd, mae Llenyddiaeth Cymru wedi ehangu ac mae'n sefydliad sy'n croesawu newid.

²⁹ <http://www.lenyddiaethcymru.org/>

³⁰ https://issuu.com/llencymru-litwales/docs/literature_wales_business_plan_2016

³¹ https://issuu.com/llencymru-litwales/docs/literature_wales_signed_accounts_20

- Mae Llenyddiaeth Cymru yn cwmpasu pob math o ysgrifennu gan gynnwys llwyfannau digidol, ac mae'r ffocws ar ddarllenwyr yn ogystal ag awduron, plant yn ogystal ag oedolion, cymunedau o bob cenedl a'r difreintiedig.
- Pum strategaeth allweddol Llenyddiaeth Cymru yw:
 - Cymryd Rhan
 - Cefnogi Awduron
 - Plant a Phobl Ifanc
 - Rhyngwladol
 - Creadigrwydd digidol
- Cynllun Busnes presennol Llenyddiaeth Cymru yw'r ail gynllun o'r fath ers ei sefydlu, ac mae'n amlinellu nodau a gwerthoedd y sefydliad.
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llenyddiaeth Cymru wedi datblygu perthynas â Llywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio gyda sefydliadau eraill gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r British Council.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn ceisio alinio ei hun gyda Themâu Llywodraeth Cymru; Blwyddyn Antur, Blwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr, ac yn cydblethu'r rhain yn ei rhaglen weithgaredd.
- Ymysg cynlluniau Llenyddiaeth Cymru ar gyfer y Flwyddyn Chwedlau yn 2017 mae datblygu strategaeth twristiaeth lenyddol yn ogystal â gweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru ar brosiect barddoniaeth i ddatlu Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yng Nghaerdydd, gan y bydd hyn yn denu sylw rhyngwladol.
- Cafodd y bardd Llion Jones arian gan Llenyddiaeth Cymru i ysgrifennu barddoniaeth yn ystod Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop yn Ffrainc yn ystod Haf 2016.
- Mae gan Llenyddiaeth Cymru berthynas dda gyda'r wasg yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda'r BBC, a chysylltiadau cadarn gyda *Radio 4* a *The Guardian*.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn un o saith elfen a gefnogir gan Cyngor y Celfyddydau ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod strategaethau ar y cyd.
- Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Theatr Genedlaethol Cymru ac mae'n aml yn gweithio gydag Opera Cenedlaethol Cymru.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn datblygu strategaeth newydd ar drechu tlodi mewn diwylliant ac mae'n cysoni ei blaenoriaethau â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Llenyddiaeth Cymru wedi cynllunio rhaglen o ddigwyddiadau gan gynnwys gweithio y tu allan i'r maes lenyddol gyda chwaraeon, digartrefedd a'r diwydiant twristiaeth.
- Gweledigaeth Llenyddiaeth Cymru yw bod Llenyddiaeth yn perthyn i bawb.
- Ar hyn o bryd mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio ar strategaeth monitro a gwerthuso.

Cymryd Rhan

Nod Llenyddiaeth Cymru yw cynyddu amrywiaeth o weithgareddau llenyddol, gweithio gyda phobl sydd dan anfantais (e.e. y rhai nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant) a gweithio gyda phartneriaid cymunedol cynaliadwy.

Yn ddiweddar mae Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio gyda'r canlynol:

- Slam Wreccsam
- Awdur Pobl Ifanc Sophie McFinne sy'n gweithio gyda chymunedau i annog y cyfranogwyr i ysgrifennu darn o waith i'w berfformio ar lwyfan.
- Canmlwyddiant Roald Dahl
- Ffoaduriaid
- Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd

Cefnogi Awduron

- Cefnogi awduron i ragori ar bob cam o'u gyrfa
- Buddsoddi mewn ysgoloriaethau i awduron (300 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ers cymryd yr awenau oddi wrth Academi)
- Cefnogi Writers At Work yng Ngŵyl y Gelli

Plant a Phobl Ifanc

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio gyda:

- Gwobr Costa
- Y Fedal Ryddiaith
- Ysgoloriaethau i awduron newydd.

Strategaeth Ryngwladol

- Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio i hyrwyddo awduron Cymreig ar lwyfan rhyngwladol, a chymerodd ran yn sioe Ryngwladol Llenyddiaeth Prydain, gan weithio gyda'r British Council a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.
- Yng Ngŵyl y Gelli, mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio gydag awduron i hyrwyddo eu hunain ymhellach, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Strategaeth Ariannol

- Mae Llenyddiaeth Cymru yn derbyn £1.2 miliwn, a daw £717,000 o hynny gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor y Celfyddydau, gydag arian y loteri a grantiau uniongyrchol penodol (gan gynnwys grant gan Lywodraeth Cymru) ac incwm elusennol yn ategu hyn.
- Caiff 80% o hyn ei wario ar bobl (staff, awduron cymorth) gyda miliynau'n cyrraedd unigolion ac yn cyfrannu at yr economi.
- Hefyd, mae 80% o'r holl wariant ar brynu yn cael ei wario gyda chyflenwyr Cymreig.
- Mae Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio i sefydlu ffrydiau incwm newydd drwy nawdd ac i gynyddu cysylltiadau busnes. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cynyddu aelodaeth a gweithgaredd codi arian. Mae Llenyddiaeth Cymru eisoes wedi bod yn llwyddiannus gyda cheisiadau (gan gynnwys ceisiadau i The Barbican) ac mae'n gobeithio y bydd 10% o'i holl incwm yn dod o nawdd a thrwy arian masnachol erbyn 2019.

Tŷ Newydd

- Daeth Tŷ Newydd yn rhan o Lenyddiaeth Cymru - nid oedd wedi bwriadu cymryd yr awenau ond rhoddwyd y cyfrifoldeb i Lenyddiaeth Cymru ac roedd cyflwr yr adeilad wedi dirywio. Bellach mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phortmeirion.
- Mae Tŷ Newydd yn darparu cyrsiau a gweithdai ac mae wedi datblygu perthynas gyda phobl leol a'r amgueddfa leol. Mae'r lleoliad bellach wedi'i drwyddedu ar gyfer priodasau a bydd ar gael ar gyfer digwyddiadau corfforaethol er mwyn ceisio denu incwm.

Sylwadau Eraill

- Roedd ecoleg yn ystyriaeth gref, a'r ffaith bod gan wrando ar farddoniaeth le cadarn mewn ecoleg yn yr un modd â gig neu ddarllen llyfr.
- Fel rhan o gefnogaeth Llenyddiaeth Cymru i wyliau, bydd y ffocws yn symud yn fwy tuag at hwyluso pobl eraill yn hytrach na rheoli digwyddiad.
- Cwestiynodd Llenyddiaeth Cymru Gylch Gorchwyl y Panel ac awgrymodd y dylai'r Panel ystyried argymhell i'r Gweinidogion bod angen ymarfer mapio cynhwysfawr o'r hyn sy'n digwydd yn awr yn y meysydd darllen, ysgrifennu a digidol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth sy'n 'wynebu'r dyfodol' (gyda chyfraniad gan Lenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru).

Cyfnewidfa Lên Cymru

Mae Cyfnewidfa Lên Cymru a leolir yn Sefydliad Mercator ym Mhrifysgol Aberystwyth, wedi ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn cysylltu awduron, cyfieithwyr, cyhoeddwr ac asiantaethau eraill sydd yn ymwneud â hwyluso cyfnewid llenyddol rhwng Cymru a'r byd. Mae ganddi Gronfa Cyfieithu (£20k y flwyddyn) sydd ar gael i gyhoeddwr i gefnogi costau cyfieithu cyhoeddi llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg (o Gymru). Sefydlwyd Cyfnewidfa Lên Cymru yn 1988 fel Llenyddiaeth Cymru Dramor gan ail-frandio ar ôl hynny er mwyn cydnabod natur gyfatebol ei gwaith. Mae'n gweithio'n agos gyda Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau (Platfform Ewropeaidd ar gyfer Cyfnewid Llenyddol a Thrafodaeth ar Bolisi), Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Llenyddiaeth Cymru, y Cyngor Prydeinig, , prifysgolion, cyfieithwyr, cyhoeddwr, awduron, asiantaethau cyfnewid llenyddiaeth tebyg a rhan-ddeiliaid allweddol ledled y byd

Ymchwil i weithio'n rhyngwladol yn y sector llenyddiaeth yng Nghymru

Yn ystod 2016, cwblhaodd Arad, y cwmni ymchwil annibynnol, ei astudiaeth ymchwil i weithio'n rhyngwladol yn y sector llenyddiaeth yng Nghymru: 'Ymchwil i weithio'n rhyngwladol ym maes llenyddiaeth yng Nghymru'³². Mae'r Crynodeb Gweithredol wedi cael ei gyhoeddi, ond nid yr adroddiad llawn (dim ond drwy wneud cais i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru y mae ar gael ar hyn o bryd)

Yr argymhellion oedd:

1. Dylid datblygu strategaeth ymgysylltu rhyngwladol drosfwaol, gynhwysol ac uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar anghenion artistig a masnachol y sector llenyddol;

³² <http://www.wai.org.uk/news/6883?diablo.lang=cym>

2. Dylai swyddogaethau sefydliadau unigol gael eu diffinio'n well, a'u cysylltu â'r gwaith o wireddu'r strategaeth mewn strwythur partneriaeth cydlynol. Dylai'r broses hon fod yn gysylltiedig â chyllido sefydliadau'n gymesur yn ôl eu swyddogaethau a'u harbenigedd;
3. Mae preswylfeydd awduron, grantiau cyfieithu a chymorth i deithio i gyd yn rhan ganolog o gefnogi artistiaid i ymgysylltu'n rhyngwladol, a dylid eu cyllido mewn modd cynaliadwy. Dylai'r cyllid hwn fod yn gysylltiedig â nodau cyffredinol y strategaeth, a'r gwaith o fonitro'r effaith a gânt;
4. Dylid adolygu'r lefelau cymorth presennol yn unol â'r swyddogaethau ac arbenigedd sefydliadol a ragwelir er mwyn gwella mynediad ac ansawdd. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â mwy o waith hyrwyddo ar draws y sector ynglŷn â'r mathau o gymorth sydd ar gael, a'r sefydliad a all roi'r cymorth hwnnw yn y modd mwyaf effeithiol;
5. Dylai Cyfnewidfa Lên Cymru gael cymorth ychwanegol drwy'r strategaeth, er mwyn ei galluogi i ychwanegu at ei harbenigedd o ran cyfieithu a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol;
6. Dylai grantiau marchnata gael eu cyflwyno unwaith eto i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu masnachol Cyngor Llyfrau Cymru mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol a digwyddiadau perthnasol eraill. Dylai'r gweithgareddau hyn fod yn gysylltiedig â'r cynllun marchnata a amlinellir isod yn argymhellad 7;
7. Dylid datblygu cynllun realistig a dargedir er mwyn canfod marchnadoedd rhyngwladol. Dylai hwn fod yn gysylltiedig â strategaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a dylai ychwanegu at waith ymgysylltu rhyngwladol blaenorol lle bo'n berthnasol;
8. Dylid rhoi systemau ar waith i fonitro a rhannu data rhwng sefydliadau ynglŷn â'r effaith y mae gwaith ymgysylltu rhyngwladol wedi ei chael;
9. Dylid targedu cyllid cynaliadwy at ddenu awduron a chyhoeddwyr rhyngwladol i Gymru fel rhan o ymgyrch i gefnogi a datblygu gwyliau a rhwydweithiau teithio ar lawr gwlad;
10. Dylai gweithgarwch cenedlaethol a rhyngwladol fod yn gysylltiedig, drwy sicrhau bod cysylltiadau rhwng awduron a sefydliadau sy'n gweithio'n rhyngwladol gyda rhaglenni llenyddol a gweithgareddau twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru.

Ymatebodd Cyngor y Celfyddydau i adroddiad ARAD drwy gydnabod ei rôl o ran cyflawni yn erbyn argymhellion yr adroddiad ac yn ymrwymo i gamau gweithredu penodol i sicrhau bod sefydliadau yn dod at ei gilydd yn ôl yr angen i wneud hynny.

Gweithgareddau a ariennir gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru

Cyfanswm y cyllid gan yr Adran hon o Lywodraeth Cymru yn ystod 2016-17 ar gyfer ymyriadau i gefnogi codi safonau llythrennedd a rhifedd yw **£860,475**. Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid a roddwyd i Gonsortia Addysg Rhanbarthol drwy'r Grant Gwella Addysg i ddarparu cefnogaeth ar lythrennedd a rhifedd

Darpariaeth Book Trust Cymru - Elusen sy'n cwmpasu'r DU gyfan yw Book Trust sy'n cynnal rhaglenni i hyrwyddo llyfrau a darllen. Mae Book Trust Cymru, fel sefydliad ar wahân, yn rheoli pedair rhaglen sy'n gweithredu yng Nghymru, a ariennir gan yr Adran (cyfanswm y grant ar gyfer 2016-17 - **£ 700,000**):

- **Dechrau Da** - i annog pob rhiant/gofalwr i rannu llyfrau, straeon a rhigymau gyda'u plant o oedran ifanc ac yn rheolaidd er mwyn cefnogi eu datblygiad gwybyddol, cymdeithasol-emosiynol a chyn-lythrennedd, gan gynnwys datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy ddsbarthu bagiau llyfrau ac adnoddau dwyieithog drwy Ymwelwyr Iechyd yn y flwyddyn gyntaf o fywyd ac eto yn 18-27 mis. (grant - **£348,475**)

Pori Drwy Stori: Llythrennedd - i godi safonau Llythrennedd ymysg plant dosbarthiadau Derbyn ac yn y tri maes dysgu craidd yn y Cyfnod Sylfaen drwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant o ansawdd uchel i gefnogi ysgolion i gynnwys rhieni/gofalwyr yn addysg eu plant a chreu cyswllt cadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref. (grant - **£124,902**).

- **Pori Drwy Stori: Rhifedd** - adnoddau i gefnogi dealltwriaeth a defnydd o sgiliau rhifedd sylfaenol drwy gynnwys plant a rhieni/gofalwyr mewn gemau a gweithgareddau mathemateg pleserus yn y cartref ac yn yr ysgol, ac annog chwarae gyda rhifau a sgwrsio am rifau. Mae'r adnoddau yn annog rhieni/gofalwyr i gynnwys eu plant mewn gweithgareddau rhifedd yn eu bywydau bob dydd. (grant - **£93,628**)
- **Clwb Blwch Llythyrau** - i wella rhagolygon addysgol ar gyfer plant mewn gofal maeth drwy gynnwys plant mewn gweithgareddau darllen er pleser a rhifedd yn y cartref. Mae'r Clwb Blwch Llythyrau ar gael i blant ym Mlynnyddoedd 1 i 8, gyda pharseli ar gael i blant am yn ail flwyddyn. (grant - **£132,995**)

Rhaglen Hybu Darllen -

Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu cyllid grant blynyddol i Gyngor Llyfrau Cymru i gefnogi'r Rhaglen Hybu Darllen. Y ffocws yw hybu, annog a chynyddu gwerthfawrogiad a diddordeb mewn darllen a llenyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc.

Cyfanswm grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Hybu Darllen Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer 2016-17 yw **£160,475**. Mae'r rhaglen yn cynnwys y pedair elfen a ganlyn.

- **Stori Sydyn** - adnodd i oedolion yn bennaf sy'n canolbwyntio ar hybu darllen; mae'r cyllid yn cwmpasu comisiynu 4 teitl (2 deitl Cymraeg a 2 deitl Saesneg), ynghyd â deunyddiau hyrwyddo a chostau dosbarthu (grant - **£55,100**) Mae'r llyfrau *Stori Sydyn* wedi cyflwyno cannoedd ar filoedd o bobl newydd i ddarllen, ac wedi annog darllenwyr presennol i ddarllen mwy. Maent wedi cyrraedd rhai o'r bobl fwyaf economaidd ddifreintiedig, gan helpu i wella mynediad i ddarllen. Defnyddir y teitlau Cymraeg yn helaeth hefyd gan ddysgwyr neu'r rhai nad ydynt mor hyderus o ran eu sgiliau Cymraeg.
- **Diwrnod y Llyfr** - ymgyrch ledled y DU, sy'n dathlu llyfrau a darllen. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn paratoi pecynnau athrawon sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, gan weithio gyda gwasanaethau addysg a llyfrgelloedd ar draws awdurdodau lleol i ddarparu amrywiol weithgareddau lleol. (grant - **£58,500**)
- **Sialens Ddarllen yr Haf** - rhaglen a weithredir mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Ddarllen, sy'n canolbwyntio ar annog plant i barhau i ddarllen drwy gydol gwyliau haf yr ysgol (grant - **£26,400**)
- **Cystadleuaeth Ysgrifennu Creadigol** - cynnal a rheoli cystadleuaeth ysgrifennu creadigol wedi'i hysbrydoli gan Roald Dahl a chyhoeddi blodeugerdd o'r ceisiadau buddugol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gynnal ochr yn

ochr ag amrywiaeth o weithgareddau swyddogol a drefnwyd gan bartneriaid Grŵp Llywio Roald Dahl 100 Cymru, ac yn ategu'r gweithgareddau hynny. (grant - £20,475)

Cangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru

Mae'r gangen yn canolbwyntio ar adnoddau addysgol Cymraeg a dwyieithog. Mae'r gangen yn comisiynau adnoddau nad ydynt yn cael eu cynhyrchu'n fasnachol i gynnal a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 3-19 oed. Mae'r gangen yn cynhyrchu adnoddau cyfrwng Cymraeg (print a digidol) ar gyfer pob pwnc, oedran a gallu, o'r Cyfnod Sylfaen i bynciau 14-19, yn ogystal ag adnoddau i gefnogi dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Caiff adnoddau hefyd eu cynhyrchu'n ddwyieithog os ydynt yn cefnogi'r gwaith o gyflawni agweddau sy'n benodol berthnasol i Gymru ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Roedd llai na 5% o'r teitlau a gefnogir gan y Gangen yn rhai llenyddiaeth yn unig.

Mae gan Gangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg gyllideb o £2.65 miliwn i wella darparu deunyddiau i gefnogi dysgu ac addysgu yn y cwricwlwm cenedlaethol gan gynnwys rhifedd a llythrennedd. Mae'r Gangen wedi comisiynu apiau Cymraeg yn sgil nodi bod diffyg adnoddau digidol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu fersiynau Cymraeg o adnoddau asesu a chymwysterau a gynhyrchwyd yn fasnachol gan gyhoeddwr yn Lloegr i sicrhau bod fersiynau Cymraeg ar gael.

Ar gyfer adnoddau print mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwahaniaeth rhwng cost cynhyrchu a'r incwm posibl i gyflenwyr o werthu'r deunyddiau. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid llawn ar gyfer adnoddau digidol.

Mae'r broses gomisiynu yn dechrau drwy nodi bylchau yn yr adnoddau sydd ar gael drwy gynnal cyfarfodydd o baneli athrawon o bob cwr o Gymru ar gyfer pob pwnc yn y cwricwlwm. Mae'r anghenion a nodir yn bwydo i'r rhaglen gomisiynu. Ar hyn o bryd mae tua 100 o deitlau newydd bob blwyddyn.

Caiff adnoddau eu comisiynu yn bennaf drwy fframwaith o gyflenwyr cymeradwy. Mae 23 o ddarparwyr ar y fframwaith. Caiff rhai prosiectau eu comisiynu y tu allan i'r Fframwaith drwy dendrau unigol lle mae cyflenwr mewn sefyllfa unigryw i gynhyrchu'r adnodd, ee rhesymau hawlfraint. Caiff tendrau eu barnu ar sail nifer o feini prawf gan gynnwys cost, cynnwys ac arbenigedd addysgol. Y gymhareb bresennol o adnoddau digidol i ddeunydd print yw 60:40. Dyfarnwyd contract i gynhyrchu'r teitlau a gomisiynir mewn fformatau sy'n addas i ddysgwyr dall a rhannol ddall i RNIB.

Mae'r Gangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg yn cyd-drafod gyda'r Cyngor Llyfrau fel rhan o'i waith comisiynu adnoddau dysgu er mwyn nodi synergeddau posibl o ran comisiynu.

Un o ofynion y contract yw i'r holl adnoddau print a gomisiynir gan y gangen gael eu dosbarthu gan Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau. Golyga hyn y gall yr adnoddau gael eu harchebu a'u prynu o siopau llyfrau ledled Cymru. Mae gwybodaeth lyfryddol am yr holl deitlau a gomisiynir ar gael ar wefan y Cyngor Llyfrau www.gwales.com³³. Mae adnoddau digidol a gomisiynir gan y gangen ar gael yn rhad ac am ddim ar Hwb.

Roedd gwaith Cymraeg gwreiddiol ar gynnydd, a'r gymhareb rhwng gwaith gwreiddiol ac addasiadau yw tua 70:30. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyflenwi ysgolion yn uniongyrchol ac mae ysgolion yn prynu deunyddiau'n uniongyrchol gan y Cyngor Llyfrau neu o siopau llyfrau.

³³ www.gwales.com

Mae Swyddogion Ysgol y Cyngor Llyfrau yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion cynradd ac uwchradd i alluogi ymarferwyr i edrych yn fanwl ar yr adnoddau cyn eu prynu. Er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf, mae'r Gangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg yn cwrdd â Swyddogion Ysgol y Cyngor Llyfrau bob blwyddyn i rannu gwybodaeth am yr adnoddau sydd i'w cyhoeddi a'r adnoddau a gomisiynwyd yn ddiweddar. Mae Swyddogion Ysgol y Cyngor Llyfrau hefyd yn hysbysu'r gangen am awgrymiadau ar gyfer adnoddau newydd y maent wedi'u casglu gan ymarferwyr.

Mae cyngor ymarferwyr addysg yn ganolog i'r broses o adnabod a blaenoriaethu adnoddau i'w comisiynu, a chaiff syniadau a gesglir gan y Cyngor Llyfrau eu cynnwys yn nhrefnadaethau'r panel cynghori a gynhelir gan y gangen. Mae'r paneli cynghori yn cynnwys ymarferwyr o'r sectorau addysg cynradd, uwchradd a phellach ac yn cael eu harwain gan arbenigwyr pwnc a benodir gan Lywodraeth Cymru. Cynhelir ymarfer tendro ar gyfer yr adnoddau sy'n cael eu blaenoriaethu i'w comisiynu o fewn Cytundeb Fframwaith Ewropeaidd. Mae'r adnoddau a gynhyrchir yn destun proses sicrwydd ansawdd gan grŵp o ymarferwyr a arweinir gan arbenigwr pwnc Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn bodloni gofynion y cwricwlwm a'r fanyleb wreiddiol. Ar hyn o bryd mae'r gangen hefyd yn darparu cyllid grant i CBAC er mwyn cynhyrchu fersiynau Cymraeg o adnoddau sy'n cael eu hysgrifennu'n benodol i gefnogi manylebau arholiadau CBAC.

Roedd y BBC yn arfer mynychu cyfarfodydd blynyddol y paneli. Fodd bynnag, mae'r berthynas rhwng y Gangen a'r BBC bellach yn fwy ad hoc, e.e. roeddent wedi cyd-drafod adnoddau ar gyfer Cymraeg i oedolion, ac roedd y BBC wedi cysylltu â'r adran ynglŷn â Bitesize a Jam i sicrhau na fyddai'n cael effaith negyddol ar y cyhoeddwy. Cyfarfu'r Gangen hefyd ag S4C yn ddiweddar i ymchwilio i bosibiliadau ar gyfer cydweithio.

Ar 26 Ebrill 2017, trefnodd Llywodraeth Cymru uwchgynhadledd yng Nghaerdydd i fynd i'r afael â phryderon am y cyflenwad a chreu adnoddau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gyfer cymwysterau newydd Cymru a'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Daeth yr uwchgynhadledd â chynrychiolwyr ynghyd o Lywodraeth Cymru, CBAC, Cymwysterau Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, consortia addysg, CYDAG ac eraill i edrych ar ddarparu'r deunyddiau cywir ar gyfer y system addysg yng Nghymru.

Ystyriodd yr uwchgynhadledd y canlynol:

- Y sefyllfa bresennol ar gyfer adnoddau cyfrwng Cymraeg.
- Nodi'r heriau a'r materion ar gyfer y dyfodol ar gyfer adnoddau Cymraeg a Saesneg i ddiwallu anghenion y cwricwlwm a'r cymwysterau diwygiedig.
- Cyfle i gynnig syniadau ar gyfer y ffordd ymlaen.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ymrwymedig i sicrhau bod adnoddau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd a bod angen sefydlu seilwaith Cymru gyfan a fydd yn galluogi cynhyrchu adnoddau dwyieithog i ddiwallu anghenion ein cwricwlwm newydd.

Cwricwlwm Newydd i Gymru

Mae cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â gweithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru. Yr uchelgais yw y gallai fod ar gael i leoliadau ac ysgolion mor gynnar â 2018 a'i ddefnyddio fel sail i ddysgu ac addysgu ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 oed o fis Medi 2021 ymlaen.

Cyhoeddwyd adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru³⁴, *Dyfodol Llwyddiannus*, ym mis Chwefror 2015 ac roedd yn cynnwys y sylfeini ar gyfer cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain yn seiliedig ar y meddylfryd cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf.

Bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd. Bydd yn adeiladu ar eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a chymhwyso eu gwybodaeth am eu pwnc yn fwy cadarnhaol a chreadigol. Wrth i'r byd newid, byddant yn fwy abl i addasu mewn modd cadarnhaol.

Byddant hefyd yn meithrin dealltwriaeth ddofn o sut i ffynnu mewn byd sy'n fwyfwy digidol. Mae fframwaith cymhwysedd digidol newydd ar gael sy'n cyflwyno sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm, gan baratoi pobl ifanc ar gyfer y cyfleoedd a'r risgiau a ddaw yn sgil byd ar-lein. Bydd athrawon yn cael mwy o ryddid i ddysgu mewn ffyrdd y byddant yn teimlo a fydd yn arwain at y deilliannau gorau i'w dysgwyr.

Prif ffocws y trefniadau asesu fydd sicrhau bod dysgwyr yn deall sut y maent yn perfformio a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf. Bydd pwyslais o'r newydd ar asesu ar gyfer dysgu fel nodwedd hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu.

Mae rhwydwaith o Ysgolion Arloesi yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Mae'r ysgolion arloesi hyn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel Estyn, y consortia rhanbarthol, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys arbenigwyr o Gymru ac arbenigwyr rhyngwladol i lunio fframwaith y cwricwlwm newydd. Maent wedi bod yn canolbwyntio ar lunio strwythur y cwricwlwm ac ystyried dyluniad strategol ac egwyddorion craidd fframwaith y cwricwlwm newydd. Maent wedi bod yn datblygu'r agweddau canlynol:

- Asesu a Chynnydd
- Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd
- Cyfoethogi a Phrofiadau
- Y dimensiwn Cymreig, safbwyntiau rhyngwladol a sgiliau ehangach

Mae'r gweithgornau bellach wedi cael eu sefydlu i ddechrau ar y gwaith o dylunio Meysydd Dysgu a Phrofiad lefel uchel cyn gweithio ar ddatblygiad manylach pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Y meysydd hyn yw:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Bydd hefyd yn cynnwys tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Gall y cwricwlwm newydd olygu bod angen mwy o adnoddau Cymreig unigryw. Mae'n bosibl y gallai Cyngor Llyfrau Cymru chwarae rôl gefnogol yn natblygiad y cwricwlwm newydd. Mae

³⁴ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf>

trafodaethau wedi'u cynnal rhwng Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau am y rôl y gall y Cyngor Llyfrau ei chwarae o ran cynhyrchu deunyddiau dosbarth Cymreig a chyfrwng Cymraeg ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Adolygiad *Diamond* o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru

35

Dechreuodd y Panel ar ei waith ym mis Ionawr 2016, ychydig wythnosau ar ôl cyhoeddi Adroddiad interim *Diamond*³⁶ yn dilyn adolygiad o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru. Yn Adroddiad Interim *Diamond* cafwyd sawl cyfeiriad at gyhoeddiadau academaidd, gan gynnwys cyhoeddiadau academaidd yn yr iaith Gymraeg, cyhoeddiadau ymchwil yn ymwneud â Chymru, yn ogystal â chyfeiriad penodol at Wasg Prifysgol Cymru. [gweler y dyfyniadau yn **Atodiad 8**]. Mae cyhoeddiadau academaidd yn y ddwy iaith yn rhan bwysig o'r byd cyhoeddi yng Nghymru, fel y cydnabuwyd gan y rhai a ymatebodd i holiadur cyhoeddus y Panel [**Atodiad 5**]. Fodd bynnag, o gofio bod cyhoeddiadau academaidd amlwg yn cael eu hystyried gan Adolygiad *Diamond*, a hefyd o ystyried cyfansoddiad y Panel [5 aelod, 2 academydd, ac Is-ganghellor Prifysgol Cymru yn Gadeirydd arno], roedd yn amlwg nad oedd adolygiad penodol gyhoeddiadau academaidd o fewn cylch gwaith a chyfrifoldebau yr adolygiad hwn o gyhoeddi a llenyddiaeth.

Cyhoeddwyd Adroddiad Terfynol *Diamond* ym mis Medi 2016 a, heb ymgynghori â'r Panel, cyfeiriodd at yr Adolygiad o Gyhoeddi a Llenyddiaeth yn ogystal ag at Wasg Prifysgol Cymru a chyhoeddiadau academaidd yn y Gymraeg ac yng Nghymru [gweler y dyfyniadau yn **Atodiad 8**]. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2016, trafododd y Panel yr agweddau hyn ar Adroddiad *Diamond*. Cynhaliwyd y drafodaeth hon yn absenoldeb y Cadeirydd ac fe'i cadeiriwyd gan Is-Gadeirydd y Panel. Glynodd y Panel at ei farn nad oedd adolygiad penodol o gyhoeddiadau academaidd o fewn ei gylch gwaith.

Defnyddiodd nifer fawr o'r rhai a ymatebodd i'r Alwad am Dystiolaeth y cyfle hwn i dynnu sylw at yr angen i sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru gael cyfrifoldeb dros addysgu diwylliant a hanes Cymru a/neu gefnogi cyllido Gwasg Prifysgol Cymru. Hysbyswyd y Panel Adolygu nad yw'n ofynnol i brifysgolion Cymru gynnwys astudiaeth o Gymru, ddoe a heddiw, yn rhan annatod o'u rhaglenni addysgu, ymchwil neu gyhoeddi ar hyn o bryd ac na ddisgwylir iddynt wneud hynny; mae hyn yn gwneud y pwnc, ar draws sbectrwm eang o ddisgyblaethau, yn fregus. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector Addysg Uwch, yn gorfforaethol ac yn unigolion, yn ogystal ag unigolion preifat.

Awgrymwyd bod angen ymrwymiad clir a phendant, gan Lywodraeth Cymru a phrifysgolion, i gefnogi a hyrwyddo addysgu, ymchwil a chyhoeddi yn y maes hwn o ysgolheictod, er mwyn sicrhau ei ddyfodol yn yr hirdymor. Hysbyswyd y Panel Adolygu hefyd mai swm cymharol fach o arian sydd ei angen i gefnogi Gwasg Prifysgol Cymru er mwyn sicrhau manteision sylweddol. Amlygwyd bod Gwasg Prifysgol Cymru yn derbyn cymhorthdal blynyddol oddi wrth ei riant sefydliad, Prifysgol Cymru, er mwyn gweithredu ac yn y dyfodol, efallai na fydd yn bosibl cyhoeddi rhywfaint o ymchwil ar Gymru oherwydd y diffyg cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill. Cyflwynodd Geiriadur Prifysgol Cymru hefyd gais i gefnogi parhad ei gyllid. Nid yw Adroddiad Terfynol *Diamond* yn trafod y mater ymhellach ac mae darnau perthnasol o'r Crynodeb Gweithredol a chorff yr adroddiad wedi'u cynnwys yn **Atodiad 8**.

³⁵ <http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?lang=cy>

³⁶ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160927-he-review-final-report-cy.pdf>

Cronfa Ddysgu Undebau Cymru

Lle mae llenyddiaeth yn chwarae rhan wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd hanfodol aelodau undebau, efallai y bydd gan brosiectau a ariennir gan Gronfa Ddysgu Undebau Cymru ran i'w chwarae hefyd. Mae amcanion penodol prospectws cyfredol Llywodraeth Cymru/TUC Cymru yn cynnwys:

"Ehangu cyfranogiad..." [o ran dysgu yn y gweithle] "...drwy gefnogi ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gyfle cyfartal, sy'n lleihau allgau cymdeithasol, ac sy'n ennyn diddordeb dysgwyr anhraddodiadol;"

"... annog mwy o bobl i ddysgu." ³⁷

Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru

Mae Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i nifer o sefydliadau a gwyliau a chanddynt gysylltiad â llenyddiaeth a chyhoeddi. Ceir dadansoddiad o'r cyllid a ddarparwyd yn ystod 2016-17 yn **Atodiad 9**.

Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru

Yn ogystal, mae cymorth ar gyfer gwyliau eraill yn cael ei sianelu drwy adrannau eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, caiff cymorth ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru (£603,000 yn 2016-17) ac Eisteddfod yr Urdd (£287,280 yn 2016-17 - cyllid cyffredinol Urdd Gobaith Cymru yw £852,184) ei sianelu drwy Is-adran y Gymraeg.

Papurau Bro

Yn ystod 2016-17 dyrannodd Llywodraeth Cymru £87,810 i 52 o bapurau bro. Mae Llywodraeth Cymru drwy ei Chynllun Grant i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, yn cefnogi papurau bro ledled Cymru.

Mae gan y papurau bro gylchrediad eang gyda thros 45,000 o bapurau'n cael eu cyhoeddi bob mis. Gwirfoddolwyr lleol sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r papurau ac maent yn rhan annatod o wead cymunedau Cymraeg eu hiaith ar hyd a lled Cymru. Mae cylchrediad y papurau bro wedi bod yn hynod sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf nifer o heriau. Gan fod y ffordd y mae pobl yn rhannu ac yn darllen newyddion yn newid yn sgil datblygiadau technolegol, ceir enghreifftiau o bapurau bro yn symud yn raddol i lwyfannau newydd ar y rhyngwyd.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Lyfrgelloedd ³⁸

Mae darparu llyfrgelloedd cyhoeddus yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol, fel y nodir yn Neddf Lyfrgelloedd Cyhoeddus a Deddf Amgueddfeydd 1964. Mae'r un Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arolygu a hyrwyddo'r defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn llyfrgelloedd drwy raglenni referniw a chyfalaf a arweinir gan ei His-adran Amgueddfeydd, Archifau a Lyfrgelloedd. Cafwyd tair

³⁷ Probsectws Cronfa Ddysgu Undebau Cymru 2016-18 Sgiliau a Chyflogaeth: Cymru/TUC Cymru Tachwedd 2015 ISBN Digidol 978 1 4734 5146 9

³⁸ <http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/libraries/?lang=cy>

strategaeth flaenorol ar gyfer llyfrgelloedd Cymru ac ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector llyfrgelloedd a rhanddeiliaid allweddol i gwblhau cynllun cyflawni yn y dyfodol ar gyfer llyfrgelloedd yng Nghymru. Bydd y cynllun yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar weithio mewn partneriaeth, gan barhau i roi prosiectau arloesol ar waith megis y system rheoli llyfrgelloedd a rennir ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus a'r gwasanaeth llyfrgell digidol cenedlaethol, yn ogystal â chefnogi'r gweithlu a sicrhau bod y sector llyfrgelloedd yn gynaliadwy ac yn gydnherth.

Llyfrau yw'r rheswm y mae llawer o gwsmeriaid yn defnyddio llyfrgelloedd, ar ffurf papur yn ogystal â fformatau electronig. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda'r Cyngor Llyfrau er mwyn sicrhau bod e-lyfrau Cymraeg ar gael o fewn gwasanaeth e-lyfrau Cymru gyfan, sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae llyfrgelloedd yn gweithio'n agos ag awduron, cyhoeddwyr a rhanddeiliaid perthnasol megis Llenyddiaeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau, er mwyn darparu mynediad i'r allbwn creadigol gan gyhoeddwyr ac awduron yng Nghymru, a bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Cymru Greadigol

Y sector creadigol yw'r sector economaidd â blaenoriaeth sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, ac mae'n ehangu'n gyflymach nag unrhyw le arall yn y DU, y tu allan i Lundain. Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi rhoi Dr Who, Sherlock a lluo o gynyrchiadau drama eraill o ansawdd uchel i'r byd. Fodd bynnag, mae twf parhaus y sector yn gofyn am ymagwedd ystyryth er mwyn cystadlu â Hollywood, Llundain a'r goreuon. Yn dilyn ymrwymiad ym maniffesto'r Blaid Lafur, ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn:

- Sefydlu is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, sef Cymru Greadigol, i gefnogi'r sector yng Nghymru. Wrth wneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at gynnal o leiaf 850 o swyddi a £40 miliwn y flwyddyn mewn gwariant cynhyrchu.
- Sicrhau cydweithio agosach gyda'r sector addysg i sicrhau cyflenwad cyson o sgiliau i gefnogi twf y sector.
- Manteisio ar lwyddiant digyffelyb y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru i hybu'r wlad ar draws y DU a'r byd.

Nod craidd Cymru Greadigol fydd cefnogi twf economaidd y sector, gan helpu busnesau sy'n creu cynnwys creadigol ac sy'n manteisio arno i ymateb i'r cyfleoedd yn yr economi greadigol fyd-eang.

Er ei bod yn wir y gall denu cynyrchiadau ffilm a theledu, a datblygu'r diwydiant sgrin yng Nghymru roi hwb enfawr i'r economi leol, mae'r pwyslais hanesyddol ar gymorth i ffilm a theledu wedi golygu llai o sylw i is-sectorau eraill newydd o'r diwydiannau creadigol sydd hefyd yn cynnig twf posibl ac effaith ar yr economi economaidd. Mae'n amlwg bod y dirwedd economaidd wedi newid wrth i'r diwydiannau creadigol ddatblygu. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ystyried wrth sefydlu Cymru Greadigol. Mae angen i wasanaethau cymorth adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol a blaenoriaethau'r dyfodol, yn hytrach na threfniant hanesyddol, ac mae angen i fformat a strategaeth y sefydliad cymorth gyd-fynd ag anghenion presennol y diwydiant er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol.

Bydd angen i Gymru Greadigol barhau i fuddsoddi mewn sicrhau mewnfuddsoddiad a sicrhau bod cymorth priodol ar gael i helpu busnesau creadigol Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd a gaiff eu creu yn sgil ein llwyddiannau diweddar. Rydym am sicrhau twf parhaus y diwydiannau creadigol yng Nghymru a sicrhau bod sector cynaliadwy hirdymor yn cael ei greu. Er mwyn gwneud hyn mae angen cefnogaeth fwy cydgysylltiedig yn cwmpasu:

- a) Meithrin llwybrau talent a chymorth sgiliau wedi'u arwain gan ddiwydiant
- b) Mynediad i gyfalaf (preifat a chyhoeddus)
- c) Seilwaith, rhwydweithiau a gweithio mewn partneriaeth

Y cyferbyniad rhwng y byd cyhoeddi Cymraeg a'r byd cyhoeddi Saesneg yng Nghymru

Cyn mynd ymhellach, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y byd cyhoeddi Saesneg yng Nghymru a'r byd cyhoeddi Cymraeg. Mae'r byd cyhoeddi Saesneg yn bodoli yng nghyd-destun diwydiant rhyngwladol anferth ac, yn benodol, yng nghyd-destun y diwydiant cyhoeddi yn Llundain nid nepell oddi wrthym. Yn gyffredinol, menter fasnachol yw'r byd cyhoeddi Saesneg yn y Deyrnas Unedig. Busnesau masnachol yw cyhoeddwr Saesneg fel arfer, boed yn gyhoeddwr 'masnachol' neu 'lenyddol'.

Fodd bynnag, bydd y byd cyhoeddi Cymraeg bob amser yn ei chael hi'n anodd bod yn fasnachol hyfyw yn y farchnad ar hyn o bryd. Yn realistig, dim ond gyda chefnogaeth y Llywodraeth y gall fodoli yn ei amrywiaeth. Fodd bynnag, o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gefnogi'r Gymraeg, yr unig gwestiwn sydd i ni yw a yw'r gefnogaeth honno'n cael ei darparu'n effeithlon. Yn achos y byd cyhoeddi yn yr iaith Saesneg yng Nghymru, mae yna hefyd gwestiwn sylfaenol ynghylch a ellid - neu yn wir a ddylid - gadael y ddarpariaeth i'r farchnad.

Dylid nodi bod un maes lle mae'r byd cyhoeddi Saesneg a'r byd cyhoeddi Gymraeg yn dod ynghyd, sef dosbarthu - gan fod y Cyngor Llyfrau yn dosbarthu llyfrau yn y ddwy iaith drwy Gymru.

Felly mae'r byd cyhoeddi Cymraeg a'r byd cyhoeddi Saesneg yng Nghymru yn farchnadoedd cwbl wahanol o ran maint, cystadleurwydd, cyfleoedd i gydweithio, crynhoad a chydgyfeirio.

Er y gall fod angen cymorth ar lenyddiaeth a chyhoeddi yn y Gymraeg bob amser a chysylltiad â pholisi Llywodraeth Cymru tuag at dwf y Gymraeg, ni ddylai hyn olygu na all ddadansoddi a rhoi cyfrif am sut y mae'n cynnig gwerth am arian. O ran cyhoeddi a llenyddiaeth yn naill ai Saesneg neu'r Gymraeg mae angen craffu ar 'gyllido dwbl', lle mae'r cyhoeddwr a'r awdur yn derbyn cymorth.

Datblygiadau Newydd

Amazon

Mae'n anodd goramcangyfrif grym aflonyddgar Amazon ar y byd cyhoeddi llyfrau a diwydiannau eraill, ac mae'n parhau i fod yn ddadleuol o safbwynt monopoli, arferion gwaith a chwestiynau anodd o ran rheoleiddio sy'n codi o farchnadoedd digidol. Ochr yn ochr â'i bresenoldeb ar-lein amlwg, mae busnesau mawr y rhyngryd megis Netflix ac Airbnb yn cael eu pweru gan Amazon Web Services³⁹ yn y cefndir.

O safbwynt yr adolygiad hwn, dylid nodi bod:

- Amazon yn galluogi awduron i hunangyhoeddi a dosbarthu eu gwaith yn fyd-eang. Mae llwyfannau eraill ar gael ond maent yn fach iawn o gymharu.
- Mae hyn yn golygu y gall llyfrau ar bynciau arbenigol gael cyrhaeddiad eang ar draws y byd, ac roedd gwerthiannau e-lyfrau yn y DU ar gyfer 2015 tua £381.5 miliwn.
- Mae Amazon wedi ariannu hunangyhoeddwr llwyddiannus yng Nghymru i gynhyrchu fersiynau llyfrau llafar o'u llyfrau, yn seiliedig ar y galw a nifer y gwerthiannau

³⁹ <https://www.theatlantic.com/technology/archive/2015/04/the-unbelievable-power-of-amazon-web-services/391281/>

- Yn ôl Enillion Awduron, y DU yw'r farchnad fwyaf ond un yn y byd ar gyfer e-lyfrau, yn ail i Amazon.com yn yr Unol Daleithiau
- Mae 66% o brynwyr llyfrau print yn y DU yn siopa ar Amazon.co.uk (Mintel)
- Bellach, mae Amazon.com yn rhentu gwerslyfrau i fyfyrwyr yn yr Unol Daleithiau, a hynny'n rhatach na chyhoeddwr addysgol traddodiadol megis Pearson. Dywedodd John Fallon, y Prif Swyddog Gweithredol fod rhentu wedi arwain at leihad yng ngwerthiannau llyfrau newydd ac wedi cael effaith fwy na'r disgwyl, yn sgil gostyngiad o £2 biliwn yng ngwerth y cwmni ym mis Ionawr 2017
- Mae Amazon wedi agor siopau yn yr Unol Daleithiau ac wedi cofrestru ei nod masnach yn y DU. Mae angen ap Amazon i siopa ac mae casglu data am ddefnyddwyr yn flaenoriaeth.
- Er bod Amazon yn gweithredu fel galluogwr dylid nodi hefyd ei fod yn rym ddominyddol yn y farchnad ar-lein.

Mae e-Lyfrau ac e-Ddarllenwyr yn risg ac yn gyfle. Os bydd cyhoeddwr yn derbyn newid, yn trawsnewid eu prosesau, yn hyfforddi gweithwyr cyflogedig, ac yn cynnig eu cynnwys mewn fformatau lluosog - yn ddigidol neu mewn print, wedi'u rhwymo neu ar gais, ar ffurf PDF neu ePUB - ac ar bob llwyfan, bydd ganddynt siawns dda o ddatblygu model busnes digidol hyfyw. Cyhoeddwr sy'n gwrthsefyll newid, sy'n gweld y broses ddigideiddio yn ddim byd ond cost ychwanegol, ac yn ceisio amddiffyn eu cynnwys a'u modelau busnes presennol, fydd yn wynebu'r peryglon mwyaf.⁴⁰

TWF HUNANGYHOEDDI

Yn ôl amcangyfrif diweddar, mae dros 1000 o awduron hunangyhoeddedig ar hyn o bryd sy'n ennill dros \$50,000 y flwyddyn o Amazon yn unig ond amcangyfrifir mai enillion cyfartalog awdur yn y DU ar hyn o bryd yw tua £7000⁴¹

Gall dilynwyr ar-lein fod yn ddefnyddiol i awdur o ran cael gafael ar gyhoeddwr traddodiadol. Gwelodd Hazel Cushion o Accent Books botensial yr awdur poblogaidd Jodi Taylor, pan welodd fod ganddi 400+ o adolygiadau ar Amazon.

Mae'r hunangyhoeddwr mwyaf llwyddiannus yn fedrus wrth farchnata eu gwaith eu hunain, yn aml gan ddefnyddio grwpiau facebook i drefnu hyrwyddiadau dwyochrog. Bydd Amazon yn aml yn cysylltu ag awduron â gwerthiant uchel ar gyfer eu hargraffnodau eu hunain (a gyhoeddodd dros 2000 o deitlau y llynedd) neu i gynnig cymorth er mwyn creu fersiynau sain o'u teitlau ar gyfer eu hadran llyfrau sain, Audible, a gafodd ddau biliwn o oriau o wrandawyr yn 2016⁴².

Dylanwadau pwysig

TWF TECHNOLEG DDIGIDOL

⁴⁰ <https://www.pwc.co.uk/assets/pdf/ebooks-trends-and-developments.pdf>

⁴¹ <http://authorearnings.com/report/may-2016-report/>

⁴² <https://janefriedman.com/9-statistics-writers-know-amazon/>

Mae'r we wedi cael effaith ddramatig ar sut mae defnyddwyr yn derbyn, yn darllen ac amgyffred cynnwys. Mae'r hafaliad syml 'cyhoeddi = argraffu' wedi esblygu'n gyflym i'r hafaliad mwy cymhleth, 'cyhoeddi = argraffu, ar-lein, e-ddarllenydd a symudol'. Gydag amrywiaeth o fformatau newydd ar gael i ddefnyddwyr ac yna fwy o offer ar gael i gyhoeddwyr - gan eu galluogi i gyrraedd eu marchnadoedd a chynulleidfaoedd targed mewn modd nas gwelwyd erioed o'r blaen - mae'r posibiliadau i'r diwydiant yn sgil y don ddigidol yn aruthrol. Un enghraifft dda o hyn yw The Bookseller⁴³.

Oherwydd goruchafiaeth Amazon, mae'n anodd cystadlu ag ef:

More than 50% of all traditionally published book sales of any format in the US now happen on Amazon.com.

That's just the traditionally published books, though.

In addition, roughly **85% of all non-traditionally published book sales of any format** in the US also happen on **Amazon.com**.

TWF MEWN DIGWYDDIADAU A YSGOGIR GAN AWDURON, Y MAE'R WE YN EU HELPU

Yn ystod 2016 cynhaliwyd nifer o wyliau gan gynnwys Gŵyl Talacharn, Gŵyl Penfro, Ffeiriau Awduron a Gwyliau Llên yn Ninbych y Pysgod, Solfach, Y Fenni, Llandeilo, Llangwm, Rhondda, a Chaerfyrddin

Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys awduron adnabyddus fel Ian Rankin (Talacharn) a Griff Rhys Jones (Llangwmlitfest), cystadlaethau, gweithdai a'r gymuned yn ymgysylltu â busnesau lleol, stiwardiaid gwirfoddol a llety. I raddau amrywiol cafwyd ymgysylltiad â'r gymuned ar-lein hefyd,.

⁴³ <https://www.thebookseller.com/futurebook/digital-crossroads>

5. Themâu a negeseuon yn deillio o'r dystiolaeth

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar themâu a negeseuon cyffredin sydd wedi dod i'r amlwg yn yr Adolygiad yn ystod y cam ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach a chasglu dystiolaeth. Maent hefyd wedi llywio meddylfryd ac argymhellion y Panel ac wedi dylanwadu arnynt. Mae'r themâu a'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu yma wedi llywio meddylfryd y Panel Adolygu. Ni ddylent, fodd bynnag, gael eu trin fel adlewyrchiad o farn gyfunol aelodau'r Panel. Nid oes unrhyw farn wedi'i llunio, ac ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd ychwaith, mewn perthynas â dilysrwydd, cywirdeb, arwyddocâd, neu fel arall, y farn a'r wybodaeth a gasglwyd gan eraill.

Paratowyd crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr holiadur galwad am dystiolaeth a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn **Atodiad 5**.

Mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn rhai achosion at ddiben yr adroddiad, ond nid ydynt wedi'u gosod mewn unrhyw drefn blaenoriaeth.

Mae'r themâu a'r negeseuon yn cael eu dadansoddi isod o dan yr ail a'r pumed pennawd yn y cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad hwn (mae'r pennawd cyntaf yn ymdrin â sut y gellid gwella cymorth; amlinellir ein casgliadau ar hyn yn y bennod ar argymhellion sy'n dilyn):

Er hwylustod rhestrir y penawdau isod:

- Prif nodau Llywodraeth Cymru o safbwynt cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, yn y ddwy iaith; h.y., beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a hynny ar lefel ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd? A yw'r nodau hyn yn addas i'w diben o hyd yn yr unfed ganrif ar hugain? (Gweler Pennod 6 'Argymhellion')
- Cwmpas a graddfa'r cymorth a gaiff ei roi ar hyn o bryd i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys y berthynas rhwng y cyrff sy'n gyfrifol am gyflenwi'r cymorth hwn.
- Datblygiadau digidol o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.
- Y trefniadau gweinyddol o ran cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith, yn ogystal ag ar gyfer papurau bro.
- Y cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth mewn ardaloedd difreintiedig ar draws Cymru.

Cwmpas a graddfa'r cymorth a gaiff ei roi ar hyn o bryd i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys y berthynas rhwng y cyrff sy'n gyfrifol am gyflenwi'r cymorth hwn.

Cyhoeddwy - Cymraeg a Saesneg

Yn ystod cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o gwmnïau cyhoeddi yng Nghymru, gofynnodd y Panel Adolygu i gyhoeddwy rannu eu barn am yr hyn y maent yn ei weld fel y prif heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r diwydiant cyhoeddi. Ymysg rhai o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg roedd:

Mae'n bwysig nodi fod y sylwadau isod wedi eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Panel Arolygu – nid ydynt yn sylwadau Aelodau'r Panel

Technoleg ddiigidol

- Roedd y cyhoeddwy yn cytuno bod Cymru yn gyffredinol yn araf o ran symud tuag at dechnoleg ddiigidol, ond gwnaed mwy o gynnydd gydag e-lyfrau.
- Yn gyffredinol, nid oes llawer o lyfrau llafar yn cael eu cyhoeddi. Dywedodd un cyhoeddwr fod angen mynd i'r afael â'r prinder llyfrau llafar Cymraeg, er gwaethaf y ffaith bod hynny'n gostus.
- Yn ddelfrydol, dylai prisiau e-lyfrau gael eu cadw mor agos â phosibl at bris copïau print, er mwyn osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar siopau llyfrau.

Cyngor Llyfrau Cymru

Cymorth i Gyhoeddwy

- Er bod y cymorth marchnata a golygyddol gan Gyngor Llyfrau Cymru yn ddefnyddiol iawn, gwnaed toriadau i'r gyllideb hon yn ddiweddar.
- Roedd rhai o'r cyhoeddwy a ymddangosodd gerbron y Panel yn elwa ar wasanaeth prawfddarllen y Cyngor Llyfrau.
- Mae rhai cyhoeddwy hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau golygyddol, dylunio a marchnata â chymhorthdal a gynigir gan y Cyngor Llyfrau, y credir eu bod yn ddefnyddiol iawn.
- Pwysleisiodd Cwlwm Cyhoeddwy pa mor werthfawr a chefnogol yw'r Cyngor Llyfrau i'w aelodau.

Cyllid a'r System Grantiau

- Teimlai'r cyhoeddwy fod y system bresennol yn gweithio'n dda, ond y gall y system grantiau fod yn anodd ei deall. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn credu bod y cymorth dosbarthu a ddarperir drwy'r Cyngor Llyfrau yn amhrisiadwy.

- Mae'r system cyllid grant yn gweithio ar hyn o bryd er na fydd hyn o bosibl yn gynaliadwy yn y tymor hwy oni bai bod lefel y cyllid yn cael ei adolygu.
- Mae'r broses o wneud cais am gyllid gan y Cyngor Llyfrau yn well ac yn llai llafurus nag yr oedd.
- Bu system arloesol y Cyngor Llyfrau o roi Blaendaliadau i Awduron yn llwyddiannus o ran denu awduron mwy adnabyddus i Gymru.
- Yn gyffredinol roedd y cyhoeddwr a ymddangosodd gerbron y Panel, ar wahân i Accent Press, yn ddibynnol ar gyllid y Cyngor Llyfrau - dim ond lleiafrif bychan o lyfrau a gyhoeddwyd heb gefnogaeth y Cyngor Llyfrau.
- Awgrymodd y cyhoeddwr y byddai neilltuo rhagor o gyllid ar gyfer marchnata o fudd mawr; roedd y Cyngor Llyfrau wedi trefnu hysbysebion teledu cyn y Nadolig, ond mae angen parhau â'r rhain drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd un cyhoeddwr y byddai Cronfa Hysbysebu o fudd i awduron, gwerthwyr llyfrau a chyhoeddwr.
- Nododd un cyhoeddwr mai'r Cyngor Llyfrau yw'r cyfrwng gorau i wasanaethu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, ond bod ffyrdd y gallai wella.
- Er bod pencadlys y Cyngor Llyfrau yn Aberystwyth, nododd un cyhoeddwr a oedd wedi lleoli yn ne-ddwyrain Cymru nad oedd hyn yn peri unrhyw broblemau

Dosbarthu a Gwerthiannau

- Mae'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cyhoeddi a dosbarthu gan y Cyngor Llyfrau yn unigryw ac yn addas at y diben yng Nghymru, ond mae ymestyn y gwasanaeth dosbarthu y tu hwnt i Gymru yn anodd.
- Byddai'n fuddiol i'r Cyngor Llyfrau ddefnyddio cynrychiolwyr llawrydd i gynyddu gwerthiant llyfrau sydd â photensial i apelio i'r DU gyfan. Er y gall y Cyngor Llyfrau ddosbarthu y tu allan i Gymru, nid oes unrhyw gynrychiolwyr yn gweithio y tu allan i Gymru er mwyn cynyddu'r gwerthiant i'r eithaf.
- Roedd y Cyngor Llyfrau yn cefnogi'r cyhoeddwr a ddywedodd fod gwneud amcangyfrifon cywir o werthiannau (fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Llyfrau) yn dod yn fwyfwy anodd. Mae cyhoeddwr yn defnyddio'r Cyngor Llyfrau i ddosbarthu o fewn Cymru (fel sydd rhaid ar gyfer teitlau sy'n cael cymorth grant) tra bod dosbarthwyr eraill yn cael eu defnyddio i ddosbarthu ledled y byd.
- Roedd deialog anffurfiol rheolaidd rhwng cyhoeddwr am dwf a diffyg twf busnes. Nodwyd bod gan y Cyngor Llyfrau adnoddau i gynnal ymchwil o'r farchnad, er mai adnoddau cyfyngedig oedd y rheini, ac y gellid cael gafael arnynt drwy'r Ganolfan Ddosbarthu. Roedd barn gadarnhaol am y cymorth a ddarperir gan y Cyngor Llyfrau. Nododd un cyhoeddwr y bydd y Cyngor Llyfrau yn rhoi rhywfaint o adborth ar yr hyn sy'n gwerthu'n dda ond mai cyhoeddwr unigol sy'n gyfrifol am eu gweithgaredd marchnata eu hunain. Roedd nifer y swyddogion a oedd yn canolbwyntio ar farchnata yn amrywio rhwng cyhoeddwr. Yn gyffredinol, mae diffyg cyllideb farchnata yn ei gwneud yn anodd i gyhoeddwr llai, gan fod cwmnïau mwy yn gallu buddsoddi mwy mewn gwefannau a chynnwys y we.

- Fel rhan o'r cytundeb gyda'r Cyngor Llyfrau, ni all cyhoeddwy'r werthu yn uniongyrchol i werthwyr llyfrau mawr yng Nghymru, ond gall cwmnïau cyhoeddi wneud trefniadau unigol gyda siopau llyfrau bach ac ysgolion.
- Mae'r ffaith bod gwerthiant yn cael ei sianelu drwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau yn gyfyngol a byddai o fudd mawr pe gallai'r Cyngor Llyfrau wneud trefniadau gydag archfarchnadoedd, er y cydnabuwyd yr anawsterau o ran ymdrin â hwy.
- Mae angen i'r Cyngor Llyfrau allu cynnig mwy o ostyngiadau er mwyn i werthu llyfrau fod yn fwy deniadol i werthwyr llyfrau mawr, ac i sicrhau bod y llyfrau yn cael eu hyrwyddo mewn siopau mwy o faint.
- Mae angen diweddarau'r system ddata bresennol a ddefnyddir gan ganolfan ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau ac mae angen y rhifyn diweddaraf o'r System werthu VISTA a fyddai'n darparu gwybodaeth gywir a chyfredol am werthiannau i gyhoeddwy'r; byddai hyn yn arbed amser ac yn llai llafurus
- Mae gan y Cyngor Llyfrau gynrychiolwyr gwerthu sy'n ymweld ag ysgolion a meithrinfeydd i hyrwyddo llyfrau, ond mae nifer y llyfrau a brynir gan ysgolion yng Nghymru yn lleihau.
- Yn sgil y gostyngiad y mae cyfanwerthwyr eraill yn ei gynnig, dylid rhoi ystyriaeth i sut y gallai'r Cyngor Llyfrau gynyddu'r gostyngiad y mae'n gallu ei gynnig i gyhoeddwy'r, e mwyn bod yn fwy cystadleuol.
- Mae'n mynd yn fwy anodd dosbarthu llyfrau am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cystadlu yn erbyn cyhoeddwy'r Llundain i'w dosbarthu, ond hefyd o ganlyniad i gau nifer o siopau llyfrau ledled Cymru, a arferai fod yn 'ffenestr siop' i lenyddiaeth.
- Nid oes gan y Cyngor Llyfrau ddigon o staff sy'n meddu ar wybodaeth fasnachol.

Rhyngwladol

- Byddai'n fwy buddiol gwario arian ar gynorthwyo cwmnïau i gael eu stondinau eu hunain mewn ffeiriau llyfrau ac i ddatblygu eu brandiau eu hunain. Mae'r Adran Masnach Ryngwladol wedi darparu cymorth o 50% i gyhoeddwy'r mewn ffeiriau llyfrau tramor.
- Mae gan Urdd Rhyngwladol y Cyhoeddwy'r stondin yn Ffair Lyfrau Llundain gyda chiwbiclau ar wahân, sy'n galluogi cwmnïau i gael eu hunaniaeth eu hunain ac i hyrwyddo eu deunydd eu hunain heb fynd i'r gost o gymryd stondin gyfan.
- Nododd un cyhoeddwr mai Cymru oedd yr unig wlad o Ewrop heb stondin yn Llundain neu Frankfurt a bod cael presenoldeb yn dangos hunaniaeth genedlaethol glir.
- Yn y gorffennol, collodd y Cyngor Llyfrau gyfle pan oedd yn Frankfurt ac roedd diffyg ffocws i'r ymweliadau gan nad oedd y rhai a oedd yn mynychu yn ymwybodol o'r cyfleoedd.

- Dywedodd un cyhoeddwr mai Ffair Lyfrau Llundain yw'r 'fffenestr siop i'r byd', gan ei bod yn cyrraedd cynulleidfya ryngwladol, ac awgrymodd y byddai cynrychiolaeth gydlynol o Gymru yn helpu i gynyddu gwerthiant a dosbarthu i gyhoeddwyr Cymru.
- Mae Teithiau Masnach yn werthfawr, ond mae angen sesiynau briffio er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn meddu ar yr wybodaeth i wneud y gorau o gyfleoedd.

Cyffredinol

- Yn gyffredinol, nododd y cyhoeddwyr mai anaml yr oeddent yn dod i gysylltiad â Llenyddiaeth Cymru ac roeddent o'r farn mai sefydliad i awduron ydoedd.
- Mae safonau wedi codi ers datganoli a'r her fwyaf sy'n wynebu cyhoeddwyr Cymru yw cystadlu yn erbyn cyhoeddwyr mawr Llundain.
- Nid oes digon o siopau llyfrau yng Nghymru sy'n cadw stoc o lyfrau Cymraeg ac sy'n eu hyrwyddo.
- Erbyn hyn mae'n fwy anodd nag erioed cyflwyno llyfrau i ddarpar ddarllenwyr ac mae'r broblem hon wedi dwysáu gan fod sawl ardal ledled Cymru bellach lle nad oes siopau llyfrau mwyach.
- Mae cost cyfieithu deunyddiau llenyddol yn uchel iawn a phrin yw'r cymorth sydd ar gael; mae Cyfnewidfa Lân Cymru yn cefnogi hyn, ond roedd y gyllideb yn llai na £10,000 [wedi cynyddu i £20,000 yn 2016]
- Pwysleisiodd y cyhoeddwyr yr effaith gadarnhaol y gall hyrwyddo llyfrau ei chael ar werthiant, ond ei bod yn fwyfwy anodd sicrhau bod llyfrau'n cael eu dewis i'w hyrwyddo.
- Dylid ystyried y posibilrwydd o gefnogi marchnata ar Facebook ar gyfer cwmnïau cyhoeddi
- Mae gan Waterstones bolisi rhanbarthol ar gyfer yr Alban ac Iwerddon, ond nid oes polisi rhanbarthol ar gyfer Cymru. Byddai o fudd mawr i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru pe bai polisi Cymreig yn cael ei ddatblygu a fyddai'n sicrhau mwy o amlygrwydd i lenyddiaeth o Gymru yn siopau Waterstones.
- Mae marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn allweddol i lwyddiant.
- Dywedodd y cyhoeddwyr mai prif fanteision defnyddio cyhoeddwr yn hytrach na hunangyhoeddi oedd bod yn gysylltiedig â brand a chael mynediad i ddeunyddiau marchnata proffesiynol a'r fasnach lyfrau.
- Y consensws cyffredinol ymhlith cyhoeddwyr oedd nad yw'n realistig i gyhoeddwyr fod yn hunangynhaliol, yn bennaf oherwydd y gystadleuaeth o'r tu allan i Gymru. Roedd cyfrifoldeb i ddewis llyfrau nad ydynt yn gwbl fasnachol ond sy'n rhai diwylliannol hefyd.
- Mewn ymateb i drafodaeth ynghylch a yw cwmnïau cyhoeddi yng Nghymru yn credu y dylent gael cymhorthdal pan fyddant yn gwerthu cynnyrch masnachol, nododd un cyhoeddwr o ran teitlau Cymraeg, ei bod yn anos o safbwynt masnachol a bod ei gwmni hefyd yn gwmni argraffu sy'n cynnal adran gyhoeddi'r busnes. Heb gymhorthdal ni fyddai'n bosibl i'w gwmni barhau cyhoeddi.

- Nododd un cyhoeddwr fod diffyg adnoddau yn arwain at amharodrwydd i gymryd risg, a phe bai gan ei gwmni adnoddau digonol byddai'n gallu cymryd y risg o fethu. Cyfeiriwyd at 'fargen ddyddiol' Amazon a sut mae Penguin wedi datblygu perthynas gydag Amazon a Waterstones drwy weithio'r farchnad, gan ei gwneud yn anodd i deitlau gan gwmnïau llai gael eu cynnwys yn y fargen ddyddiol.
- Nododd y cyhoeddwr eu bod yn ceisio datblygu awduron newydd, ifanc a'r rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n edrych am well trefniadau cyhoeddi gyda chyhoeddwr Llundain.
- Nid yw'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg yn cael ei adlewyrchu yn ffigurau gwerthiant diweddar llyfrau Cymraeg.
- Mae safon llyfrau Cymraeg wedi codi.
- Er mwyn i'r diwydiant dyfu mae angen dwbl yr arian sydd ar gael, neu leihau'r disgwyliad o ran nifer y llyfrau a gyhoeddir er mwyn rhoi mwy o amser a lle i lyfrau unigol ar silffoedd siopau llyfrau.
- Mae cefnogaeth y Llywodraeth i gyhoeddi yn Gymraeg yn hanfodol i hwyluso cyhoeddi na fyddai fel arall yn fasnachol hyfyw ac na fyddai'n digwydd.

Datblygodd llawer o gwmnïau cyhoeddi Cymraeg o'r diwydiant argraffu, sydd bellach yn fodel braidd yn hen ffasiwn y tu hwnt i Gymru. Mae eu ffocws ariannol ar argraffu yn hytrach na chyhoeddi (sydd wedyn, i bob pwrpas, yn cael ei gynnal drwy arian o'r incwm argraffu).

- Ar hyn o bryd mae gormod o lyfrau i blant yn cael eu cyhoeddi a gormod ohonynt yn cael eu hariannu, sy'n cyfyngu ar y cyfle iddynt gael eu harddangos ar silffoedd siopau llyfrau.
- Byddai'n ddoeth ail-gydbwysu'r cyllid er mwyn cyhoeddi llai o lyfrau (gwell) a defnyddio'r gweddill i alluogi cyhoeddwr i gynnig mwy o ostyngiadau a bod mewn gwell sefyllfa i gystadlu yn y farchnad - er mwyn cael mwy o lyfrau i mewn i'r archfarchnadoedd a siopau llyfrau.
- Mae her economaidd gan y gall archfarchnadoedd werthu llyfrau Julia Donaldson, er enghraifft, am brisiau manwerthu sylweddol is - sy'n ei gwneud yn anodd i gwmnïau cyhoeddi gystadlu ac i lyfrau gael eu gwerthu am y pris manwerthu a argymhellir.
- Erbyn hyn ychydig iawn o siopau llyfrau annibynnol sydd yng Nghymru - ac nid oes dim yng nghanol Caerdydd.

Yn dilyn y drafodaeth gyda'r Cyhoeddwr, daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn:

Yr oedd y Panel yn cydnabod y wybodaeth sylweddol a oedd yn amlwg yn y diwydiant cyhoeddi a'r ymrwymiad clir ac angerdd i adeiladu ar yr isadeiledd a'r gweithgareddau cyfredol. Fodd bynnag, teimlai'r Panel fod angen mwy o graffter busnes o fewn y diwydiant. Roedd y Panel yn cydnabod y llwyddiant masnachol a gyflawnwyd gan Accent Press. Roedd angen cwrs hyfforddi yn y diwydiant a fyddai'n cynnwys sgiliau busnes, yn ogystal â hyfforddiant penodol mewn meysydd megis gwerthu hawliau, trefniadau golygyddol a thrafod contractau. Mae cyhoeddwr

yn goroesi ond nid ydynt yn gwneud arian mawr; ac mae cyfyngiadau ariannol yn arwain at osgoi cymryd risg.

Mae marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn feysydd y mae angen eu gwella. Mae angen i gyhoeddwyr fod yn arloesol a dylid mabwysiadu dull mwy strategol gan gynnwys rhagor o fuddsoddi. Teimlai'r Panel fod lefel gyffredinol o foddhad gyda'r Cyngor Llyfrau ymhlith y cyhoeddwyr. Mae lefel y monitro a'r diwydrwydd dyladwy a ddisgwylir gan y Cyngor Llyfrau yn uchel. O'r dystiolaeth a dderbyniwyd, prin oedd y cyswllt rhwng cyhoeddwyr a Llenyddiaeth Cymru ac roedd cyhoeddwyr yn credu mai sefydliad i awduron oedd Llenyddiaeth Cymru ac nad oedd yn uniongyrchol berthnasol i'w gweithgareddau. Awgrymodd y Panel fod angen rhoi strategaethau hirdymor ar waith i gefnogi'r diwydiant, gan na fyddai chwistrelliadau syml o arian o reidrwydd o fudd i'r cwmnïau unigol.

Awgrymodd y Panel y dylid rhoi ystyriaeth i gefnogi mecanweithiau ar gyfer cwmnïau newydd mewn rhannau penodol o'r diwydiant cyhoeddi. Roedd angen adnabod cyfleoedd newydd i werthu. Argymhellodd y Panel y dylai mesurau gael eu rhoi ar waith i annog pob cyhoeddwr yng Nghymru i weithredu'n rhyngwladol yn ogystal ag annog cyhoeddwyr rhyngwladol i ddod i Gymru. Dylai'r Cyngor Llyfrau gefnogi datblygu teithiau i ffeiriau llyfrau rhyngwladol allweddol yn y DU a thramor, er mwyn creu cysylltiadau masnachu a meithrin gallu yn y sector cyhoeddi yng Nghymru. Dylid adolygu costau a manteision y rhain bob blwyddyn ac, yn llawnach, ar ôl tair blynedd.

Dylid diwygio dulliau cymorth megis Cymorth ar gyfer Ymweliadau i Ddatblygu Busnes Tramor, sy'n galluogi busnesau i gynnal ymweliadau datblygu busnes sy'n berthnasol i farchnadoedd tramor, er mwyn ystyried ceisiadau gan gyhoeddwyr i fynychu a chael presenoldeb ffurfiol mewn ffeiriau masnach llyfrau rhyngwladol, yn enwedig ffeiriau yn Llundain (sy'n canolbwyntio ar farchnadoedd tramor er mai yn y DU y cânt eu cynnal) a Frankfurt.

Yn ogystal, dylai Waterstones ystyried datblygu polisi rhanbarthol ar gyfer Cymru, yn yr un modd ag y mae wedi'i wneud ar gyfer yr Alban ac Iwerddon. Yr oedd y Panel yn falch i glywed, yn ystod gwanwyn 2017, wrth i'r adroddiad gael ei gwblhau, fod Waterstones wedi penderfynu cyflwyno polisi rhanbarthol ar gyfer Cymru.

Cylchgronau a Chyfnodolion

Yn ystod cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o wahanol gylchgronau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Llyfrau, gofynnodd y Panel Adolygu iddynt rannu eu barn ar nifer o faterion gan gynnwys yr hyn y maent yn ei weld fel y prif heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cylchgronau yn ogystal â datblygiadau digidol.

Mae'n bwysig nodi fod y sylwadau isod wedi eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Panel Arolygu – nid ydynt yn sylwadau Aelodau'r Panel

Cododd y themâu a ganlyn o'r drafodaeth gyda'r cylchgronau

Y berthynas rhwng cynnwys print a chynnwys digidol

- Roedd angen gochel rhag rhoi gormod o bwyslais ar ddeunydd digidol yn rhy gyflym. Cyfuniad o ddeunyddiau print a digidol oedd y ffordd ymlaen.
- Roedd rhagdybiaeth y dylai unrhyw un sy'n derbyn arian cyhoeddus gynnig ei wasanaeth am ddim. Ni ddylai hynny fod yn ddisgwyliad ac mae angen datblygu a thyfu busnesau.

Mae symud i gyhoeddi digidol, yn arwain at gynydd yng nghost deunydd wedi'i argraffu ac mae rhagdybiaeth bod modd creu cynnwys digidol am ddim - nid yw hyn yn wir o ran amser pobl a chostau technegol. Mae'n anodd marchnata hyrwyddo a hysbysebu ar y rhyngwyd ac yn y byd sydd ohoni mae llawer o gynnwys ar gael am ddim (e.e. BBC) sy'n ei gwneud yn anodd iawn cystadlu.

- Roedd un o'r cylchgronau wedi darganfod ei bod wedi troi at gyhoeddi digidol yn rhy gyflym ac yn rhoi gormod i ffwrdd am ddim; a phwysleisiodd fod y Digital Guardian gyda'i chylchrediad eang hefyd yn brwydro i oroesi.
- Mae cylchgronau bellach yn gyhoeddiadau aml-lwyfan, a dyna sut y dylent fod, ond efallai bod gormod o ddisgwyliad i'r 'genhedlaeth iau' fod yn gwbl ddiigidol ac i'r 'genhedlaeth hŷn' ffafrio deunydd print ac nad yw hyn yn wir bob tro. Bydd lle bob amser i ddeunydd print sy'n cynnig profiad trochi i'r darllenwyd.
- Mae copïau papur yn hanfodol ac o bwysigrwydd diwylliannol ac yn gwasanaethu fel archif mewn ffordd nad yw'n bosibl gyda chynnwys digidol. Mae lle i erthyglau manwl mewn print, gan fod erthyglau digidol hirfaith yn aml yn diflannu dros amser.
- Cyfryngau aml-lwyfan oedd y ffordd orau ymlaen ar gyfer y dyfodol. Mae awydd o hyd ymysg darllenwyr i ddarllen erthyglau manwl wedi'u hargraffu
- Nid yw'r ap digidol (yr ap *Cylchgronau Cymru*) a sefydlwyd gan y Cyngor Llyfrau ar gyfer cylchgronau wedi bod yn llwyddiant mawr.
- Roedd y cylchgronau'n gweithio i ddenu darllenwyr newydd a demograffeg newydd ac mae ganddynt bellach gyfraddau tanysgrifio gwahanol, gan gynnwys tanysgrifiad llawn i gylchgronau print a digidol gyda chyfradd ostyngol i'r rhai sy'n tanysgrifio i fersiynau digidol yn unig.
- Mae'r meysydd digidol yn creu her benodol ac mae angen gweld perthynas rhwng copïau ffisegol a fersiynau digidol. Mae angen datblygu strategaeth i sefydlu'r ffordd ymlaen.

Hysbysebu

- Roedd y cylchgronau'n cytuno ei bod yn anodd i gyhoeddwyr bach godi referniw hysbysebu. Dywedwyd nad yw hysbysebion digidol yn arwain at incwm sylweddol, a bod angen cael manylion darllenwyr a thargedu hysbysebion yn benodol.

Datblygiad gwerthiannau a thanysgrifiadau yn ystod y deng mlynedd diwethaf, ac a oes unrhyw gyfyngiadau (daearyddol a chymdeithasol) yn eu rhwystro rhag cyrraedd eu darllenwyr

- Erbyn hyn, mae llai o siopau ar gael i stocio cyhoeddiadau ac felly mae tanysgrifiadau wedi dod yn elfen fwy o ran maint a phwysigrwydd.
- Mae ardaloedd daearyddol penodol lle ceir nifer fach o siopau.
- Prin yw gallu Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau i gyrraedd siopau newydd.
- Byddai presenoldeb mewn digwyddiadau a marchnadoedd wedi'u targedu o fudd i hyrwyddo cylchgronau a chynyddu nifer y darllenwyr.

- Dylai cylchgronau geisio ymgysylltu'n fwy ag ysgolion, colegau addysg bellach a byrddau arholi drwy gynrychiolwyr y Cyngor Llyfrau.
- Nid yw'n ymarferol cynyddu lefelau gwerthiant mewn archfarchnadoedd
- Mae'r cylchgronau'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (Twitter a Facebook) i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Mae'r meysydd digidol yn creu her benodol ac mae angen gweld perthynas rhwng copïau ffisegol a fersiynau digidol. Mae angen datblygu strategaeth er mwyn pennu'r ffordd ymlaen
- Roedd pryder ynghylch sut y mae cylchgronau wedi cael eu heffeithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn newidiadau i reoliadau cymorth gwladwriaethol.

Cyllid

- Mae codi arian a chyllid drwy hysbysebion yn golygu llawer o oriau gwaith ac mae gallu talu ffioedd awduron yn hanfodol.
- Mae un o'r cylchgronau wedi cael nawdd gan brifysgol a oedd yn gysylltiedig â chynlluniau lleoliadau gwaith ac yn mynd ati i edrych ar gyllid ychwanegol, ond gellid treulio'r amser hwn yn hyrwyddo'r cylchgrawn.
- Nododd un cylchgrawn mai'r unig ffordd o warantu incwm oedd codi pris y cylchgrawn yn rheolaidd ond nad yw hynny'n dueddol o gael effaith ar nifer y darllenwyr.
- Gallai buddsoddwyr preifat beryglu annibyniaeth olygyddol sy'n hanfodol i gyhoeddi cylchgronau, gan greu gwrthdaro o ran buddiannau.
- Mae rhai cylchgronau wedi bod yn llwyddiannus gydag arian preifat ar gyfer gwobrau, ond nid ar gyfer cylchgronau.

Deialog gyda'r Cyngor Llyfrau a sefydliadau eraill?

- Roedd y diwrnod hyfforddi i gyhoeddwyr cylchgronau a drefnwyd gan y Cyngor Llyfrau yn ystod 2016 yn fuddiol i rannu profiadau. Byddai cymorth pellach gyda marchnata yn help mawr i'r cylchgronau. Mae cylchgronau yn rhan fawr o ddiwylliant Cymru, ac yng nghydestun cyffredinol y cyllid a ddyrennir i'r diwydiant cyhoeddi, nid yw cylchgronau yn derbyn swm mawr.
- Roedd cyfle i gael rhagor o ddeialog, ond mae'n bwysig nad oes dim yn cael ei ganoli gan fod cael dau sefydliad ar wahân - y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru - yn beth da.
- Nid oedd y Cyngor Llyfrau dda am hyrwyddo ei hun, ond mae Llenyddiaeth Cymru yn roddi cryn bwyslais ar gyhoeddusrwydd.
- Nodwyd bod gan y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru stondinau ar wahân yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gallai fod yn fwy cost-effeithiol cael un standin.
- Bu oedi gyda hyrwyddo Llyfr y Flwyddyn Cymru gan fod y llyfrau dan embargo.
- Roedd y cylchgronau'n cytuno bod gan bersonel y Cyngor Llyfrau wybodaeth eang am ddiwylliant a llenyddiaeth a bod yr arian yn cael ei ddosbarthu er lles y cyhoedd, ac er bod y Cyngor Llyfrau yn gorff hyd braich mae lefel iach o graffu.
- Prin oedd y rhyngweithio gyda Llenyddiaeth Cymru - roedd un cylchgrawn wedi cysylltu â Llenyddiaeth Cymru i farchnata a hyrwyddo cystadlaethau.

Sut y gellid gwella'r system bresennol?

- Awgrymodd un o'r cylchgronau y dylid edrych ar gyfuno ysgoloriaethau gyda chyhoeddi comisiynau, cefnogi awduron yn hytrach na digwyddiadau a chefnogi cyhoeddwyr i ddylunio a golygu eu cyhoeddiadau eu hunain.

- Gallai'r Cyngor Llyfrau greu cysylltiadau gyda sefydliadau addysgol a byrddau arholi a llyfrgelloedd.
- Mae'r Cyngor Llyfrau yn gwneud ei orau gydag adnoddau prin. Byddai'n fuddiol cael arweiniad a chyngor ar faterion megis hawlfraint ac archifo a chael arbenigedd marchnata i gynnig cyngor ar brisio a gwasanaethau masnachol.

Pwysigrwydd cylchgronau y tu hwnt i Gymru

- Mae hyn yn amrywio ymhlith y cylchgronau ond cytunwyd ei fod yn bwysig a'i fod yn cynnig marchnad fwy, ond mwy o gystadleuaeth hefyd. Roedd targedu siaradwyr Cymraeg dramor yn hanfodol.

Rôl cylchgronau Saesneg yng Nghymru ac a oes angen eu trin yn wahanol i lenyddiaeth Gymraeg

- Mae'r cylchgronau'n hanfodol oherwydd gwendid y cyfryngau print yng Nghymru ac maent yn cyflawni'r rôl papurau newydd.

Crynodeb o faterion eraill yr oedd y cynrychiolwyr cylchgronau eisiau i'r Panel Adolygu eu hystyried

- Pwynt canolog i roi cyngor ar agweddau masnachol gan gynnwys hawlfraint, prisio a symud-ymlaen yn ddigidol.
- Awgrymodd un cylchgrawn y dylid darparu cymorth yn uniongyrchol i awduron a chyhoeddwr yn hytrach na'i sianelu drwy'r Cyngor Llyfrau.
- Byddai hwyluso perthynas ag ysgolion a llyfrgelloedd o fudd mawr i gynyddu nifer y darllenwyr.
- Mae angen ennyn mwy o falchder mewn ysgrifennu (fel gydag opera) o ystyried faint o bobl a gyrhaeddir drwy ysgrifennu, ac mae angen ysbrydoli gweithgaredd newydd.

Yn dilyn y drafodaeth gyda'r cylchgronau daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn:

Mae'r Panel yn cydnabod yr awydd i newid ymysg cyhoeddwr cylchgronau. Roedd yn amlwg bod gan gyhoeddwr cylchgronau ddealltwriaeth lawer cliriach o rôl y Cyngor Llyfrau o gymharu â rôl Llenyddiaeth Cymru. Trafododd y Panel yr awgrym y dylid rhoi grantiau yn uniongyrchol i awduron a chyhoeddwr, a chytunwyd er y gallai hyn weithio i'r cyhoeddwr mwy profiadol, bod cymorth y Cyngor Llyfrau yn werthfawr i'r cyhoeddwr llai profiadol.

Addysg a Llythrennedd

Gwnaeth y Panel yr arsylwadau a ganlyn yn sgil tystiolaeth gan Gangen Adnoddau y Gymraeg Mewn Addysg Llywodraeth Cymru

Roedd y Panel yn galonogol o weld bod y broses yn cael ei harwain gan y galw a bod ymchwil da yn cael ei wneud i fylchau mewn deunyddiau ac adnoddau. Mae dwy elfen i waith y Gangen, sy'n cynnwys sefydlu a diffinio anghenion ysgolion a rhagweld y gofynion yn y dyfodol.

Roedd y dadansoddiad o'r deunyddiau a'r sawl sy'n eu cynhyrchu yn ddefnyddiol iawn, ac yn dangos bod cynhyrchu a chyhoeddi cynnwys addysgol yn cynorthwyo i gynnal rhai o'r cyhoeddwyr Cymraeg.

Roedd rhai o'r darparwyr yn gwmnïau newydd ac yn cynnwys cwmnïau teledu a digidol, yn hytrach na'r cwmnïau cyhoeddi mwy traddodiadol, ac nid oedd gan y cwmnïau cyhoeddi traddodiadol yr adnoddau i fodloni'r fanyleb ddigidol.

Y Cwricwlwm Newydd i Gymru

Nododd y Panel brinder llyfrau Saesneg am Gymru ac nad yw maes llafur ysgolion CBAC yn cynnwys llawer o lyfrau am ddiwylliant a hanes Cymru drwy gyfrwng y Saesneg. Dylai CBAC sicrhau bod ysgrifennu Saesneg yng Nghymru yn cael ei gynrychioli'n briodol fel pwnc ar y cwricwlwm addysg.

Daeth y Panel i'r casgliad, dros y cyfnod cynllunio pum mlynedd nesaf, bod angen llawer mwy o waith integredig rhwng y blaenoriaethau cyllido a strategol ar gyfer datblygu a gweithredu'r Cwricwlwm newydd a'r cyfleoedd sylweddol i ddatblygu strategaeth addysgol ddigidol gynhwysol ar gyfer Cymru gyfan. Gallai'r Cyngor Llyfrau chwarae rôl gydlynu allweddol yn y cyd-destun hwn. Bydd angen buddsoddi mewn cefnogi athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm newydd - gallai hyn gynnwys cynhyrchu deunyddiau newydd i gefnogi'r deilliannau dysgu o fewn y meysydd dysgu a nodwyd. Mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau o gynyddu gwerth llwyfannau aml-gynnwys digidol a sut y gall y diwydiannau cyhoeddi chwarae rhan allweddol mewn datblygiad o'r fath.

Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Sgiliau (*gan gynnwys hyfforddiant i Gyhoeddwyr*)

Fel gyda chelfyddydau a sectorau creadigol eraill yng Nghymru, mae cefnogaeth broffesiynol i awduron a chyhoeddwyr yn hollbwysig er mwyn datblygu'r sector ymhellach. Nododd y Panel y gellid gwneud llawer mwy i gefnogi hyfforddiant proffesiynol. Er y cydnabyddir bod nifer o sefydliadau yn cynnig nifer o gyrsgiau hyfforddi, gellid gwasanaethu'r sector cyfan mewn ffordd fwy systematig.

Nododd y Panel y cyrsiau niferus sydd ar gael i gefnogi ysgrifennu creadigol yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys ystod o sefydliadau yn amrywio o brifysgolion i ddarparwyr preifat. Gan nodi deinameg gyfnewidiol y sector cyhoeddi, roedd yn amlwg y bydd angen i lawer o gyhoeddwyr bach a chanolig yng Nghymru addasu. Mae hyn yn wir am awduron hefyd. Mae marchnata'r model busnes hunangyhoeddi yn galw am seilwaith cymorth gwahanol iawn. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar rwydwaith llawer mwy cymhleth o sianelau dosbarthu i awduron - ar-lein, e-lyfrau, yn ogystal â'r llyfrwerthwyr traddodiadol, awgrymir y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ganolfan hyfforddi broffesiynol y gellid cael mynediad iddi ar lein. Gellid gwasanaethu a chydlynu hyn drwy un o'r sefydliadau cenedlaethol allweddol. Yn ogystal â'r meysydd a nodir uchod, cydnabu'r Panel y sylwadau niferus a dderbyniwyd yn mynegi diddordeb yn y meysydd proffesiynol a ganlyn: sgiliau busnes, darlunio, sgiliau golygu, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg. Gellid cynnig mwy hefyd i bontio rhwng cyrsiau ysgrifennu creadigol ar gyfer cyhoeddi ac addysgu ysgrifennu ar gyfer y sgrin. Gellid annog mwy o waith partneriaeth rhwng ffilm a llenyddiaeth.

Gan nodi pwysigrwydd mynegiant artistig a grym naratif, ystyriodd y Panel hefyd rôl bwysig llenyddiaeth a chyhoeddi o ran cefnogi cynhwysiant a chydardoldeb cymdeithasol yng Nghymru. Mae gwir angen i lenyddiaeth chwarae rhan yn y meysydd iechyd, cyfiawnder ac

addysg. Mae hyn yn galw am hyfforddiant a chymorth proffesiynol i alluogi awduron i ymgysylltu â chynulleidfaedd sy'n agored i niwed ym maes y celfyddydau cyfranogol.

Nododd y Panel briodoldeb adolygu'r holl hyfforddiant proffesiynol cyfredol a chydlynu'r arlwy presennol a datblygu ymhellach raglen integredig i ddatblygu sgiliau sydd wedi'i theilwra i anghenion awduron, cyhoeddwr a rhanddeiliaid artistig allweddol eraill.

Mae'r dirwedd hyfforddiant proffesiynol yn dameidiog yng Nghymru ar hyn o bryd a gellid ei gwella drwy fwy o gyfathrebu, cydlynu a chynyddu'r arlwy presennol ac yna ychwanegu cyfleoedd hyfforddi newydd.

Sefydliadau

Cyngor Llyfrau Cymru (y Cyngor Llyfrau)

Cyfarfu'r Panel gyda swyddogion y Cyngor Llyfrau, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd. Mae'r wybodaeth gefndir a gyflwynwyd i'r Panel gan y Cyngor Llyfrau eisoes wedi'i chynnwys eisoes.

Mae'n bwysig nodi fod y sylwadau isod wedi eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Panel Arolygu – nid ydynt yn sylwadau Aelodau'r Panel

Cododd y themâu a ganlyn o'r drafodaeth:

Monitro

- Roedd sicrwydd ansawdd yn hanfodol i'r Cyngor Llyfrau ac mae'n monitro'n barhaus y cyhoeddwr sy'n derbyn cyllid i sicrhau amrywiaeth o lyfrau a deunydd llenyddol yn ogystal â deunyddiau marchnata a fydd yn creu incwm.
- Mae nifer o lyfrau sydd wedi ennill gwobrau wedi cael cymorth gan y Cyngor Llyfrau ac wedi codi proffil llenyddiaeth o Gymru ar lwyfan byd-eang.

Deunyddiau Digidol

- Er bod deunyddiau digidol ar gael, roedd y Cyngor Llyfrau yn cydnabod ei bod yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i bobl fanteisio ar e-lyfrau Cymraeg, ond roedd yn cydnabod bod angen i lyfrau Cymraeg a Saesneg fod ar gael yn ddigidol.
- Mae gwerthiant e-lyfrau wedi arafu yn ddiweddar.
- Roedd Gwales, porth gwerthu a marchnata digidol y Cyngor Llyfrau, wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Roedd angen i bapurau bro gynyddu eu presenoldeb digidol heb danseilio'r cynnwys. Cyfeiriodd y Cyngor Llyfrau at uchelgais Golwg 360 i weithio'n agos gyda'r papurau bro er mwyn cynyddu eu presenoldeb digidol.

Y berthynas â rhanddeiliaid allweddol

- Pwysleisiodd y Cyngor Llyfrau, er ei fod yn gweithio gyda Llenyddiaeth Cymru ar brosiectau a digwyddiadau penodol, fod eu swyddogaethau'n wahanol a bod Llenyddiaeth Cymru yn gweithio gydag awduron ond rôl y Cyngor Llyfrau yw datblygu'r diwydiant.
- Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithio'n agos gydag Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac mae swyddogion ysgol y Cyngor Llyfrau yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion yr Adran.

Rôl y Cyngor Llyfrau o ran creu diwydiant cyhoeddi dynamig yng Nghymru a sicrhau nad yw cyhoeddi â chymhorthdal yn annog pobl i fod yn hunanfodlon

- Mae strwythur grant y Cyngor Llyfrau yn anelu at ddatblygu entrepreneuriaeth ac annog cystadleuaeth a chyfeiriodd at gyhoeddwyr newydd megis Cinnamon Press a Firefly Press, sy'n dangos bywiogrwydd y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae'r system grantiau yn annog datblygiad masnachol a symudiad tuag at fwy o gynaliadwyedd oherwydd ei bwyslais ar gynhyrchu rhestr cyhoeddi sy'n fasnachol gytbwys a thrwy gefnogi mentrau marchnata a chyhoeddusrwydd.

Cylchgronau

- Roedd y Cyngor Llyfrau yn cytuno fod nifer darllenwyr cylchgronau print yn lleihau fel rhan o duedd fyd-eang ehangach ac y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i gynnwys digidol. Fodd bynnag, mae'r cylchgronau yn fforwm ar gyfer rhoi sylw i wleidyddiaeth, llenyddiaeth a diwylliant Cymru ac i ysgogi trafodaeth yn enwedig o ystyried gwendid y diwydiant papurau newydd yng Nghymru.
- Dywedodd y Cyngor Llyfrau fod cylchgronau yn awr yn ceisio sicrhau cyllid o fannau eraill i arallgyfeirio, ac mai tanysgrifiadau yw'r brif ffynhonnell ar gyfer gwerthiannau print o hyd, roedd llwyfannau digidol yn rhoi'r potensial i gyrraedd mwy o bobl ac yn cynnwys modelau mynediad agored.

Barn ynghylch a ddylid cael un corff i gynnig darpariaeth hollgynhwysol i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru

Roedd y Cyngor Llyfrau yn cytuno, er ei fod yn fodlon ei fod eisoes yn gallu darparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r diwydiant cyhoeddi sydd ar gynnydd yng Nghymru, byddai'n barod (o gael swm priodol o gyllid ychwanegol) i ystyried chwarae mwy o ran yn y dyfodol mewn meysydd cysylltiedig y tu allan i'w gylch gwaith presennol er mwyn datblygu'r diwydiant cyfan ymhellach.

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Cyngor Llyfrau ac ar ôl ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law, daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn:

Cyffredinol

Wrth ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor Llyfrau ac hefyd yn nodi'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid eraill, yr oedd y Panel yn teimlo fod y Cyngor Llyfrau yn arddangos lefel-uchel o aeddfedrwydd mewn perthynas â'i swyddogaethau craidd. Yr oedd y Panel yn teimlo fod y Cyngor Llyfrau yn cael ei ystyried ac yn cael ei gydnabod fel sefydliad cenedlaethol allweddol a oedd wedi arddangos dros gyfnod hir ymrwymiad clir i gynhyrchu ac ymestyn cyhoeddi yng Nghymru. Wrth ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, daeth y Panel i'r casgliad fod yr amser yn iawn i ystyried cyfrifoldebau ychwanegol i'r Cyngor Llyfrau. Gallai hyn gryfhau'r ecosystem gyhoeddi yng Nghymru. Os fyddai dyletswyddau ychwanegol yn cael eu datblygu, byddai rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i nifer o ddatblygiadau strwythurol a llywodraethol i gefnogi'r swyddogaethau ychwanegol.

Cyllid

Mae'r Cyngor Llyfrau yn mynd ati i geisio sicrhau'r gwerth gorau am arian gan gyhoeddwyr llyfrau a chylchgronau. Mae'n ymdrin â cyfres o grantiau cyhoeddi (prosiectau a rhaglenni unigol) ac mae ganddo afael gadarn ar gostau gweinyddu a rhedeg.

Roedd cronfeydd a grantiau yn cael eu microreoli'n dda ond gellid dadlau bod y Cyngor Llyfrau angen mwy o weithwyr proffesiynol y diwydiant o ran rhai agweddau o'i gwaith.

Llywodraethu

Ni nododd y Panel unrhyw faterion o bwys ond gellid gwella rhai agweddau fel gydag unrhyw sefydliad effeithiol. Yn gyffredinol, ystyriwyd y Cyngor Llyfrau yn sefydliad tryloyw a oedd yn sicrhau sefydlogrwydd, tegwch a pharch o fewn y sector ledled Cymru, gan gynnwys ymysg cyhoeddwr, llyfrwerthwyr ac athrawon.

Cymorth i Gyhoeddwr

Roedd trefniadau llywodraethu'r Cyngor Llyfrau o ran y cymorth y mae'n ei ddarparu i gyhoeddwr yn foddhaol. Mae ei wasanaethau dylunio a marchnata wedi helpu i sicrhau bod bron pob cyhoeddwr yng Nghymru yn awr yn gallu creu cynhyrchion masnachol sy'n edrych yn dda - yn sicr, nid oedd hynny'n wir ddegawd yn ôl. Mae'r Cyngor Llyfrau yn rhoi ffocws i lyfrwerthwyr a chyhoeddwr Cymru ond yn naturiol gallai wneud mwy.

Cyhoeddi yn Gymraeg

Yr oedd y Panel wedi ystyried fod y Cyngor Llyfrau yn gwneud cyfraniad allweddol i gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg. Yr oeddynt wedi cydnabod cyfraniad holl bwysig y Cyngor Llyfrau ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi a chreu mwy o gyfleoedd o ran cefnogi ac hyrwyddo yr iaith Gymraeg a sicrhau fod gan Gymru ecosystem gyhoeddi ffyniannus yn yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nododd y Panel fod rhai cyhoeddwr wedi awgrymu bod gormod o deitlau a dim digon o arweiniad clir yn cael ei roi i siopau llyfrau o ran yr hyn y dylent neu na ddylent stocio. Yn hanesyddol, daw'r Cyngor Llyfrau o gefndir cyhoeddi Cymraeg ac efallai nad yw ei ddiwylliant bob amser yn gallu cefnogi cyhoeddwr entrepreneuriaidd.

Cyhoeddi yn Saesneg

Roedd peth o'r dystiolaeth a gafodd y Panel yn dangos mai gwir gryfder a diddordeb y Cyngor Llyfrau yw cyhoeddi deunyddiau Cymraeg. Nododd y Panel y sylwadau a dderbyniwyd o ran cyhoeddi yn yr iaith Saesneg, fod y Cyngor Llyfrau yn cynnig cefnogaeth gymwys ond ddim yr un lefel o arweiniad strategol a gyflwynwyd ar gyfer cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg - ac mae ei leoliad yn Aberystwyth yn gwneud iddo deimlo ymhell iawn o ddiwydiant cyhoeddi masnachol bywiog Llundain. Cafwyd peth trafodaeth ymhlith aelodau'r Panel, a derbyniwyd rhywfaint o dystiolaeth, ynghylch ai Aberystwyth oedd y lleoliad gorau i ymdrin â'r gwasanaeth cyhoeddi Saesneg ac a ddylai'r cymorth ar gyfer y ddwy iaith gael ei rannu gan leoli'r cymorth ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg mewn man arall. Fodd bynnag, at ei gilydd roedd y Panel cyfan yn teimlo na fyddai rhannu rôl y Cyngor Llyfrau yn cryfhau'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Nid yw'r Cyngor Llyfrau yn sefydliad mawr ac mae'r gyllideb ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg yn llawer llai na'r un ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg.

Cyhyd ag y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyhoeddi yn y ddwy iaith (ac mae cymorth y Cyngor Llyfrau i gyhoeddiadau Saesneg yn llai na 15 mlwydd oed), mae manteision i'r cysylltiadau rhwng y ddwy ochr. Mae'r farchnad yn gwneud llawer mwy ar gyfer ansawdd cyhoeddiadau Saesneg (ymhlith rhai cynigion llai trawiadol), felly bydd yr ymyriadau o ran arian cyhoeddus yn wahanol. Mae dylunio'n enghraifft dda. Mae ansawdd dylunio llyfrau Cymraeg, yn enwedig ffuglen wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan leihau'r bwlch rhyngddynt ag enghreifftiau gwell o ddylunio mewn cyhoeddiadau Saesneg.

Yr oedd y Panel yn cynabod fod rhai o'r cyhoeddwr bach a gefnogwyd gan y Cyngor Llyfrau wedi cyhoeddi llyfrau sydd wedi ennill ambell wobwr neu wedi cyrraedd ambell restr fer dros y blynyddoedd, ond nid ydynt erioed wedi dangos unrhyw arwydd o ddod yn fusnesau hunangynhaliol. Nid eu bai hwy yw hynny. Cyhyd ag y bydd cyllid ond ar gael i gyhoeddi gwaith newydd o Gymru, ymddengys mai dyna y bydd y cyhoeddwr yn parhau i'w wneud, gan fod grant

yn llawer mwy dibynadwy na dim ond dibynnu ar werthiannau. Pe bai'r cyhoeddwr hyn, neu yn wir unrhyw un sy'n dymuno sefydlu ei hun yn gyhoeddwr llenyddol yng Nghymru, yn awyddus i fod yn hunangynhaliol, mae'n annhebygol iawn y byddent yn adeiladu eu model busnes yn gyfan gwbl ar gyhoeddi gwaith newydd o Gymru.

Un o lwyddiannau mawr y byd cyhoeddi Prydeinig y tu allan i Lundain yw Canongate Books o Gaeredin. Roedd gan Canongate fantais o gael ei brynu gan unigolyn cyfoethog iawn a oedd yn gallu cefnogi'r cwmni drwy rai cyfnodau anodd - ac mae'n bwysig nodi nad yw ei lwyddiannau mawr wedi deillio o'r Alban o reidrwydd - e.e. enillydd ei wobr Booker am 'The Life of Pi' neu, yn wir, cofiant Barack Obama.

Teimlai'r Panel y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw eisiau parhau i ariannu cyhoeddwr llenyddiaeth Gymreig, fel y gwna yn awr, neu - a byddai hyn yn fwy costus yn y tymor byr, ond o bosibl yn opsiwn tymor byr yn unig - helpu i sefydlu cyhoeddwr yng Nghymru i gyhoeddi'n rhwyngwladol, o ran yr awduron y maent yn cyhoeddi eu gwaith a'r marchnadoedd y maent yn ceisio gwerthu iddynt.

Os, fodd bynnag, mai'r nod - fel y bu yn draddodiadol - yw gwneud yn siŵr bod awduron Cymreig yn cael cyfle teg, ac y bydd nofelwyr dawnus o Gymru yn dod o hyd i gyhoeddwr, yna mae angen inni ystyried a oes angen ymyrraeth yn y farchnad er mwyn gwneud hynny. Hynny yw, a yw ysgrifenydd talentog Cymreig yn debygol o gael eu hanwybyddu gan sefydliad cyhoeddi Llundain ai peidio?

Nododd y Panel ei fod yn eithaf arwyddocaol bod y tri llyfr ar y rhestr fer ar gyfer adran Saesneg Llyfr y Flwyddyn 2016 i gyd wedi'u cyhoeddi yn Llundain, gan Faber & Faber. Mae'n bosibl nodi awduron o Gymru y mae eu talent wedi dod i sylw cyhoeddwr Cymreig - e.e. Cynan Jones a Rachel Trezise - ac y mae eu gwaith wedi cael ei gyhoeddi yn Llundain wedyn. A fyddent wedi dod o hyd i gyhoeddwr yn Llundain heb fod wedi cychwyn ar eu taith yng Nghymru? Yn ôl pob tebyg, ond nid o reidrwydd. Yr hyn sy'n amlwg yw na all cyhoeddwr yng Nghymru lwyro gefnogi gyrfa cyhoeddi - nid oes yr un awdur sy'n gobeithio gwneud bywoliaeth o'i waith yn debygol o aros gyda chyhoeddwr Cymreig fel y mae pethau ar hyn o bryd,

Teimlai'r Panel mai'r perygl ar gyfer cyhoeddiadau yng Nghymru sy'n cael arian grant yw ei fod yn dod yn ddiwydiant cartref clyd a hunanfodlon ar raddfa fach sy'n cael dylanwad bach ar ddiwylliant Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae'n rhaid dweud - o ystyried y lefel bresennol o gyllid - ac o ystyried cyd-destun ehangach y byd cyhoeddi yn y DU - dyna'r cyfan y gall rhywun ei ddisgwyl yn rhesymol.

Un enghraifft o'r cyfraniad y gellir gwneud yw'r fenter Library of Wales, a olygwyd gan Dai Smith ac a gyhoeddwyd gan Parthian. Mae hyn wedi bod yn ailddarganfyddiad poblogaidd a gwerthfawr o lenyddiaeth Eingl Gymreig y ganrif ddiwethaf a aeth yn angof i raddau helaeth. Ymddengys fod y gyfres hon o lyfrau yn enghraifft o arian grant ar ei orau - yn camu i'r adwy pan na fyddai'r farchnad yn fodlon gwneud hynny gan roi i bobl Cymru heddiw rywbeth mawr ei angen i'w hatgoffa bod mwy i'n hanes na Dylan Thomas.

Dosbarthu

Nododd y Panel fod Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n fasnachol, heb gymhorthdal uniongyrchol. At ei gilydd, mae gweithgaredd dosbarthu'r Cyngor Llyfrau yn llwyddiant ac mae ganddo rwydwaith dosbarthu effeithiol. Ymddengys fod y Cyngor Llyfrau yn gwneud gwaith da iawn o ran dosbarthu llyfrau o amgylch Cymru, i ystod eang o siopau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i siopau llyfrau confensiynol.

Yn amlwg, nid yw'r farchnad lyfrau yng Nghymru yn ddigon mawr i gynhyrchu llwyddiannau masnachol go iawn. Ceir opsiwn o ddefnyddio dosbarthwr sy'n cwmpasu'r DU gyfan hefyd, ond

mae'n ymddangos bod rhai elfennau o wrthdaro buddiannau yma, ac mae'n anodd canfod enghreifftiau o lyfrau gan gyhoeddwr Cymreig sydd wedi gwerthu'n dda iawn ym marchnad y DU.

Unwaith eto mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch a all cyhoeddwr llenyddol bach Cymreig fyth fod yn fasnachol hyfyw. Ymddengys fod dosbarthu drwy'r Cyngor Llyfrau yn cynhyrchu gwerthiannau gweddol gyson yn y cannoedd uchel fesul teitl - nad yw'n cymharu'n wael pro rata â gwerthu ffuglen lenyddol fel y'i cyhoeddir gan gyhoeddwr y DU - ond mae ymhell o fod yn fasnachol hyfyw. Mae technoleg newydd wedi arwain at orgynhyrchu teitlau gyda'r canlyniad bod y Cyngor Llyfrau o bosibl yn ceisio gwerthu gormod o deitlau mewn marchnad sy'n crebachu.

Y Cyngor Llyfrau - Rhy Amharod i Gymryd Risg Mewn Rhai Meysydd

Ymddengys fod tystiolaeth bod cymorth grant y Cyngor Llyfrau, ar ei ffurf bresennol ac ar y lefelau presennol, ar y naill law, yn galluogi i rai llyfrau gael eu cyhoeddi lle mae galw isel amdanynt gan ddarllenwyr, ac ar y llaw arall ddim yn annog cymryd risg a phrofi'r farchnad.

Roedd teimlad bod y Cyngor Llyfrau yn gyffredinol yn amharod i gymryd risg a'i fod wedi osgoi ar adegau gwneud penderfyniadau cyllido anodd. Er enghraifft, a ddylid diddymu capasiti dylunio mewnol y Cyngor Llyfrau yn gyfan gwbl? A ddylai'r Cyngor Llyfrau o bosibl gefnogi llai o gyfnodolion? Roedd y Panel yn cytuno y byddai parodwydd gan y Cyngor Llyfrau i gymryd risgiau cytbwys yn galluogi cyhoeddwr i symud ymlaen ac i ddatblygu'r diwydiant. Yn ogystal, byddai'n galluogi'r Cyngor Llyfrau a'i randdeiliaid i werthuso'n well yr hyn sy'n llwyddo a'r hyn nad yw'n llwyddo er mwyn sicrhau bod hyd yn oed y risgiau aflwyddiannus yn llywio datblygiad.

Roedd y Panel yn cydnabod bod grant bloc y Cyngor Llyfrau yn symlach na gorfod gwneud cais fesul teitl, ond efallai mai cyrraedd y targedau sy'n gysylltiedig â'r grant bloc (o ran nifer y teitlau) yw un o'r agweddau sy'n ysgogi rhai cyhoeddwr i gyhoeddi teitlau a oedd yn llai masnachol.

Marchnata

Teimlai'r Panel fod angen i'r Cyngor Llyfrau roi mwy o sylw i farchnata yn gyffredinol ond ar yr un pryd roedd yn cydnabod bod hwn yn faes lle y bu'n rhaid i'r Cyngor Llyfrau wneud arbedion effeithlonrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gan fod y Cyngor Llyfrau wedi cwblhau ei drafodion busnes ar ôl i lyfr gael ei gyhoeddi, nid oes angen canolbwyntio ar farchnata. Fodd bynnag, mae cyhoeddi digidol yn gofyn am sgiliau marchnata newydd a dadansoddiad sy'n wahanol i weithgaredd marchnata llyfrau traddodiadol. Er mwyn symud gyda'r oes, mae angen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyhoeddwr a diweddarau eu gwybodaeth ac mae angen ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor Llyfrau yn cyfrannu at hyn ac mae angen adlewyrchu hynny yn y ffordd y mae'n gwasanaethu ei sector.

Panelli a Phwyllgorau'r Cyngor Llyfrau

Roedd y Panel yn cytuno bod amrywiol Baneli a Phwyllgorau'r Cyngor Llyfrau yn llwyddiant. Maent yn cefnogi ac yn helpu i ymgorffori gwerthoedd y Cyngor Llyfrau, a'i gysylltu â rhannau o Gymru ymhell y tu hwnt i Aberystwyth, lle mae bron pob aelod o staff yn gweithio. Maent yn gwneud y Cyngor Llyfrau yn sefydliad nad yw o dan reolaeth ei brif weithredwr neu'r uwch staff yn unig. Roedd y Panel yn cydnabod y diwylliant gwirfoddoli unigryw o fewn y Cyngor Llyfrau ac nad oedd aelodau'r Cyngor a'r Paneli yn cael eu talu. Yn ogystal, mae cyfeillion y Cyngor Llyfrau yn ariannu gwobrau.

Llenyddiaeth Cymru

Cyfarfu'r Panel ar 17 Mehefin 2016 gyda swyddogion Llenyddiaeth Cymru gan gynnwys y Prif Weithredwr ac Aelod o'r Bwrdd - nid oedd Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru ar gael. Yn wreiddiol, roedd cynrychiolwyr Llenyddiaeth Cymru i fod i gwrdd â'r Panel ym mis Mai 2016, ond gofynnodd Llenyddiaeth Cymru am ddyddiad arall gan nad oedd modd i'r Cadeirydd fod yn bresennol. Yn ystod y chwe mis dilynol, gwnaed sawl ymgais i drefnu dyddiad i'r Cadeirydd ymddangos gerbron y Panel, ond bu hyn yn aflwyddiannus. Roedd aelodau'r panel yn siomedig iawn nad oedd modd i Gadeirydd Llenyddiaeth Cymru, sy'n sefydliad y mae ei weithgareddau a'i staff yn cael eu hariannu'n bennaf gan y sector cyhoeddus, wneud trefniadau i gyfarfod â'r Panel.

Mae'r wybodaeth gefndir a gyflwynwyd i'r Panel gan Llenyddiaeth Cymru eisoes wedi'i cynnwys.

Mae'n bwysig nodi fod y sylwadau isod wedi eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Panel Arolygu – nid ydynt yn sylwadau Aelodau'r Panel

Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg o'r drafodaeth gyda Llenyddiaeth Cymru:

Perthynas Llenyddiaeth Cymru â'r Cyngor Llyfrau

- Cadarnhaodd Llenyddiaeth Cymru ei bod yn cydweithio ar ddau brosiect penodol, yn cynnwys Llyfr y Flwyddyn a Bardd Plant Cymru. Cadarnhaodd Llenyddiaeth Cymru nad yw'n cwrdd yn ffurfiol â'r Cyngor Llyfrau gan fod gorgyffwrdd rhwng mentrau darllen a chynlluniau llenyddol megis Sialens Ddarllen yr Haf.
- Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn gweithio gyda chyrrff eraill gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, S4C a Llywodraeth Cymru.

Y gwahaniaeth rhwng ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru ac ysgoloriaethau'r Cyngor Llyfrau

- Dywedodd Llenyddiaeth Cymru mai dyma'r cyswllt agosaf rhwng y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru, a bod ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru wedi'u hanelu'n bennaf at ganiatáu i awduron neilltuo amser i ganolbwyntio ar ysgrifennu.
- Nid oes angen llyfrau ar Llenyddiaeth Cymru fel tystiolaeth o allbynnau, yn hytrach mae'n anelu at hwyluso cyfleoedd ysgrifennu a chyfleoedd sy'n newid bywydau, ond mae'r Cyngor Llyfrau yn darparu grantiau i gyhoeddi llyfrau.

Rôl Bwrdd a thîm Rheoli Llenyddiaeth Cymru yn dilyn Adolygiad Arad a gyfeiriodd at ddiffyg fframwaith cydlynol a diffyg arweinyddiaeth strategol

- Roedd Llenyddiaeth Cymru wedi'i synnu o ddarllen paragraff olaf yr adroddiad, ac roedd wedi cael nifer o gyfarfodydd dilynol gyda Chyngor y Celfyddydau, ac roedd Cyngor y Celfyddydau wedi cydnabod bod nifer o ddatganiadau yn yr adroddiad a oedd yn gwrthdweud ei gilydd.
- Er nad oedd Llenyddiaeth Cymru yn cytuno â'r casgliad, roedd yn cydnabod bod angen gweithredu ar hyn os dyma yw canfyddiad y cyhoedd. Mae cynllun busnes newydd

Llenyddiaeth Cymru yn ymwneud â bod yn fwy cyfannol a galluogi pethau i symud yn gyflym gan ganiatáu i brosiectau ddatblygu'n strategol, ac roedd yn awyddus i fabwysiadu dull yn seiliedig ar gysylltiad yn hytrach na bod yn arweinydd.

Y berthynas rhwng Llenyddiaeth Cymru ac Academi

- Dywedodd Llenyddiaeth Cymru fod gan y ddau sefydliad berthynas agos, ond bod Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad cenedlaethol ac yn credu bod angen i grŵp o awduron megis Academi fod yn annibynnol.
- Dywedodd Llenyddiaeth Cymru nad oedd unrhyw ffens rhwng Llenyddiaeth Cymru a'r Academi - roedd yn fwy o wrych ac mae'r Academi yn allweddol i fwydo i mewn i strategaethau a grwpiau ffocws Llenyddiaeth Cymru.

Materion Llywodraethu

- Nododd cynrychiolwyr Llenyddiaeth Cymru bod Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru yn weithgar iawn ac yn cynnal cyfarfodydd effeithiol a chyfrifol. Dywedodd Llenyddiaeth Cymru ei bod wrthi'n recriwtio aelodau o'r bwrdd ac y bydd cefndir corfforaethol yn faen prawf allweddol ar gyfer y sawl a benodir. Dywedodd Llenyddiaeth Cymru fod y bwrdd bellach yn fwrdd o unigolion cydlynol o gefndiroedd gwahanol.

Sylwadau Eraill

- Roedd prisiau cyrsiau Llenyddiaeth Cymru yn gystadleuol
- Roedd Llenyddiaeth Cymru yn cyrraedd targedau ac yn diwallu gofynion Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys lefel presenoldeb a chyfleoedd newydd
- Dywedwyd mai pobl oedd prif flaenoriaeth Llenyddiaeth Cymru. Roedd awduron a chynulleidfa oedd yn yr un mor bwysig â'i gilydd. Rhoddwyd pwyslais cyfartal ar gefnogi awduron a datblygu cynulleidfa oedd ac ni ellid gwahaniaethu rhyngddynt.
- Dywedodd Llenyddiaeth Cymru fod grŵp ffocws wedi'i sefydlu i edrych ar strategaethau i gefnogi awduron a'i fod wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a dosbarthu holiaduron i fwydo i mewn i hyn. Yn dilyn canlyniadau'r holiadur, mae wedi dod yn amlwg bod mwy o gyfle i gydweithio ac mae wedi bod yn siarad â'r Cyngor Llyfrau er mwyn ymchwilio i hyn.
- Daeth y cyllid ar gyfer digwyddiadau Roald Dahl o Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod Llenyddiaeth yn rhan o'r Flwyddyn Antur.
- Trafododd Llenyddiaeth Cymru gyfleoedd yn y maes hunangyhoeddi (e.e., drwy Amazon) a nododd hefyd rai llwyddiannau Cymreig penodol yn y genres llyfrau trosedd a llyfrau i oedolion ifanc

Yn dilyn y cyfarfod gyda Llenyddiaeth Cymru ac ar ôl ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys ei Chynllun Busnes a'r Gofrestr Risg, daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn:

Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Llenyddiaeth Cymru a'r sylwadau amrywiol ar y sefydliad, yr oedd y Panel yn cydnabod y gwaith arwyddocaol a gyflawnwyd gan Llenyddiaeth Cymru gan gynnwys y cynllun ysgoloriaethau i awduron; sgwadiau sgwennu; Bardd Cenedlaethol; a Bardd Plant Cymru.

Llywodraethu

Derbyniodd y Panel nifer o ymatebion mewn perthynas â materion yn gysylltiedig â llywodraethu Llenyddiaeth Cymru. Teimlai'r Panel nad oedd unrhyw dystiolaeth yng Nghynllun Busnes Llenyddiaeth Cymru o drefniadau llywodraethu systemig, cryf ac nid oedd unrhyw gyfeiriad at lywodraethu yng Nghofrestr Risg Llenyddiaeth Cymru.

Nid oedd y Panel yn glir pa mor weithgar yw Bwrdd Llenyddiaeth Cymru o ran rhedeg y sefydliad a gwneud penderfyniadau ac nid oedd yn weladwy iawn. Roedd pryder bod Bwrdd Llenyddiaeth Cymru ond yn cyfarfod yn chwarterol. Roedd cyfansoddiad y Bwrdd yn peri peth pryder. Nid yw proffil cyffredinol aelodau o fwrdd Llenyddiaeth Cymru yn ei chwe blynedd cyntaf yn ymddangos wedi cynnwys digon o brofiad a sgiliau mewn llywodraethu corfforaethol, archwilio a rheolaeth ariannol. Gallai hynny newid yn sgil penodiadau newydd, ond nid oedd yn glir i'r Panel pryd a pha mor effeithiol y byddai hynny'n digwydd. Ni chaiff buddiannau awduron a chyhoeddwr masnachol eu cynrychioli ar Fwrdd Llenyddiaeth Cymru ac roedd beirniaid adeiladol ar y Bwrdd hefyd.

Roedd y Panel yn cwestiynu priodoldeb strwythur gweithredu llywodraethu Llenyddiaeth Cymru. Yr oedd hyn wedi arwain at gwestiynu diwylliant cyffredinol y sefydliad. Yr oedd y Panel yn siomedig nad oedd Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru yn barod i gyfarfod i drafod gweithgareddau Llenyddiaeth Cymru. Nododd y Panel hefyd sylwadau yr ymatebion i'r arolwg ar-lein a oedd yn cyfeirio at ymdeimlad o hawl a hunanedmygedd gan Llenyddiaeth Cymru. Arweniodd hyn y Panel i gwestiynu a oedd hyn yn briodol yng nghyd-destun cynnig gwasanaeth diwylliannol yn gysylltiedig ag arian cyhoeddus. Roedd y Panel felly yn teimlo nad oedd gan Llenyddiaeth Cymru y cyfansoddiad cywir o sgiliau a phrofiad i redeg corff sy'n gwario arian cyhoeddus.

Tŷ Newydd

Daeth y Panel i'r casgliad fod Tŷ Newydd yn amlwg yn tanberfformio, ond yr oedd Llenyddiaeth Cymru yn dal i gael grant o dros £110,000 y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gweithrediadau Tŷ Newydd yn ei rôl bresennol yn gynaliadwy yn ariannol. Ar ôl ystyried y grant hwn mae wedyn yn gweithredu'n gyffredinol gyda gwarged neu ddiffyg cymharol fach. O 2006/7 i 2013/14, roedd y grant gan Gyngor y Celfyddydau ychydig o dan £100,000 y flwyddyn ac mewn rhai blynyddoedd cafwyd grantiau eraill yn ychwanegol at hyn (e.e. dros £48,000 yn 2011/12)

Ymddengys fod Tŷ Newydd wedi'i anelu'n bennaf at bobl sydd wedi ymddeol ac sy'n ysgrifennu fel hobi ond nid oedd yn glir pwy y mae Tŷ Newydd yn darparu ar ei gyfer, ac felly pam mae'n derbyn cymhorthdal cyhoeddus. Nid yw'n glir ychwaith faint o unigolion, sydd wedi bod ar gwrs yn Nhŷ Newydd, sydd wedi mynd ymlaen i gyhoeddi llyfr. Mae'r math hwn o gwrs llenyddol preswyl yn cael ei ystyried gan nifer i fod yn hen ffasiwn yn yr ymchwydd presennol mewn ysgrifennu creadigol yn yr oes ddigidol. Nid oes gan Dŷ Newydd fawr ddim i'w gynnig i awduron proffesiynol nac ardaloedd difreintiedig.[er wedi ei leoli mewn ardal cydgyfeiriant lle mae cynnyrch domestig gros yn isel a ddylai cynnig cyfleoedd i wneud hynny]. Mae hyn yn groes i'r Irish Writers Centre a'r NUJ yng Nghymru, sy'n cysylltu gyda'u haelodau i ddarganfod beth sydd ei angen arnynt. Er gwaethaf hyn, nododd y Panel fod Llenyddiaeth Cymru yn gwrthod cydnabod y pryderon am gyrsiau Tŷ Newydd. Os am sicrhau bod Tŷ Newydd yn goroesi, mae angen arweinyddiaeth newydd ddeinamig a llwybr clir tuag at annibyniaeth ariannol arno yn y tymor byr hytrach na'r tymor hwy.

Crybwyllwyd statws rhestredig a Gradd II* Tŷ Newydd a'i gysylltiadau hanesyddol (hy gyda David Lloyd George) yn ystod y trafodaethau ac yn y dogfennau sy'n ymwneud â'r achos dros gefnogi Tŷ Newydd. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn rhesymau llenyddol dros ariannu colledion Tŷ Newydd. Yn hytrach maent yn ymwneud â phensaernïaeth a chysylltiadau hanesyddol yr eiddo. I'r graddau hynny, os yw'n cael eu hystyried yn achos teilwng dros gael cymhorthdal gan

Llywodraeth Cymru, dylai'r arian hwnnw ddod o gyllid Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i amgylchedd hanesyddol Cymru neu thwristiaeth yn hytrach na llenyddiaeth

Llyfr y Flwyddyn

Roedd y Panel yn cytuno bod gwobr Llyfr y Flwyddyn yn gysyniad da mewn egwyddor ac o fudd i awduron, cyhoeddwr a llyfrwerthwyr. Roedd y penderfyniad diweddar i rannu'r wobwr yn gategoriau ar wahân ar gyfer ffuglen, barddoniaeth a llyfrau ffeithiol yn synhwyrol. Fodd bynnag, mae diffygion sylweddol o ran sut y caiff ei hyrwyddo ac amheuaeth fawr ynghylch ai Llenyddiaeth Cymru yw'r sefydliad priodol i'w chydlynu. Mae ymdeimlad bod y wobwr yn cael ei thanariannu fwyfwy a bod diffyg brwdfrydedd ar ran Llenyddiaeth Cymru ei hun yn amlwg. Prin iawn fu'r sylw yn y wasg i wobrau diweddar a ni fu llawer o ddeunydd hyrwyddo mewn siopau llyfrau. Mae rhain yn gyfleoedd a gollwyd. Yr oedd y Panel yn cwestiynu gwerth y wobwr os nad oedd yn arwain at ragor o hyrwyddo, amlygrwydd, gwerthiant a darllenwyr.

Ar 12 Ionawr 2017 cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru ei bod yn cynnal adolygiad o'r wobwr Llyfr y Flwyddyn a fyddai'n cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2017. Gwnaed y cyhoeddiad heb hysbysu Llywodraeth Cymru na'r Panel Adolygu hwn o ystyried bod yr adolygiad yn mynd rhagddo. Roedd y Panel Adolygu yn siomedig iawn gydag amseriad yr adolygiad hwn a'r diffyg ymgynghori.

Cymorth i Awduron

Roedd y Panel yn cydnabod bod dwy brif elfen i'r cymorth uniongyrchol i awduron. Yr elfen gyntaf yw ysgoloriaethau i awduron a weinyddir gan Llenyddiaeth Cymru - sy'n cael eu rhoi yn uniongyrchol i awduron er mwyn eu galluogi i weithio ar lyfr - heb orfod ymwneud â chyhoeddwr o reidrwydd. Yna mae'r grantiau a roddir i gyhoeddwr yng Nghymru gan y Cyngor Llyfrau, sy'n cael eu talu i awduron, ac sydd fwy neu lai'n flaendaliadau ar gyfer eu llyfrau. Ymddengys fod y cyntaf o'r cynlluniau hyn yn gweithio'n dda iawn - mae wedi'i hen sefydlu, mae ganddo broses feirniadu agored, ac mae wedi helpu nifer fawr o awduron i symud ymlaen gyda'u gyrfaoedd. Mae'r ail, fodd bynnag, ychydig yn fwy aneglur. Ymddengys nad oes rheswm amlwg dros y ffaith bod ddwy ffrwd ariannu ar wahân - mae'n un o'r enghreifftiau cliraf o ddiffyg cydweithio dybryd rhwng y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru.

Ymddengys mai ysgoloriaethau i awduron yw prif elfen gwaith Llenyddiaeth Cymru ond nid ydynt yn cyfrif am brif wariant y sefydliad. Nid oedd yn glir i'r Panel ai prif rôl Llenyddiaeth Cymru oedd cynnig ysgoloriaethau ynteu cynnal digwyddiadau? Nid yw Llenyddiaeth Cymru yn canolbwyntio digon ar ddatblygu awduron. Daeth y Panel i'r casgliad bod diffyg blaengarwch o ran chwilio am dalent newydd ac adnabod talent o'r fath, ac er bod yr ysgoloriaethau yn elfen effeithiol o Llenyddiaeth Cymru, nid oes fawr o waith gweinyddol yn gysylltiedig â hwy a phrin oedd y ddeialog ddilynol ar ôl derbyn yr ysgoloriaeth neu prin oedd yr awduron a gyfeiriwyd at y cyfleoedd cywir.

Mae'r byd ysgrifennu creadigol yn newid yn gyflym ac nid oes tystiolaeth bod Llenyddiaeth Cymru yn ymaddasu i hyn. Ymddengys fod Llenyddiaeth Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu corfforaethol ac nad yw'n ymgysylltu ag awduron nad yn cael unrhyw drafodaeth ystyrllon i ddatblygu awduron. Mae marchnadoedd byd-eang ar gyfer cyhoeddi a marchnad ysgrifennu masnachol megis comedi ar y teledu (ITV, Netflix ac ati; mae ITV yn darparu gweithdy comedi yng Nghymru mewn partneriaeth â Boom), sy'n dangos ysgrifennu masnachol ar waith - ond nid yw'n ymddangos bod Llenyddiaeth Cymru yn annog ysgrifennu nac awduron i fod yn fasnachol.

Teimlai'r Panel y dylai Llenyddiaeth Cymru ffocysu ar ddatblygu strategaethau galluogi, hyrwyddo ac annog yn hytrach na mecanweithiau darparu gan osod yr ysgrifennwr a datblygu talent yn sail i'w gweithgareddau. Nid yw ei cyrsiau yn cynnig llawer i ddatblygu ysgrifennwyr i fod

yn barod i fynychu diwydiant masnachol, ac nid yw ei berthynas gyda chyrsgiau ysgrifennu creadigol a gynigir mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn glir.

Digwyddiadau Llenyddol Byw

Yn hanesyddol cyfrifoldeb Llenyddiaeth Cymru (ac Academi cyn hynny) oedd cefnogi digwyddiadau llenyddol byw. Mae'r rhain yn gymysgedd o ddigwyddiadau llenyddol untro, rhaglenni o ddigwyddiadau llenyddol sy'n parhau am ychydig wythnosau neu fisoedd, a gwyliau llenyddol. Mae gwyliau llenyddol yn rhan fwyfwy poblogaidd o'r dirwedd lenyddol. Maent yn amrywio o ddigwyddiadau mawr yn yr awyr agored a gynhelir dros benwythnos i gyfres o ddigwyddiadau bach sy'n cael eu cynnal dros gyfnod o wythnos neu ddwy yn yr un dref.

Mae'n ymddangos bod Llenyddiaeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf wedi symud o ganolbwyntio ar gefnogi hyrwyddwyr allanol i fod yn hyrwyddwr llenyddol ei hun, yn fwyaf nodedig gyda Gŵyl Dinefwr. Yn gyffredinol, mae cyllid ar gyfer gwyliau llenyddol braidd yn ddryslyd - mae rhywfaint ohono'n mynd drwy Llenyddiaeth Cymru a rhywfaint drwy raglen gyllido Gwyliau Cyngor y Celfyddydau, sy'n ariannu, er enghraifft, Gŵyl y Gelli.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cydlynu digwyddiadau a gwyliau. Teimlai'r Panel y byddai'n fwy priodol i Llenyddiaeth Cymru hwyluso'r gwaith o redeg digwyddiadau yn hytrach na'u harwain. Roedd trefniadau blaenorol Llenyddiaeth Cymru mewn perthynas â digwyddiadau llenyddol byw yn yn fwy effeithiol. Ymddengys fod rôl newydd Llenyddiaeth Cymru fel hyrwyddwr yn defnyddio llawer gormod o'i hadnoddau. Mae'n anodd peidio â gweld gwrthdaro mawr o ran buddiannau pan fydd gan Llenyddiaeth Cymru ei diddordeb masnachol ei hun yn y farchnad gwyliau llenyddol.

Dryswch ynglŷn â Rôl - ai Galluogwr yw Llenyddiaeth Cymru ynteu Cyflenwr?

Teimlai'r Panel fod Llenyddiaeth Cymru yn ymddangos fel pe bai'n ansicr ynghylch ei briod ddiiben. A yw'n rhwydwaith cymorth a galluogwr i awduron a hyrwyddwyr llenyddol, ynteu a yw'n gorff cyfatebol i Theatr Genedlaethol Cymru neu National Theatre Wales - cwmni llenyddol cenedlaethol? Ymddengys ei bod yn gogwyddo tuag at yr olaf, ond nid yw hon yn rôl sy'n gwneud synnwyr. Tra gellir perfformio sawl agwedd o lenyddiaeth, nid celfyddyd perfformio ydyw yn bennaf. Mae ymgnawdoliad newydd Llenyddiaeth Cymru fel hyrwyddwr gwyliau i'w weld yn aneffeithiol, yn ddrud ac yn ystumio'r farchnad sy'n gweithredu i raddau helaeth heb gymhorthdal sylweddol gan y sector

Awgrymodd y Panel y dylai Llenyddiaeth Cymru weithredu fel corff galluogi yn hytrach na bod yn fewnblyg a cheisio gwneud popeth ei hun. Awgrymodd ymatebion i waith y Panel mai prin iawn yw'r bobl yn y byd llenyddol yng Nghymru sy'n glir ynghylch beth yw pwrpas y sefydliad ar hyn o bryd a phwy y mae'n ei wasanaethu.

Ariannol

Roedd y Panel yn synnu o ganfod bod 75% o gyllideb Llenyddiaeth Cymru yn cael ei gwario ar gostau cyflogau ei staff ei hun. Ar ôl dadansoddi gwariant Llenyddiaeth Cymru, nid yw'r gwariant ar ysgoloriaethau a digwyddiadau llenyddol yn cynrychioli cyfran fawr o gyfanswm y gwariant. Roedd y Panel yn siomedig gyda record gyffredinol Llenyddiaeth Cymru o ddenu, drwy ei ymdrechion ei hun, arian o ffynonellau eraill (hy heb gynnwys cronfeydd y Loteri a weinyddir ganddo).

Addysgol

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cynnal nifer o fentrau addysgol. Fodd bynnag, ymddengys ei fod yn defnyddio nifer fach iawn o awduron rheolaidd.

Cyffredinol

Teimlai'r Panel nad yw Cynllun Busnes Llenyddiaeth Cymru yn cynnwys llawer o fanylion o ran allbwn, a'i fod yn debycach i gynllun gweithgaredd na chynllun busnes. Nid oes dim tystiolaeth o werthuso rhaglenni neu fanylion am fonitro ariannol.

Teimlai'r Panel nad oedd Llenyddiaeth Cymru yn rhan o ddatblygiadau digidol ac roedd angen datblygu cynulleidfaoedd digidol. Nododd y Panel fod rôl Academi a'i pherthynas â Llenyddiaeth Cymru yn aneglur. Nid oedd yn glir i'r Panel pa gamau a gymerwyd gan Llenyddiaeth Cymru yn dilyn Adroddiad Arad. Mae mentrau Llenyddiaeth Cymru sy'n ymddangos i weithio'n dda - yr ysgoloriaethau i awduron yn benodol ac, i ryw raddau, Llyfr y Flwyddyn - yn rhai hirsefydlog ond prin yw'r diddordeb a ddangosir gan Llenyddiaeth Cymru ynddynt bellach. Mae'n ymddangos fel pe ba'n goroesi drwy oddefiad, ac, yn achos yr ysgoloriaethau, yn goroesi diolch i'r arian uniongyrchol a gaiff gan y loteri.

Ar y cyfan teimlai'r Panel fod nodau ac amcanion y sefydliad yn aneglur - mae'r datganiad cenhadaeth i 'wasanaethu pobl/pawb yn afrealistig ac yn amwys. Roedd Llenyddiaeth Cymru yn rhy fewnblyg ac nid oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau. Nid oedd Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad ifanc bellach ond roedd diffyg aeddfedrwydd a chynllunio strategol i'w weld mewn nifer o feysydd.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyfarfu'r Panel â Chadeirydd a swyddogion Cyngor y Celfyddydau, gan gynnwys y Prif Weithredwr.

Mae'r wybodaeth gefndir a gyflwynwyd i'r Panel gan Lenyddiaeth Cymru eisoes wedi'i chynnwys eisoes.

Mae'n bwysig nodi fod y sylwadau isod wedi eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Panel Arolygu – nid ydynt yn sylwadau Aelodau'r Panel

Deilliodd y themâu a ganlyn o'r drafodaeth gyda Chadeirydd a swyddogion Cyngor y Celfyddydau

Cyffredinol

- Mae llenyddiaeth yn elfen allweddol o'r celfyddydau ac un o'r pryderon mawr yw bod rhai celfyddydau yn elwa'n fwy nag eraill. Mae'r cymorth i lenyddiaeth yn gryf ac yn cael ei ddarparu gan wybod bod methiant yn y farchnad, ond bod llenyddiaeth o werth i ddiwylliant Cymru a bod angen ei gwarchod. Mae angen i lenyddiaeth a chyhoeddi fod yn gydgysylltiedig ac mae Cyngor y Celfyddydau'n croesawu'r Adolygiad, sy'n anelu at wneud y sectorau yn gryfach ac yn fwy strategol.
- Yn 2011/2012, dyrannwyd 3% (£1,247,247) o gyfanswm lefel y grantiau a ddyfarnwyd gan Gyngor y Celfyddydau i lenyddiaeth, ac, er gwaethaf lleihad cyffredinol yng nghyllid Cyngor y Celfyddydau, roedd y grantiau i lenyddiaeth wedi cynyddu i 5% (£2,197,906) yn 2015/2016.
- Un o'r amodau sy'n llywio strategaeth Cyngor y Celfyddydau ar gyfer llenyddiaeth yw bod lefelau gwahanol o bobl a sefydliadau'n ymwneud â'r maes hwn - o lyfrgelloedd i ymgysylltu cymdeithasol - ac mae hynny'n dirwedd gymhleth o ran dull gweithredu strategol. Cymerwyd camau breision ymlaen ac mae cyfranogiad pobl ifanc ar gynydd.
- Nid oes gwariant penodol wedi'i ddyrannu i lenyddiaeth, nac i unrhyw fath arall o gelfyddyd, er mwyn caniatáu dull mwy hyblyg.
- Nid oes datganiad yn nogfennau strategol Cyngor y Celfyddydau sy'n cyfeirio'n benodol at lenyddiaeth neu unrhyw gelfyddyd unigol arall gan fod hyn yn galluogi Cyngor y Celfyddydau i flaenoriaethu ac adnabod prosiectau allweddol.
- Nododd Cyngor y Celfyddydau fod prosesau sefydledig wedi'u rheoli o fewn Cyngor y Celfyddydau ar gyfer monitro sefydliadau a gwneud y gwelliannau angenrheidiol, er mwyn lleihau'r risg ormodol a sicrhau gwerth am arian.
- Pan fydd y risg yn goch mewn sefydliadau, bydd Cyngor y Celfyddydau yn gweithio gyda'r bwrdd a'r Cadeirydd i greu marcwyr a thargedau gyda chanlyniadau penodol ynghlwm wrthynt, a bydd hefyd yn rhoi ffocws manwl ac arweiniad newydd.
- Mae gan Gyngor y Celfyddydau ddulliau ar wahân ar gyfer mesur gwerth economaidd a diwylliannol. Mae'r gyflogaeth a'r arian y mae diwylliant yn eu cyfrannu yn nhermau treth yn sylweddol ac yn fwy o lawer na lefel y cyllid cyhoeddus a roddir i gefnogi sefydliadau celfyddydol.

- Nododd Cyngor y Celfyddydau nad oedd data ar gael ar gyfer llyfrau sy'n cael eu prynu ar gyfer Cymru gyfan(ar-lein a theitlau heblaw'r rhai a gyhoeddwyd drwy'r Cyngor Llyfrau megis archfarchnadoedd).
- Cadarnhaodd Cyngor y Celfyddydau y byddai'n cwrdd â rhanddeiliaid allweddol cyn bo hir i roi argymhellion Adroddiad Arad ar waith.

Barn Cyngor y Celfyddydau ar ei berthynas gyda Llenyddiaeth Cymru

- Roedd Sefydlu Llenyddiaeth Cymru yn her, ond o safbwynt Cyngor y Celfyddydau, roedd angen rhagor o ymgysylltiad gan bob partner.
- Mae Cyngor y Celfyddydau yn gweld Llenyddiaeth Cymru fel galluogwr sy'n creu amgylchedd i eraill ffynnu ynddo yn hytrach na chorff sy'n cyflawni swyddogaethau penodol.
- Nododd Cyngor y Celfyddydau fod gan brif weithredwyr sefydliadau celfyddydol eraill broffiliau uchel mewn meysydd penodol, yn yr un modd â Llenyddiaeth Cymru.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod bod angen i Llenyddiaeth Cymru i fynd i'r afael â datblygiadau digidol ac integreiddio digidol.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn canolbwyntio ar ymgysylltu ar draws ardaloedd sydd dan anfantais gymdeithasol, gan ymestyn ar draws pob math o gelfyddyd, ac yn ddiweddar mae wedi bod yn gweithio gyda beirdd Somali gan ganolbwyntio ar y traddodiad llafar. Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd wedi gwneud cryn dipyn o waith mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau yn anghytuno ag awgrym y Panel bod cyfranogiad cynulleidfaoedd yn fesur allweddol i Llenyddiaeth Cymru ac nad oedd yn amcan penodol a roddir i'r corff gan Gyngor y Celfyddydau.
- Nododd Cyngor y Celfyddydau y gallai fod yn fuddiol cael mwy o gysondeb gan fod Cyngor y Celfyddydau yn derbyn llythyr cylch gwaith a'r Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru derbyn llythyr dyfarnu.
- Mae Cyngor y Celfyddydau yn annog Llenyddiaeth Cymru i ganfod cyllid o ffynonellau eraill. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llenyddiaeth Cymru wedi sicrhau cyllid o ffynonellau eraill yn ychwanegol at y cyllid gan Gyngor y Celfyddydau, ac mae wedi dod yn fwy entrepreneuriaidd. Mae cynllun busnes diweddaraf Llenyddiaeth Cymru yn chwa o awyr iach a bellach mae ffocws clir ar yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni.
- Yn y gorffennol, mae Cyngor y Celfyddydau wedi cwestiynu'r prosiectau y mae Llenyddiaeth Cymru wedi eu cefnogi a lefel y staffio, ond mae wedi symud ymlaen ac mae'r blaenoriaethau y maent yn gweithio iddynt yn bositif.
- Mae'r cymorth ar gyfer ceisiadau gan awduron wedi aros yn gyson er gwaethaf y toriadau mewn cyllid

Barn Cyngor Celfyddydau Cymru ar Drefniadau Llywodraethu Llenyddiaeth Cymru

- Yn ôl Cyngor Celfyddydau Cymru, nid yw Llenyddiaeth Cymru o dan unrhyw gamargraff ynghylch atebolrwydd, fel y dangosir gan y ffaith bod Cyngor y Celfyddydau wedi adnabod Llenyddiaeth Cymru fel sefydliad risg coch. Felly mae gan Gyngor y Celfyddydau ddylanwad dros Llenyddiaeth Cymru.
- Cafwyd problemau gyda Llenyddiaeth Cymru yn y gorffennol ond mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016-2019 bellach wedi esblygu ac mae'n ddogfen llawer cryfach â gweledigaeth glir. Pwysleisiodd Cyngor y Celfyddydau pe bai gan y sefydliad arweinyddiaeth wael ac nad oedd yn cael ei redeg yn iawn y byddai Cyngor y Celfyddydau yn ymateb ac yn gweithredu, ond nid oedd Llenyddiaeth Cymru yn y sefyllfa honno.
- Cadarnhaodd Cyngor y Celfyddydau ei fod wedi ystyried a ddylid rhoi mesurau arbennig ar waith, ond nid oedd Llenyddiaeth Cymru yn y categori hwnnw, ac eglurodd y gallai mesurau arbennig gael eu cymryd os na fydd nodau ac amcanion yn cael eu cyflawni. Nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn gyfreithiol gyfrifol am fyrddau y cyrff y mae'n dosbarthu arian iddynt, ond maent yn eu dwyn i gyfrif am y cyllid maent yn derbyn.
- Pwysleisiodd Cyngor y Celfyddydau bod rhai meysydd o bryder yng nghofrestr risg Llenyddiaeth Cymru a bod iaith y gofrestr risg yn ddi-flewyn-ar-dafod gan nad yw am i broblemau gael eu gwyngalchu.
- Mewn ymateb i ymholiad gan y Panel ynghylch y ffaith nad oes neb ar Fwrdd Llenyddiaeth Cymru o gefndir busnes a chyllid digonol, mae Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod y gellid cryfhau hynny a bod y trefniadau llywodraethu yn datblygu'n barhaus. Roedd Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod nad oedd bwrdd Llenyddiaeth Cymru yn darparu digon o her ac mae'r bwrdd yn ymwybodol bod angen ystod ehangach o sgiliau.

Gofynnodd y Panel pam yr oedd Llenyddiaeth Cymru yn dal i gyfeirio ato'i hun fel sefydliad ifanc er gwaetha'r ffaith iddo gael ei greu chwe blynedd yn ôl. Esboniodd Cyngor y Celfyddydau fod Llenyddiaeth Cymru wedi cael ei ystyried yn sefydliad â risg goch o'r cychwyn gan ei fod wedi gorfod symud o sefydliad a oedd yn gweithredu ar sail aelodaeth i sefydliad cenedlaethol, a bod hyn yn cymryd amser. Roedd Cyngor y Celfyddydau'n cydnabod bod angen gwaith ar hyn.

- Gwendid Llenyddiaeth Cymru oedd llywodraethu ond ei chryfderau oedd ei hymgysylltiad â'r gymuned ar draws gwahanol sectorau a'i hymgysylltiad ag awduron.
- Bu'r broses o drosglwyddo o'r Academi i'r trefniant presennol yn llwyddiant gan ei fod wedi rhoi'r gorau i gefnogi un set o awduron (eu haelodau) i wasanaethu ystod ehangach o randdeiliaid.
- Awgrymodd Cyngor y Celfyddydau y byddai'n gwneud synnwyr i'r Cyngor Llyfrau gael ei lywodraethu gan Gyngor y Celfyddydau. Er y byddai Cyngor y Celfyddydau yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn rhoi mandad i greu un corff gyda arweiniad strategol ym maes polisi, nid oedd Cyngor y Celfyddydau eisiau dull o orchymyn a rheoli, ac roedd yn parchu cyfrifoldebau annibynnol.
- Nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn cytuno y dylai rôl Llenyddiaeth Cymru ymwneud yn unig â datblygu awduron a datblygu talent. Dylai hefyd hyrwyddo drwy wyliau ac y dylid ystyried llenyddiaeth yn gelfyddyd perfformio. Roedd yn bwysig cydnabod y sbectwm

cyfan o lenyddiaeth. Roedd Llenyddiaeth Cymru wedi ymgysylltu â'r rhaglen dysgu creadigol a oedd yn ymwneud â chodi safonau llythrennedd.

- Er bod Llenyddiaeth Cymru ar y trywydd iawn roedd angen i'r corff ymgysylltu'n fwy â phobl ifanc. Mae'r sgwadiau 'sgwennu yn llwyddiant ysgubol ac mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn ymgysylltu ag ysgolion.
- Roedd Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus o ran mesur effeithiau o safbwynt meintiol ond mae'r gwerthusiad ansoddol yn cymryd mwy o amser i'w asesu.
- O safbwynt rhyngwladol, roedd Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod bod ffordd bell i fynd wrth ystyried ymgysylltu a chysylltedd strategol Llenyddiaeth Cymru. Fodd bynnag, roedd angen deialog a dadansoddiad o'r farchnad er mwyn symud pethau yn eu blaenau yn y maes penodol hwn.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau yn gwbl glir nad oes gan Llenyddiaeth Cymru hawl ddiodyn i arian cyhoeddus ac mae'n ymwybodol mai gan Gyngor y Celfyddydau y mae'r "botwm niwclear" cyllidebol ac y gallai ei ddefnyddio, pe bai angen.

Y berthynas rhwng Llenyddiaeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau

- Pwysleisiodd Cyngor y Celfyddydau fod Llenyddiaeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau yn sefydliadau ar wahân ac felly nad oedd angen i Gyngor y Celfyddydau fonitro a oedd strategaeth Llenyddiaeth Cymru yn gyson â strategaeth y Cyngor Llyfrau.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau yn cytuno bod gorgyffwrdd rhwng y gwahanol sefydliadau a'u bod yn cydweithio ar rai mentrau megis Llyfr y Flwyddyn.
- Fodd bynnag, nid oedd unrhyw berthynas ffurfiol rhwng y ddau sefydliad, ond mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng y ddau. Awgrymodd Cyngor y Celfyddydau y dylai perthynas ffurfiol fodoli rhwng y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru ac dylai fod mwy o orgyffwrdd ar lefel weithredol.
- Nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn credu y dylid uno Llenyddiaeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau. Mae gan y ddau sefydliad feysydd penodol o arbenigedd a gwybodaeth, ond dylent wneud mwy ar y cyd.

Llyfr y Flwyddyn

- Mewn ymateb i pam mai dim ond 10 o adolygiadau ar Amazon a gafodd Llyfr y Flwyddyn, dywedodd Cyngor y Celfyddydau ei fod yn disgwyl i gyhoeddwyr hyrwyddo hynny a chynyddu gwerthiant. Roedd hyrwyddo yn rhywbeth yr oedd angen ei ystyried.

Tŷ Newydd

- Hysbysodd Cyngor y Celfyddydau y Panel fod gan Tŷ Newydd ddiffyg o £110,000 sy'n parhau i'r dyfodol. Mewn ymateb holodd y Panel pam yr oedd Tŷ Newydd yn cael ei ariannu yn amhenodol. Pwysleisiodd Cyngor y Celfyddydau nad oedd erioed yn fater o

gwblhau proses yn daclus, ond mae'n eiddo sydd bellach wedi dod yn lle i ddarparu cyfleoedd penodol i awduron. Roedd Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod y dylai ystyried yr opsiwn bod Llenyddiaeth Cymru yn rhoi'r gorau i redeg neu gefnogi Tŷ Newydd

- Nododd Cyngor y Celfyddydau fod Tŷ Newydd bum mlynedd yn ôl yn mynd o un argyfwng i'r llall; erbyn hyn mae ganddo swyddogaeth fwy strategol fel rhan o Llenyddiaeth Cymru a gwell sail ar gyfer y dyfodol. Ffocws strategol Tŷ Newydd oedd cynnig mynediad lefel uchel i diwtoriaid o ansawdd uchel.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhyngweithio ag awduron. Mae marchnad ar gyfer y cyrsiau a gynigir yn Nhŷ Newydd er bod angen craffu ar yr ystod o gyrsiau. Roedd yn bwysig ystyried arlwy cyfan Llenyddiaeth Cymru gan gynnwys ymgysylltu ag awduron a phobl ifanc

Yn dilyn y cyfarfod gyda Chyngor y Celfyddydau ac ar ôl ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law, daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn:

Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â Llenyddiaeth

O ddarllen Cynllun Gweithredol Cyngor y Celfyddydau, roedd yn ymddangos mai digwyddiadau oedd diddordeb Cyngor y Celfyddydau gyda rhyw 5% o gyllideb Cyngor y Celfyddydau yn cael ei gwario ar wyliau a digwyddiadau. Mae Cyngor y Celfyddydau yn ariannu gwyliau llyfrau a digwyddiadau darllen yn yr un ffordd ag y mae Llenyddiaeth Cymru felly gall fod rhai achosion o gyllido dwbl. Roedd y Panel wedi'i synnu bod Cyngor y Celfyddydau (a Llenyddiaeth Cymru) yn ymddangos fel pe bai'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau llenyddol byw - nid dyma'r brif ffordd y mae Llenyddiaeth yn cael ei mwynhau. Mae data Cyngor y Celfyddydau yn ystyried Llenyddiaeth yn gelfyddyd fyw ond, mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o lenyddiaeth yn cael ei greu drwy brofiad y darlennydd.

Y berthynas rhwng Cyngor y Celfyddydau a Llenyddiaeth Cymru

Mae Cyngor y Celfyddydau yn ystyried Llenyddiaeth Cymru yn brif ddull cyflawni ar gyfer Llenyddiaeth er mai prin yw'r cyfeiriadau at Llenyddiaeth Cymru yn nogfennau Cyngor y Celfyddydau.

Teimlai'r Panel yn gryf na ddylai Llenyddiaeth Cymru eistedd ochr yn ochr ag Opera Cenedlaethol Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru neu National Theatre Wales, o ran y ffordd y cânt eu gweld gan Gyngor y Celfyddydau, gan fod ei swyddogaeth yn wahanol fel cwmnïau cynhyrchu. Nid prif swyddogaeth Llenyddiaeth yw cyrraedd cynulleidfaoedd drwy berfformiad. Llenyddiaeth Cymru yw'r unig sefydliad cenedlaethol a noddir gan Gyngor y Celfyddydau sydd â *risg goch*, ac mae wedi bod felly ers ei sefydlu. Roedd pedwar sefydliad ar hyn o bryd dan *fesurau arbennig* ac nid oedd y Panel yn deall pam nad oedd Llenyddiaeth Cymru yn y categori hwnnw.

Er bod Cyngor y Celfyddydau yn derbyn bod problemau gyda Llenyddiaeth Cymru, fel y dangosir gan y *categori risg coch* a'r ffaith ei fod wedi ystyried mesurau arbennig, roedd y Panel yn pryderu ynghylch yr her annigonol gan Gyngor y Celfyddydau wrth ddelio â Llenyddiaeth Cymru gan fod angen i'r corff fod yn atebol am yr allbynnau a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni gydag arian cyhoeddus.

Roedd y Panel yn bryderus fod Cyngor y Celfyddydau yn ymddangos yn fodlon bod Llenyddiaeth Cymru tuag 80% o'r ffordd tuag at gyrraedd ei nod gan nodi ei bod wedi cymryd dros chwe mlynedd i gyrraedd y sefyllfa bresennol a fod Llenyddiaeth Cymru dal yn y *catgori risg coch*. Tra bod Cyngor y Celfyddydau wedi cyfeirio at y pŵer a oedd yn ymddangos ar gael iddynt o dynnu cyllid yn ôl, roedd y Panel yn amheus y byddai Cyngor y Celfyddydau yn gwneud hynny ac o dan nawdd Cyngor y Celfyddydau, y byddai cyfradd gwelliant Llenyddiaeth Cymru yn parhau i fod yn araf.

Daeth y Panel i'r casgliad fod Cyngor y Celfyddydau yn cael anhawster i sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru yn gwella ei diffygion a'i threfniadau llywodraethu. Dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn fwy rhagweithiol, o ran sicrhau bod y Cynllun Busnes a Chofrestr Risg Llenyddiaeth Cymru yn addas at y diben ac yn cyflawni yn erbyn yr allbynnau angenrheidiol. Dylid addasu effaith ystumiol y pwys y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei roi ar bresenoldeb mewn digwyddiadau llenyddol wrth oruchwylio Llenyddiaeth Cymru. Nododd y Panel fod angen ystyried beth yw gwerth ychwanegol Llenyddiaeth Cymru, ac a oedd yn gyfrwng i alluogi Cyngor y Celfyddydau i gefnogi llenyddiaeth heb yr angen i ymwneud â hyn yn uniongyrchol.

Mae'r Panel yn awgrymu bod angen i Gyngor y Celfyddydau gyfleu rôl Llenyddiaeth Cymru yn well. Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, nid oedd Llenyddiaeth Cymru yn cyflawni yn unol â'r disgwyl. Dylai ymyrraeth gan y llywodraeth fod ar gael dim ond i gynorthwyo lle na fyddai gweithgaredd yn gallu digwydd fel arall - ac felly dylid gofyn y cwestiwn ynghylch a yw Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu fel dim ond asiantaethau cyllido, yn hytrach na chynnig cymhellion i eraill wneud pethau'n well.

Trefniadau yn y Dyfodol

Nid oedd y Panel yn cytuno ag awgrym Cyngor y Celfyddydau y gallai Llenyddiaeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau weithio'n fwy cynhyrchiol ochr yn ochr â'i gilydd i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir pe bai cyllid y Cyngor Llyfrau yn cael ei drosglwyddo a bod cyllid Cyngor y Celfyddydau yn ariannu'r Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru. O ystyried barn y Panel ynghylch sut y mae Cyngor y Celfyddydau a Llenyddiaeth Cymru yn ymdrin â'r materion llywodraethu sy'n ymwneud â Llenyddiaeth Cymru, byddai risgiau annerbyniol o uchel yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, a byddai'n annhebygol o arwain at fanteision. Nid nawr yw'r amser i ystyried uno Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Llyfrau ond dylai'r cysylltiad a'r cydlynw rhwng y sefydliadau fod yn well. Dylid rhoi ystyriaeth i symud rhai o'r gweithgareddau a ariennir gan Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd i'r Cyngor Llyfrau.

Tŷ Newydd

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf a mwy, ni roddwyd ystyriaeth ddifrifol i a yw'n synhwyrol i Gyngor y Celfyddydau (a Llenyddiaeth Cymru ers 2010) barhau i gefnogi'r diffygion refeniw a rhai costau cyfalaf ychwanegol yn Nhŷ Newydd.

Nid yw'r Panel yn teimlo y gall argymell yn bendant y dylai Llenyddiaeth Cymru roi'r gorau i ymwneud â Thŷ Newydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gafwyd wedi codi rhai pryderon difrifol am ei hyfywedd a'r defnydd ohono.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r Panel yn argymell yn gryf y dylai Llenyddiaeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau gynnal adolygiad brys o rôl Tŷ Newydd a gwerth parhau i roi swm sylweddol o gymhorthdal i'w gynnal yn yr hirdymor fel rhan o Llenyddiaeth Cymru. A ddylai hyn barhau, ynteu a allai'r cyllid a roddir i Dŷ Newydd ar hyn o bryd gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi

mentrau hyfforddi a sgiliau perthnasol mewn mannau eraill? Dylai'r dystiolaeth a'r casgliadau a fydd yn deillio o'r adolygiad hwn fod yn wybodaeth gyhoeddus.

Datblygiadau digidol o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

Deilliodd y themâu a ganlyn o'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Panel gan arbenigwyr digidol amrywiol a restrir yn **Atodiad 2**.

Mae'n bwysig nodi fod y sylwadau isod wedi eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Panel Arolygu – nid ydynt yn sylwadau Aelodau'r Panel

Digidol

- Mae gan Gymru lawer o botensial, ond mae hyn yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg mynediad i'r wybodaeth gywir.
- Mae angen i farchnata digidol ar gyfer cynnwys Cymraeg a Chymreig fod yn llawer mwy cydlynol.
- Mae'r Lolfa yn rhagweithiol o ran cyhoeddi llyfrau'n ddigidol a bellach mae modd darllen ei llyfrau ar Kindle ac maent ar gael drwy Amazon.
- Nid oedd Amazon yn ymgysylltu â chyhoeddwr o Gymru ac nid oedd Amazon yn cydnabod y Gymraeg. Datblygwyd ap gyda'r Cyngor Llyfrau er mwyn gallu lawrwlytho llyfrau Cymraeg (yn hytrach na defnyddio Amazon), ond, er gwaetha'r ffaith bod yr ap wedi'i ddatblygu, nid yw'n cael ei gynnal na'i hyrwyddo. Nid oedd yr ap yn cael ei farchnata ar y cyfryngau torfol ac roedd teimlad nad oedd y cyhoeddwr yn ei gefnogi'n gyfan gwbl.
- Mae Amazon yn farchnad fyd-eang ac yn gallu cymryd hyd at 80% ond roedd YouDo yn cynnig dewis arall a fyddai ond yn cymryd 10-20%.
- Mae angen i gyhoeddwr gydweithio mewn ffordd gydlynus a symud ymlaen, gan rannu arferion gorau a thyfu fel diwydiant.
- Er bod llyfrau'r Lolfa ar gael yn ddigidol, nid oes modd darllen llyfrau gwales (a llyfrau cyhoeddwr eraill) ar Kindle.
- Nid yw'r Cyngor Llyfrau yn cymryd risgiau a reolir; ac er nad yw'r drws ar gau o ran yr ap nid oedd yn cael ei farchnata.
- Ar hyn o bryd mae arian cyhoeddus yn cefnogi'r sefyllfa sydd ohoni yn hytrach nag arloesi.
- Nid yw rhai cyhoeddwr yn dymuno cael mynediad i opsiynau digidol rhag ofn y byddant yn peryglu gwerthiannau copïau papur, ond maent yn colli gwerthiannau
- Mae llyfrau llafar wedi cynyddu o ran eu poblogrwydd, ac mae manteision mawr i addasu cynnwys at y diben hwn, gyda mwy a mwy o gyhoeddwr yn awyddus i wneud hyn.
- Mae e-lyfrau'n hygyrch, yn rhatach ac ar gael yn fyd-eang.
- Newidiodd Amazon dirwedd y byd cyhoeddi yn gyfan gwbl ac mae'n galluogi mynediad i bawb gyhoeddi eu gwaith
- Mae mwy o bobl yn awr yn prynu llyfrau o Amazon nag o siopau llyfrau.

Hunangyhoeddi

- Mae nifer o lwyfannau gwahanol i awduron sy'n hunangyhoeddi.
- Mae hunangyhoeddi yn osgoi cyhoeddwr a dosbarthwyr ac yn galluogi'r awdur i gymryd rheolaeth lwyr o'r cynnwys a'r pris.
- Mae Amazon bellach yn sicrhau ansawdd yr holl ddeunydd a hunangyhoeddir ac ni fyddai'n derbyn dim sy'n ansafonol neu'n amhriodol.
- Yr anfantais yw bod mwy o lyfrau i gystadlu â hwy gan fod y farchnad wedi ehangu.

- Os yw llyfr yn dda, boed yn hunangyhoeddedig neu beidio, bydd yn gwerthu, os na fydd yn dda, yna ni fydd hynny'n digwydd.
- Mae dylunio a golygu da yn hanfodol i ddenu darllenwyr
- Bydd sicrhau bod y llyfr ar gael i'w lawrlwytho am ddim yn arwain at fanteision sylweddol o ran gwerthiant ac yn cynorthwyo i farchnata'r llyfr fel 'gwerthwr gorau'.
- Mae gwahanol ddiffiniadau o 'werthwyr gorau' gan gynnwys yn ôl categori penodol.
- Mae siopau llyfrau bellach yn derbyn llyfrau a hunangyhoeddir.
- Mae rhaglen gyfnewid drwy Amazon sy'n hwyluso rhannu sgiliau ymysg cyhoeddwr (e.e. 'cyfnewid' cloriau i'w golygu).
- Ar ôl i lyfr gael ei ysgrifennu, mae angen dod o hyd i gynulleidfa. Gellir gwneud hyn drwy flogio a chysylltu â grwpiau a fforymau darllen.

Sylwadau gan y Panel yn sgil y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gafwyd

Yn y cylch gorchwyl penodol ar gyfer yr Adolygiad, gofynnwyd i'r Panel ystyried datblygiadau digidol. Mae cryn dystiolaeth bod y diwydiant cyhoeddi wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf gyda newidiadau mawr i'r model busnes cyhoeddi yn sgil digideiddio darllen. Nododd y Panel yr amrywiaeth eang o farn ar y pwnc hwn. Mae datblygiad e-lyfrau a llwyfannau digidol niferus yn galw ar y diwydiant cyhoeddi i adolygu'n sylweddol y cyfleoedd i sicrhau'r twf mwyaf yn y farchnad.

Bydd angen buddsoddi llawer mwy o amser ac egni creadigol yn y byd cyhoeddi yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn cysylltu testun, sain, fideo a delweddau i greu cyfleoedd cyhoeddi ystyrion er mwyn crynhoi gwerth stori. Bydd llwyddiant cyhoeddi digidol yn dibynnu ar yr hyn y bydd darllenwyr yn y dyfodol yn ei ddisgwyl o'r profiad darllen a llyfrau ac a ydynt yn dymuno cael rheolaeth dros y profiad o ddarllen neu gael eu tywys gan yr awdur mewn dull mwy traddodiadol. Bydd ymgysylltu rhyngweithiol a hunanreoli naratif wrth wraidd arloesi yn y byd cyhoeddi. Mae cryn gyfleoedd i arloesi yn y maes hwn. Bydd y cwmnïau cyhoeddi hynny a all fanteisio ar dechnoleg ddigidol a data defnyddwyr ar gyfer eu hecosystem gyhoeddi eu hunain yn gweld manteision strategol. Mae hyn hefyd yn wir am ddatblygu mentrau amlasiantaeth yn y meysydd diwylliannol ac ieithyddol.

Mae gwneud y mwyaf o gysylltedd digidol yn caniatáu i sefydliadau megis S4C, Yr Urdd, y Cyngor Llyfrau a darparwyr addysg greu clystyrau digidol creadigol newydd cyffrous a allai wella cyfleoedd ar gyfer cyhoeddi yng Nghymru. Nododd y Panel yn glir mai piler arwyddocaol ar gyfer buddsoddi mewn cyhoeddi yng Nghymru yn y dyfodol yw symud o destun statig i lwyfannau rhyngweithiol. Gall technoleg ddigidol ymgysylltu â darllenwyr drwy ddulliau rhyngweithio cymhellol.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf mae technoleg wedi newid popeth yn sylfaenol. Bydd unrhyw beth nad yw wedi newid eisoes yn newid yn fuan. Mae technoleg yn ei gwneud popeth yn haws - o ddosbarthu i gyfieithu - o gymharu â sut yr oedd pethau. Y broblem yw y gall technoleg wneud pethau'n rhy hawdd - mae'n gwneud cyhoeddi'n hawdd, ar draul proses olygu briodol, ac mae statws bod yn awdur yn cael ei ddibrisio. Mae dyfodiad technoleg mewn gwlad fel Cymru, gyda chyfathrebu gwael, yn ymddangos fel pe bai'n ateb i bopeth - ond y tu ôl i hynny oll mae nifer o gymhlethdodau.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, Llenyddiaeth Cymru, a'r rhan fwyaf o gyhoeddwr Cymru wedi bod yn araf i fanteisio ar gyfleoedd digidol - gydag eithriadau nodedig megis Y Lolfa yn dod i gytundeb ag Amazon, ac Accent Books, o ran darganfod talent ar-lein a marchnata'r dalent honno ar lein.

Byddai maint y cyfranogiad ar gyfer y diwylliant Cymraeg, yn seiliedig ar ffigurau'r Eisteddfod ac S4C - rhwng 140,000 a 160,000 - yn gwneud cynulleidfa ddelfrydol i dreialu canolfan amlgyfrwng Gymraeg ar-lein, yn cynnwys llyfrau, ffilmiau, cerddoriaeth, gemau, apiau, cylchgronau a llyfrau llafar.

Ni chanfu'r Panel unrhyw lyfrau llafar yn y byd cyhoeddi Cymreig, er gwaethaf y ffaith bod y farchnad ar gynnydd yn y DU a'i bod yn werth rhwng £75 a £91 miliwn. Fodd bynnag, cafodd y Panel dystiolaeth bod rhai o hunangyhoeddwr llwyddiannus Cymru wedi cysylltu ag Amazon ac yn cael eu hariannu ganddo i greu fersiynau llyfrau llafar o'u gwaith.

Nid yw'r Cyngor Llyfrau na Llenyddiaeth Cymru yn defnyddio meddalwedd cost isel i greu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar-lein ar gyfer cyhoeddwr ac awduron, gyda chymunedau a fforymau ar lein er mwyn hwyluso trafodaeth a dysgu rhwng y sefydliadau hyn a'r bobl y maent i fod i'w gefnogi.

Mae cynhyrchu digidol llwyddiannus yn y byd cyhoeddi yn dibynnu ar y chwant i arbrofi, a'r gallu i addasu'n gyflym yn wyneb adborth negyddol, yna rhagor o arbrofi. Mae'n gofyn am ddyfeisgarwch parhaus o ran datrys problemau a dealltwriaeth o sut y mae cyhoeddi traddodiadol a digidol yn asio gyda'i gilydd. Mae dymeg menter o'r fath, sy'n seiliedig ar dimau o arbenigwyr y mae cysylltiad llac rhyngddynt ac sydd wedi'u dosbarthu ar hyd a lled y wlad, ac sy'n aml yn seiliedig ar brosiect lle mae chwaeth yn gyfrifol am eu llwyddiant, yn dangos bod ymateb chwim yn flaenoriaeth. Mae ymateb chwim yn gofyn i sefydliadau cyllido fod yn agored, i beidio â bod yn amddiffynnol ac i fod yn rhagweithiol ynghylch yr hyn nad ydynt yn ei wybod. Unwaith eto, prin yw'r dystiolaeth sydd gan y Panel o hyn, yn enwedig felly yn achos Llenyddiaeth Cymru. Roedd buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer sgiliau digidol yn y sector cyhoeddi yng Nghymru hefyd yn hanfodol.

Dylai cefnogi datblygiad digidol priodol o fewn y diwydiant fod yn flaenoriaeth gyda llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnwys traws-lwyfan - creadigol a dosbarthu. Mae angen mwy o ddatblygiadau digidol - ar gyfer awduron a chyhoeddwr.

Hunangyhoeddi

Bydd grwpiau o hunangyhoeddwr yng Nghymru yn gwneud defnydd mawr o gyfryngau cymdeithasol i drefnu a marchnata eu ffeiriau llyfrau ar lawr gwald sydd wedi'u harwain gan awduron. Eleni, mae'r Rhondda, Dinbych y Pysgod, Llandeilo, Caerfyrddin, Llangwm, y Fenni a Chrucywel wedi cynnal digwyddiadau o'r fath.

Mae'r Panel yn credu y byddai'n fuddiol trefnu gweithdai ar hunangyhoeddi a chyhoeddi digidol. Mae angen i gyhoeddwr ddeall cyhoeddi digidol a'r gwahanol farchnadoedd sydd ar gael iddynt a byddai hyfforddiant yn y meysydd hyn yn cynorthwyo cwmnïau cyhoeddi i dyfu.

Y trefniadau gweinyddol o ran cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith, yn ogystal ag ar gyfer papurau bro.

Gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith

Gofynnwyd i'r Panel ystyried y trefniadau gweinyddol ar gyfer cefnogi'r gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith.

Ar ôl i'r Panel ystyried y mater hwn, dywedodd y Panel wrth Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2016 y dylai'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y gwasanaeth newyddion hwn aros fel y maent ar hyn o bryd gyda chyllid Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei sianelu drwy'r Cyngor Llyfrau.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd gyda chyngor y Panel ac wedi hynny cynhaliodd y Cyngor Llyfrau ymarfer tendro i ddarparu'r gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg.

Ym mis Hydref 2016 cyhoeddodd y Cyngor Llyfrau mai Golwg Newydd Cyf a oedd wedi ennill y tendr i ddarparu'r gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg ar gyfer y tair blynedd nesaf.⁴⁴

Mae Golwg Newydd Cyf wedi rhedeg Golwg 360, ei wasanaeth ar-lein a digidol, ers ei sefydlu yn 2008⁴⁵

Papurau Bro

Gan mai dim ond y trefniadau gweinyddol ar gyfer ariannu papurau bro y gofynnwyd i'r Panel eu hystyried, ni chafodd y Panel dystiolaeth gan bapurau bro. Fodd bynnag, daeth y Panel i'r casgliad fod papurau bro yn llwyddiant ac yn hanfodol o ran darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddarllen am weithgareddau yn eu cymunedau lleol. Yn wir, cydnabyddir yn eang mai *papurau bro* yw'r unig ddeunydd Cymraeg y mae nifer o siaradwyr Cymraeg yn ei ddarllen. *Ar hyn o bryd caiff Papurau Bro* eu gweinyddu gan Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Caiff cymorth i gylchgronau yn ogystal â Golwg 360 (sy'n gweithio'n agos gyda'r papurau bro ar nifer o fentrau) eu hariannu drwy'r Cyngor Llyfrau. Gallai'r Cyngor Llyfrau felly weld manteision bod yn gyfrifol am weinyddu'r papurau bro ond dywedodd hefyd nad yw'r sefydliad yn pwysu'n daer i gael y cyfrifoldeb ychwanegol hwn. Trafododd ysgrifenyddiaeth y Panel hefyd y mater hwn gydag Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru nad oedd yn pwysu am unrhyw newidiadau.

Er y gallai'r Panel weld manteision trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros weinyddu'r papurau bro o Lywodraeth Cymru i'r Cyngor Llyfrau, daeth i'r casgliad fod y trefniadau gweinyddol presennol yn gweithio i bob golwg ac nad oedd unrhyw reswm i newid. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r mater hwn a dylid datblygu perthnasoedd gwaith agosach rhwng y papurau bro a nifer o sefydliadau. Er enghraifft roedd y *papurau bro* eisoes wedi gweithio'n agos gyda Golwg 360 a dylai hyn gael ei ddatblygu ymhellach.

Y cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth mewn ardaloedd difreintiedig ar draws Cymru

Cynhwysiant Cymdeithasol

Gall mynediad i ddiwylliant gael dylanwad mawr ar gynhwysiant cymdeithasol a thegwch. Mae gan sicrhau cyfleoedd a chyfranogiad effeithiol mewn amrywiaeth eang o weithgareddau celfyddydol rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo Cymru fwy cyfiawn a theg. Gall caniatáu i gymunedau greu naratif sy'n mynegi eu straeon a'u gwerthoedd eu hunain gael effaith sylweddol o ran helpu cymunedau i oresgyn allgau cymdeithasol.

⁴⁴ <http://golwg360.cymru/>

⁴⁵ <http://www.cllc.org.uk/newyddion-news/news-detail?diablo.lang=eng&id=13094>

Mae creu, hyrwyddo a chyhoeddi llenyddiaeth sy'n ymwneud â materion cymdeithasol a diwylliannol penodol grwpiau neu gymunedau penodol yn ganolog i gefnogi cynhwysiant. Mae annog cyfranogiad mewn digwyddiadau llenyddol a grwpiau artistig yn meithrin gwytnwch a hunanhyder. Mae'n gwella'r cyfleoedd i fagu hyder unigolion a grwpiau ac yn meithrin sgiliau generig allweddol trosglwyddadwy. Mae hyn, wrth gwrs, hefyd yn cwmpasu anghenion hyfforddi unigolion sydd wedi'u dadrithio gan addysg a hyfforddiant ffurfiol ac yn eu galluogi i ystyried nid yn unig gyfleoedd newydd neu hunanddatblygiad, ond cynyddu eu hunanhyder a'u hunan-barch gan arwain at fwy o gyfranogiad mewn cymdeithas. Mae gan hyn botensial i feithrin ymdeimlad llawer mwy cadarnhaol o hunaniaeth ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Dangosodd yr Athro Sandy Pentland o MIT sut y mae patrymau o gysylltiadau cymdeithasol yn rhagfynegi canlyniadau cymdeithasol⁴⁶ a sut y mae ffynonellau iechyd a chyfoeth yn dibynnu ar ymgysylltu ac archwilio. Dywed: 'the propagation of ideas from person to person is a type of collective intelligence we call culture'. Dengys sut y gall rhwydweithiau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gydgyhmhellion⁴⁷ wella llif syniadau. Gall ef a'i dîm ragfynegi, ar sail patrymau cyfnewid gwybodaeth rhwng pobl mewn rhwydwaith, pa mor gynhyrchiol ac effeithiol y bydd tref neu sefydliad.

Mae gan hyn oblygiadau o ran cynhwysiant polisi a llythrennedd a gall awgrymu y gallai rhwydweithiau presennol fel llyfrgelloedd, cymdeithasau tai ac ysgolion gyfuno eu cryfderau yn effeithiol i adeiladu rhwydweithiau cymunedol cryfach, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu ac archwilio. Mae cymdeithasau tai yng Nghymru eisoes yn hyfforddi tenantiaid i ddod yn gynorthwyr ystafell ddo-barth ac mae Asiantaeth Ffilm Cymru yn cydweithio â chymdeithasau tai mewn ardaloedd o amddifadedd er mwyn cynnwys pobl ifanc leol mewn gwneud ffilmau.

Nododd y Panel gyfoeth ac amrywiaeth aruthrol y gweithgarwch diwylliannol ar lefel cymunedau lleol ar draws Cymru. Yn wir, dangosodd rhai o'r cyrff cenedlaethol sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth a chyhoeddi enghreifftiau o ymarfer arloesol. Fodd bynnag gellir cyflawni mwy drwy sicrhau mwy o integreiddio rhwng cyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol.

Mae angen gwneud gwaith i ddeall y cyfyngiadau o fewn ein cymunedau i gefnogi llythrennedd oedolion a sut y gall hyrwyddo llenyddiaeth chwarae rhan yn hynny o beth. Er bod y Panel wedi derbyn tystiolaeth o sut yr oedd sefydliadau Cymru yn cefnogi llythrennedd oedolion, teimlwyd bod angen dull mwy cydlynol.

Roedd gan y Panel ddiddordeb arbennig yn y posibilrwydd o ddatblygu'r rhwydweithiau llyfrgell helaeth ledled Cymru ymhellach fel canolfannau datblygu allweddol a allai gefnogi mwy o fentrau cynhwysiant a darparu rhagor o gymorth o ran llythrennedd oedolion a llythrennedd digidol. Mae'n amlwg bod synergedd sylweddol rhwng cynlluniau datblygu presennol y gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru a'r sector llenyddiaeth a chyhoeddi. Dylai fod yn bosibl llunio rhaglen ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n ymdrin â meysydd polisi allweddol y Llywodraeth megis: cynhwysiant digidol, llythrennedd, lles cymdeithasol, diwylliant a chreadigrwydd a lles economaidd. Nododd y Panel y cyfle i rannu arferion gorau ar sut i greu canolfannau cymunedol effeithiol a hygyrch a allai gefnogi a gwella ymwybyddiaeth o lenyddiaeth a hefyd hyrwyddo strategaethau cynhwysiant ymhellach. Gallai mwy o bartneriaethau gyda llyfrgelloedd ledled Cymru helpu i ailysgogi ymgysylltiad er mwyn datblygu mwy o ymgysylltu â'r gymuned a chefnogi cynhwysiant.

⁴⁶ <https://www.youtube.com/watch?v=HMBI0ttu-Ow>

⁴⁷ <https://www.amazon.co.uk/Social-Physics-Networks-Make-Smarter/dp/0143126334>

Daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn:

Roedd y Panel yn cydnabod bod y rhan fwyaf o gyhoeddwr wedi'u lleoli yn yr ardaloedd cydgyfeirio. Roedd sicrhau bod siopau llyfrau o fewn cyrraedd yr holl ysgolion uwchradd yng Nghymru yn hanfodol. Mewn ardaloedd lle nad oes siopau llyfrau ar gael, dylid annog stondinau llyfrau mewn gwyliau, a ffeiriau llyfrau.

Byddai'n ffordd ddoeth o wario arian ac yn rhoi arweiniad a hyfforddiant i gyhoeddwr cyn cyrraedd y farchnad. Dylai mwy o gefnogaeth fod ar gael i fwy o ddigwyddiadau llenyddol (neu ddigwyddiadau llenyddol yn bennaf) a arweinir yn lleol mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai ymyriadau wedi'u targedu fod ar gael hefyd er mwyn datblygu cronfeydd talent yn gysylltiedig â llenyddiaeth.

Awgrymodd y Panel fod lle i roi dull o'r gwaelod i i fyny ar waith ar gyfer llythrennedd, cynhwysiant ac amddifadedd drwy staff cymdeithasau tai yn cydweithio â llyfrgellwyr mewn ardaloedd lleol ac yn gweithio o lyfrgelloedd lleol. Mae cymdeithasau tai fel Tai Taf⁴⁸ eisoes yn cynnal hyfforddiant i denantiaid sydd â diddordeb mewn bod yn gynorthwyrwyr dosbarth. Mae gan gymdeithasau tai weithwyr cymunedol ym mhob ardal lle mae cynhwysiant ac amddifadedd yn broblem.

⁴⁸ <https://www.taffhousing.co.uk/events/2016/11/04/classroom-assistant/>.

6. Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r Cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad hwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r Panel ystyried y canlynol:

- Prif nodau Llywodraeth Cymru o safbwynt cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, yn y ddwy iaith; hy beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a hynny ar lefel ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd? A yw'r nodau hyn yn addas i'w diben o hyd yn yr unfed ganrif ar hugain?

Ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, mae'r Panel Adolygu yn gwneud yr argymhellion a ganlyn. Eu nod yw adeiladu ar y trefniadau cymorth presennol lle bo modd, ond gan wneud newidiadau lle bo angen er mwyn sicrhau bod y cynnig cyffredinol yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac yn gwneud y gorau o fanteision diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd sector cyhoeddi cryf a diwylliant llenyddol cyfoethog yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y prif argymhellion i Weinidogion Cymru

Cyffredinol

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth ariannol i'r diwydiant ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg
- Dylid parhau i ddarparu cymorth ar gyfer deunyddiau print a digidol, ond mae angen gwella'n sylweddol y ddarpariaeth ddigidol a'r strategaeth.
- Dylid cadarnhau pwysigrwydd cyllid priodol gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ac annog cyfleoedd arloesol ar gyfer datblygu llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru.
- Mae'r rhain yn feysydd buddsoddi allweddol sy'n cyd-fynd yn llwyr ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac sy'n cefnogi'n uniongyrchol y blaenoriaethau strategol a nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen 2016-2021:
 - *Bydd gwerthfawrogi ein traddodiad llenyddol dwyieithog enwog, ei alluogi i ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain, sicrhau ei gyrhaeddiad byd-eang a chefnogi mynediad a chyfranogiad ar draws Cymru yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y nodau llesiant a ganlyn - Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynol; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.*
 - *Wrth wneud hynny byddwn yn cefnogi amcanion y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau Cymru sy'n - iach ac egniol; sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu; sy'n unedig a chysylltiedig.*
 - *Bydd diwydiant cyhoeddi cryf, arloesol sy'n darparu swyddi o ansawdd uchel, sy'n cystadlu'n rhyngwladol ac sy'n caniatáu i awduron proffesiynol o bob cefndir (yn Gymraeg a Saesneg) ddatblygu llwybrau gyrfa yng Nghymru yn cyfrannu'n sylweddol at y nodau llesiant a ganlyn - Cymru lewyrchus, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.*
 - *Wrth wneud hynny byddwn yn cefnogi amcanion y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau Cymru sy'n - iach ac egniol; sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu; sy'n unedig a chysylltiedig.*

Newidiadau i'r ffordd y caiff cymorth ei weinyddu

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio dod i gytundeb â'r Cyngor Llyfrau Cymru i sicrhau y bydd yn ymgymryd â rhai swyddogaethau presennol Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys:
 - Llyfr y Flwyddyn (gyda'r nod o gynyddu ei effaith fasnachol, gan gynnwys ystyried y dull marchnata sydd ei angen)
 - Ysgoloriaethau
 - Digwyddiadau Llenyddol / Awduron ar Daith
 - Darpariaeth i blant a phobl ifanc
- Byddai hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a ddylai gael ei wrthbwysu gan ostyngiad cyfatebol yn y cyllid a ddarperir i Gyngor Celfyddydau Cymru at y dibenion hyn (cyllid y mae'n ei drosglwyddo i Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd).
- Tra fod y swyddogaethau hyn yn ddibynnol ar gyllid trydydd parti (megis cyllid Loteri Genedlaethol a ddyfarnu'r ar hyn o bryd i weithredu ysgoloriaethau), dylid sicrhau cytundeb gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru na fydd Cyngor Celfyddydau a Llenyddiaeth Cymru yn ail-ymgeisio ar gyfer y cyllid hwn ar ddiwedd y cyfnod dyfarnu, a bydd yn hytrach yn cefnogi cais gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y cyllid hwn i weithredu'r swyddogaeth hwn yn y dyfodol.
- Os caiff dibenion Cyngor Llyfrau Cymru eu hehangu ar y sail hon, yna byddai angen (i'r Cyngor Llyfrau) ystyried y canlynol:
 - Newid ei deitl i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol
 - Presenoldeb priodol ar lefel ranbarthol ar draws Cymru
 - Strategaeth ddigidol glir ac iddi ffocws
 - Strategaeth glir i hyrwyddo cynhwysiant ar draws Cymru, gan adeiladu ar ei strategaeth tlodi plant bresennol
 - Strategaeth datblygu talent
- Ar ôl cytuno ar hyn, byddai angen i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r newidiadau uchod mewn llythyr dyfarnu grant diwygiedig i'r Cyngor Llyfrau a llythyr cylch gwaith diwygiedig cyfatebol i Gyngor y Celfyddydau (yn dileu'r dyletswyddau a'r arian sy'n cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Llyfrau).
- Yn sgil y newidiadau strwythurol hyn, byddai'r cyfrifoldebau a ganlyn yn aros gyda Chyngor y Celfyddydau / Llenyddiaeth Cymru:
 - Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd⁴⁹
 - Digwyddiadau a gwyliau diwylliannol eraill a drefnir gan Gyngor y Celfyddydau

Argymhellion ar gyfer sefydliadau rhanddeiliaid:

Y Diwydiant Cyhoeddi yng Nghymru

⁴⁹ <http://www.tynewydd.wales/>

- Mae angen i'r sector cyfan, o ficrofentrau i gwmnïau mwy, ddatblygu ffocws mwy cynhwysfawr ar arloesi, entrepreneuriaeth a chysylltu â chynulleidfaoedd a darllenwyr newydd:
 - *Dylai'r sector yng Nghymru fanteisio'n llawn ar fentrau newydd sy'n hyrwyddo menter ac arloesi mewn technoleg ddigidol, marchnata a chyhoeddi.*
 - *Dylid mynd ati i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio trawsgelfyddydol gydag artistiaid ac entrepreneuriaid mewn sectorau eraill yn y diwydiant creadigol - yn enwedig mewn canolfannau lleol a rhanbarthol, i gefnogi agenda gynhwysol ymhellach.*
 - *Dylai'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru hefyd chwilio am gyfleoedd i gydweithio â busnesau mewn sectorau eraill o'r economi ddigidol yng Nghymru (e.e.; e-fasnach, yswiriant ac ati).*

Cyngor Llyfrau Cymru

- Dylai Cyngor Llyfrau Cymru ddatblygu cenhadaeth newydd, eang i nodi a darparu'r cymorth cywir sydd ei angen ar lyfrau o Gymru yn y ddwy iaith, ym mhob rhan o Gymru - gan gydnabod y bydd yr ymyriadau sydd eu hangen yn aml yn wahanol ar gyfer llyfrau Cymraeg a Saesneg a hefyd ar gyfer gwahanol gyd-destunau (e.e.; daearyddiaeth, demograffeg, rhanddeiliaid, cynulleidfaoedd ac ati).
- Yn sgil hyn daw'r angen i'r Cyngor Llyfrau adolygu natur a chapasiti'r Pwyllgor Gwaith a'r trefniadau llywodraethu, er mwyn sicrhau bod y ddau yn briodol i ganiatáu i'r Cyngor Llyfrau ddatblygu ei genhadaeth newydd, ehangach.
- Mae angen i'r Cyngor Llyfrau ddatblygu lefelau gwahanol o awch am risg ar draws gwahanol swyddogaethau, er mwyn cymryd mwy o risgiau wedi'u rheoli ac arloesi lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gallai hyn wella effeithiolrwydd marchnata o fewn Cymru a'r tu allan iddi; byddai hefyd yn caniatáu i'r Cyngor Llyfrau wneud mwy i gymell cyhoeddwr i ddod o hyd i lwyddiannau.
- Datblygu strategaeth ddigidol gadarn a chynyddu ymgysylltiad digidol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - *Cefnogi'r sector cyfan i fanteisio i'r eithaf ar fentrau newydd sy'n hyrwyddo menter ac arloesi ym meysydd technoleg ddigidol, marchnata a chyhoeddi.*
 - *Galluogi'r sector i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â busnesau mewn sectorau eraill o'r economi ddigidol yng Nghymru (e.e.; e-fasnach, yswiriant ac ati) a manteisio ar y cyfleoedd hynny.*
 - *Ymgysylltu â chyrrff perthnasol y diwydiant yn y sectorau eraill hyn yng Nghymru, er mwyn ystyried a oes angen datblygu sgiliau ac arbenigedd presennol ymhellach er mwyn hwyluso cydweithredu â'r diwydiant cyhoeddi.*
- Nodi camau i wella marchnata a chynyddu cyrhaeddiad masnachol cyhoeddwr a'u rhoi ar waith.
- Datblygu a gweithredu strategaeth glir i annog a datblygu talent ar draws Cymru, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) nodi llwybrau gyrfa posibl i awduron yng Nghymru a rhoi cyngor

arnynt, chwalu rhwystrau i fynediad lle y maent yn bodoli a sicrhau mynediad priodol ac effeithiol i ddatblygiad proffesiynol.

- Gwella prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac ymgorffori arferion gorau yn y maes hwn ar draws ei ystod newydd, estynedig o weithgareddau.
- Ystyried a gweithredu cynlluniau i gefnogi cyhoeddwr ac awduron mwy arloesol / entrepreneuriaidd.
- Ystyried a oes angen cymorth penodol, wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion microfentrau.
- Ystyried cynlluniau i alluogi ac annog cydweithio trawsgelfyddydol gydag artistiaid ac entrepreneuriaid mewn sectorau eraill yn y diwydiant creadigol a rhoi'r cynlluniau hynny ar waith - yn enwedig mewn canolfannau lleol a rhanbarthol, i gefnogi agenda gynhwysol ymhellach.
- Mwy o bresenoldeb ar lefel ranbarthol ar draws Cymru, gan gynnwys yng ngogledd-ddwyrain Cymru a de-ddwyrain Cymru.
- Datblygu a gweithredu strategaeth glir ar gynhwysiant, gan adeiladu ar y strategaeth tlodi plant sydd eisoes yn bodoli; dylai hyn nodi sut y bydd y Cyngor Llyfrau yn cefnogi ac yn galluogi gweithgareddau ar draws Cymru sy'n hyrwyddo cynhwysiant, gan gynnwys gweithio gyda llyfrgelloedd a dulliau cyflawni eraill.
- Ymchwilio i effaith y trefniadau cyfanwerthu yn y sector cyhoeddi yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU (yn fwyaf nodedig yn Lloegr) a datblygu cynigion i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol hyn.
- Ni ddylai cymorth gan y Cyngor Llyfrau i ffeiriau llyfrau fod yn gyfyngedig i Gymru, er bod y gweithgaredd yng Nghymru yn bwysig ac y dylai barhau.
- Dylai'r Cyngor Llyfrau gefnogi datblygu teithiau i ffeiriau masnach llyfrau rhyngwladol allweddol yn y DU a thramor, er mwyn creu cysylltiadau masnachu a meithrin gallu yn y sector cyhoeddi yng Nghymru. Dylid adolygu costau a manteision y rhain bob blwyddyn ac, yn llawnach, ar ôl 3 blynedd.
- Datblygu a chynyddu'r ddarpariaeth hyfforddiant i gyhoeddwr (mewn meysydd megis rheoli busnes, diogelu a manteisio ar eiddo deallusol, marchnata ac ati).
- Annog cyhoeddwr yng Nghymru i sefydlu sefydliad ymbarél ar gyfer cyhoeddwr Saesneg (yn debyg i Cwlwm Cyhoeddwr Cymru i gyhoeddwr Cymraeg), a/neu ymchwilio i fanteision ymuno ag un o'r sefydliadau cynrychioliadol sy'n bodoli eisoes, ar lefel y DU
- Ceisio gwella cysylltiadau rhwng y sector a'r cyfryngau prif ffrwd yng Nghymru. Dylai'r corff cryfach gael perthynas gryfach â Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y ddwy iaith.

(Er enghraifft, gellid ystyried cyfleoedd ar gyfer llyfrau sy'n cyd-fynd â chyfresi teledu/adolygiadau etc.; ar hyn o bryd mae gwahaniaeth rhwng y sylw yn y cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg - e.e.; mae gan Heno ar S4C eitem reolaidd ar awduron cyfredol o Gymru, ond nid oes rhaglen deledu gyfatebol yn Saesneg ar BBC Cymru Wales).

- Adolygu'r gwasanaethau mewnol i gyhoeddwy'r a ddarperir gan Gyngor Llyfrau Cymru ar hyn o bryd (e.e.; golygu, dylunio). Ystyried ar sail unigol a ddylai'r gwasanaethau hyn barhau - ar y lefel bresennol neu o gwbl?
 - *A ddylid gwneud mwy o ddefnydd o grantiau i gyhoeddwy'r er mwyn eu galluogi i ddefnyddio gwasanaethau o'r fath gan ddarparwyr masnachol?*
 - *Ymchwilio i ddulliau amgen newydd o dyfu gwerth economaidd y sector cyhoeddi yng Nghymru.*

(Nodwn fod ymhell dros hanner costau staff y Cyngor Llyfrau yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn a ddarperir i gyhoeddwy'r, yn hytrach na chostau rhedeg craidd.)

- Datblygu a gweithredu cynigion i gynyddu lefel y cyllid o ffynonellau yn y sector preifat a'r trydydd sector (mewn ymgynghoriad / partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru neu eraill, lle y bo'n briodol).

(Mae lefel y cyllid a gaiff gan y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru o ffynonellau preifat a'r trydydd sector yn ymddangos yn isel. Mae'r ddau gorff yn cael eu hariannu'n helaeth gan grantiau Llywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol (y Cyngor Llyfrau - sydd hefyd wedi llwyddo gyda cheisiadau achlysurol i'r Loteri ei hun) neu drwy Gyngor y Celfyddydau (Llenyddiaeth Cymru - y mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn dirprwyo'r gwaith o ddsbarthu swm cyfyngedig o arian y Loteri Genedlaethol iddi). Mae'r ddau wedi gwneud ymdrechion yn y maes hwn ac yn parhau i wneud ymdrechion, ond heb fawr o lwyddiant o ran y symiau cyffredinol (heb gynnwys arian gan y Loteri Genedlaethol, sydd ei hun yn arian cyhoeddus, er nad yw'n grant gan Lywodraeth Cymru). Mae yna, wrth gwrs, rai manteision anariannol hefyd i arian a godir o ffynonellau nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus.)

- Dylai Cyngor Llyfrau Cymru barhau i weinyddu'r tendr i ddarparu gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith.
- Nodi bylchau yn y data presennol ar y sector cyhoeddi yng Nghymru a chymryd camau i fynd i'r afael â bylchau yn y data, gan ddatblygu data llinell sylfaen cyflawn a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd i lywio ystyriaethau polisi yn y dyfodol (e.e.; ar draws Cymru ac yn ôl rhanbarth: cyfanswm nifer y gweithwyr mewn gwaith llawn amser / rhan amser / cyflogaeth lawrydd; cyfanswm y llyfrau a gyhoeddir; cyfanswm y gwerthiannau).

Cyngor Celfyddydau Cymru

- Mae angen ffocws cliriach ar ymgysylltu â Llenyddiaeth (ar ôl rhoi mandad i Llenyddiaeth Cymru ymdrin â hyn, nid yw'n ymddangos bod Cyngor y Celfyddydau ei hun yn ei ystyried yn fanwl neu fel blaenoriaeth).
- Dylai Cyngor y Celfyddydau adolygu cwmpas a maint y cymorth i lenyddiaeth y mae'n ei ariannu a'r ffordd y mae'n cael ei gyflwyno, drwy ymgynghori â Llenyddiaeth Cymru, y Cyngor Llyfrau a rhanddeiliaid eraill. Dylai hyn gynnwys y canlynol:
 - *Diffinio 'cenhadaeth' lenyddol graidd newydd ac iddi fwy o ffocws; un sy'n ystyried trosglwyddo swyddogaethau allweddol o Llenyddiaeth Cymru i'r Cyngor Llyfrau ac sy'n pennu nodau sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ganlyniadau.*

- *Ailedrych ar berthynas Llenyddiaeth Cymru ag awduron a llenorion yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys materion yn ymwneud â chynrychiolaeth, darparu adnoddau hygyrch a'r ffordd orau o gefnogi datblygiad proffesiynol awduron ac ysgrifenyddwyr, ar sail addasadwy sy'n cael ei 'harwain gan anghenion', mewn amgylchedd lle mae'r byd ysgrifennu creadigol yn newid yn gyflym.*
- *A all Llenyddiaeth Cymru ddod yn sefydliad sy'n 'galluogi', yn ôl y bwriad?*
- *Ailystyried rolau Cyngor y Celfyddydau a Llenyddiaeth Cymru wrth gefnogi gwyliau llenyddol. Bwriedir i Llenyddiaeth Cymru yn enwedig fod yn gorff sy'n galluogi, ond mae hyn yn enghraifft dda o hynny'n gweithredu'n fwy fel corff sy'n cynnal digwyddiadau yn hytrach na galluogi i eraill wneud hynny. Yn rhannol ymddengys fod hyn yn cael ei lywio gan ffocws gormodol yn Llenyddiaeth Cymru ar y niferoedd sy'n bresennol mewn digwyddiadau llenyddol fel meincnod ar gyfer llwyddiant wrth gefnogi llenyddiaeth. Mae hyn yn gyfeiliornus. Mae'r digwyddiadau hyn yn arfau pwysig ar gyfer llenyddiaeth, cynulleidfaoedd ac awduron, ond nid dyma'r prif ddull o fwynhau llenyddiaeth; ni ddylai llwyddiant o ran cynyddu ymgysylltiad â Llenyddiaeth Cymru gael ei fesur yn y modd hwn yn bennaf.*
- *Ailystyried a yw statws 'cwmni cenedlaethol' yn briodol ar gyfer Llenyddiaeth Cymru, yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldebau allweddol i'r Cyngor Llyfrau.*

(Mae Llenyddiaeth Cymru yn llawer rhy fewnblyg, heb ddigon o ffocws ar ganlyniadau.)

- Mae angen gwell cyfathrebu rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Llyfrau - dylid datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i helpu i ategu a chyflawni hyn.
- Cryfhau'r oruchwyliaeth o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Llenyddiaeth Cymru a gwella'r broses o fonitro'r hyn sy'n cael ei gyflawni gyda'r cyllid y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei roi i Llenyddiaeth Cymru / Llenyddiaeth.
- Er tryloywder, dylai llythyr dyfarnu grant Cyngor y Celfyddydau i Llenyddiaeth Cymru fod yn wybodaeth gyhoeddus.
- Dylid cyhoeddi Adroddiad 2016 ARAD, 'Ymchwil ar weithio'n rhyngwladol ym maes llenyddiaeth yng Nghymru'⁵⁰ yn llawn (dim ond drwy wneud cais i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru y mae ar gael ar hyn o bryd; dim ond y Crynodeb Gweithredol sydd ar gael fel dogfen gyhoeddus).
- Rydym yn croesawu argymhellion adroddiad ARAD⁵¹, a dylid parhau i'w hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.
- Rydym yn croesawu ymateb Cyngor y Celfyddydau i adroddiad ARAD, lle mae'n cydnabod ei rôl o ran cyflawni yn erbyn argymhellion yr adroddiad ac yn ymrwmo i gamau gweithredu penodol i sicrhau bod sefydliadau yn dod at ei gilydd yn ôl yr angen i wneud hynny. Dylai'r ymrwymadau hyn hefyd gael eu hadolygu:
 - *Mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnig dod â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol Cymru ynghyd, er mwyn creu, ar y cyd, strategaeth ymgysylltu ryngwladol newydd ac*

⁵⁰ <http://www.wai.org.uk/news/6883?diablo.lang=cym>

uchelgeisiol, un sydd wedi'i seilio ar fwy o eglurder a chyfatebolrwydd o ran swyddogaethau. Dilynir hyn gan ddigwyddiad i adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a chychwyn ar y camau nesaf.

- *Parhau â'r gwaith ymgysylltu a ysgogwyd gan yr adroddiad, drwy weithio gyda'r gymuned lenyddol a chyhoeddi ehangach.*

Llenyddiaeth Cymru

- Dylai'r cyllid ar gyfer swyddogaethau a arferai fod yn swyddogaethau craidd gan gynnwys Llyfr y Flwyddyn, Ysgoloriaethau, Digwyddiadau Llenyddol / Awduron ar Daith a darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gael eu symud i'r Cyngor Llyfrau (drwy ddarparu cyllid ychwanegol i'r Cyngor Llyfrau gan Lywodraeth Cymru at y diben hwnnw, wedi'i wrthbwysio gan ostyngiad cyfatebol yn y cyllid a ddarperir i Gyngor Celfyddydau Cymru (y mae'n ei drosglwyddo i Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd at y dibenion hyn).
- Tra fod y swyddogaethau hyn yn ddibynnol ar gyllid trydydd parti (megis cyllid Loteri Genedlaethol a ddyfarnu'r ar hyn o bryd i weithredu ysgoloriaethau), ni ddylai Llenyddiaeth Cymru na Chyngor Celfyddydau Cymru geisio ymestyn y cyllid hwn ar ddiwedd y cyfnod dyfarnu. Dylent yn hytrach ymroi i gefnogi cais gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer sicrhau y cyllid fydd angen i weithredu'r swyddogaeth hwn yn y dyfodol.
- Gwella llywodraethu ac atebolrwydd.

(Mae angen clir i unioni'r fantol rhwng y Bwrdd a'r tîm rheoli, sy'n rhy flaenllaw ar hyn o bryd.)

- Mae angen mireinio'r gwaith cynllunio strategol
- Dylid cynnal dadansoddiad manwl o sut y caiff cyllideb Llenyddiaeth Cymru ei dosbarthu ar hyn o bryd

(mae 75% o gyllideb Llenyddiaeth Cymru yn cael ei gwario ar gyflogau ei staff.)

- Ystyried sut i gefnogi awduron mwy arloesol / entrepreneuriaidd.
- Yn ôl yr angen, datblygu a gweithredu cynigion i gynyddu lefel y cyllid o ffynonellau yn y sector preifat a'r trydydd sector (drwy ymgynghori / partneriaeth â'r Cyngor Llyfrau lle y bo'n briodol).

Gan weithio gyda Cyngor y Celfyddydau, ailystyried yn feirniadol rôl Tŷ Newydd - gallai'r cyllid a roddir i Dŷ Newydd ar hyn o bryd gael ei wario ar fentrau hyfforddi a sgiliau perthnasol mewn mannau eraill.

(Mae'n ymddangos nad yw Cyngor y Celfyddydau na Llenyddiaeth Cymru erioed wedi ystyried a yw'r cymhorthdal blyneddol parhaus y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei roi i Llenyddiaeth Cymru ar gyfer Tŷ Newydd - sydd ymhell dros £100,000 - yn ddilys o ran y canlyniadau a gyflawnir. Nid ydynt ychwaith wedi ystyried dewisiadau eraill - e.e.; a ddylent gael gwared ar Dŷ Newydd. Mae Llenyddiaeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau ill dau yn ymddangos yn amharod i gydnabod pryderon y panel ynghylch perthnasedd a hygyrchedd cyrsiau Tŷ Newydd.)

- Gan weithio gyda Chyngor y Celfyddydau, ailystyried yn feirniadol statws yr Academi Gymreig.

Llywodraeth Cymru – argymhellion eraill

- Dylid diwygio dulliau cymorth megis Cymorth ar gyfer Ymweliadau i Ddatblygu Busnes Tramor, sy'n galluogi busnesau i gynnal ymweliadau datblygu busnes sy'n berthnasol i farchnadoedd tramor, er mwyn caniatáu i geisiadau gan gyhoeddwr i fynychu a chael presenoldeb ffurfiol mewn ffeiriau masnach llyfrau rhyngwladol gael eu hystyried, yn enwedig ffeiriau yn Llundain (sy'n canolbwyntio ar farchnadoedd tramor er mai yn y DU y cânt eu cynnal) a Frankfurt.
- Bydd hyn yn gofyn am ystyriaethau gwerth am arian prïodol ar gyfer y sector (h.y.; is na chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer diwydiannau eraill), gan gydnabod y bydd y potensial sy'n deillio o bresenoldeb cychwynnol fel arfer yn talu ei ffordd yn y tymor hwy yn hytrach na'r tymor byr.
- Diwygio'r llythyr dyfarnu grant i'r Cyngor Llyfrau i adlewyrchu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn; yn yr un modd, diwygio'r llythyr cylch gwaith a roddir i Gyngor y Celfyddydau, yn dileu'r dyletswyddau a'r cyllid cysylltiedig sy'n cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Llyfrau.
- Mae'n hanfodol bod cyhoeddi a llenyddiaeth yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd.
- Cryfhau cyfleoedd i gyhoeddwr Cymru ar y fframwaith caffael.
- Ar hyn o bryd dylai Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru barhau i weinyddu'r Papurau Bro.
- Gan adeiladu ar argymhellion adroddiad ARAD, mae angen cymorth ar gyfer cyfieithu llenyddiaeth Gymraeg i'r Saesneg - fel iaith bontio yn ogystal ag fel cynulleidfa darged - a hefyd ar gyfer cyfieithu llenyddiaeth o Gymru i ieithoedd eraill, rhyngwladol. Gallai hyn arwain at fanteision diwylliannol yn ogystal â manteision economaidd ac ychwanegu gwerth at ddatblygiad y cwricwlwm newydd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau ar gyfer darparu neu hwyluso'r cymorth hwn.
- Ymhen oddeutu pum mlynedd dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymarfer arall tebyg i hwn i edrych yn eang ar y maes unwaith eto, yng ngoleuni profiad y pum mlynedd nesaf a'r rhagolygon sy'n datblygu'n barhaus ar gyfer y dyfodol.

Atodiad 1 : Tirwedd Gyffredinol Cyhoeddi a Llenyddiaeth

Mae tirwedd llenyddiaeth yn dechrau gyda'r awdur ac yn gorffen gyda'r darlennydd (neu i'r gwrthwyneb). Ceir trosolwg isod o'r broses gyhoeddi gyfan er mwyn deall yn well rôl cyllido yn yr ecosystem benodol hon.

Yr Awdur

Mae'r awdur yn creu nofel neu stori fer neu gerdd a fydd yn y pen draw yn Eiddo Deallusol y mae'r ecosystem gyhoeddi yn seiliedig arno. Mae amryw o gamau o fewn y broses ysgrifennu hon, y mae rhai ohonynt yn cael arian cyhoeddus

a) Ysgrifennu Creadigol

Er mwyn gwella eu crefft gall awduron fanteisio ar addysg ysgrifennu creadigol. Cynigir hyn gan Brifysgolion, addysg oedolion a chan ddarparwyr masnachol. Mae nifer o gyrsiau preswyl ar gael hefyd. Yng Nghymru, ceir Tŷ Newydd, y ganolfan breswyl ar gyfer ysgrifennu creadigol yn Llanystumdwy a ariennir yn sylweddol gan Llenyddiaeth Cymru.

b) Ysgoloriaethau Ysgrifennu

Ar ôl i'r llyfr gael ei ysgrifennu'n rhannol o leiaf - ac os oes gan awduron enw da neu sampl trawiadol o waith - gallant wneud cais am grant i helpu gyda'r broses ysgrifennu. Gallai hyn fod ar ffurf ysgoloriaeth lenyddol gan Llenyddiaeth Cymru neu grant a weinyddir gan Gyngor Llyfrau Cymru (y Cyngor Llyfrau). Mae gan yr ysgoloriaethau llenyddol, yn arbennig, enw da o ran helpu awduron newydd i sicrhau bod eu gwaith yn cael ei argraffu.

c) Beth Nesaf

Ar ôl i'r llyfr gael ei ysgrifennu, yna mae'n rhaid i'r awdur ddod o hyd i gyhoeddwr. Os yw'r awdur eisoes yn sefydledig, efallai y bydd ei lyfr eisoes wedi'i gontractio i gyhoeddwr naill ai yng Nghymru neu y tu allan i Gymru (Llundain fel arfer). Os oes gan yr awduron uchelgais i gyhoeddi eu gwaith y tu allan i Gymru, mae'n debyg y byddant yn anfon eu gwaith at asiant llenyddol yn y lle cyntaf.

Yr Asiant Llenyddol

Bydd asiant llenyddol yn derbyn awdur os bydd yn fasnachol hyfyw yn nhyb yr asiant - fel arfer mae asiantau'n codi 15% o gomisiwn ar ba bynnag drefniant y gallant ei sicrhau i awdur. Fel arfer, bydd yr asiant yn ceisio gwerthu i gyhoeddwr yn Llundain - oherwydd nid yw cyhoeddwr yng Nghymru fel arfer yn talu digon i wneud y trefniant yn un gwerth chweil i'r asiant. Bydd asiantau hefyd yn gyfrifol am drefnu cytundebau sgrinio a chyfieithu ar gyfer eu cleientiaid. Nid oes gan Gymru ei hasiantau llenyddol ei hun: mae hwn yn sector cwbl fasnachol o'r busnes. Mae nifer o asiantau yng Nghymru sy'n gweithio i gwmnïau yn Llundain, a all dalu sylw arbennig i awduron Cymreig, ond dyna'i gyd.

Y Cyhoeddwr

- a) **Cyhoeddwr Llundain.** Mae Llundain yn un o ganolfannau cyhoeddi mawr y byd ac yn cynnig cyfleoedd arbennig i awdur. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, bydd unrhyw awdur yng Nghymru sy'n awyddus i wneud bywoliaeth o'i lyfrau yn unig ond yn gallu cyflawni hyn drwy ddewis cyhoeddwr o Llundain. Diwydiant cartref yw'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru o gymharu ac nid oes ganddo ddigon o bŵer marchnata i greu llyfrau a fydd ymysg y gwerthwyr gorau. Mae hefyd, wrth gwrs, yn ddiwydiant cwbl Saesneg. Anaml iawn y mae'r busnes cyhoeddi yn Llundain yn cael cymhorthdal - ond mae rhai gweisg llai, yn enwedig cyhoeddwr barddoniaeth, yn cael arian cyhoeddus.

- b) **Cyhoeddwr Cymru.** Mae dwsin neu fwy o gyhoeddwr Cymreig arwyddocaol. Mae bron pob un ohonynt yn cael cymhorthdal i ryw raddau (eithriad nodedig yw Accent Press sy'n gwmni masnachol, yn ôl ei gyffes ei hun). Yn gyfnewid am eu cymhorthdal mae disgwyl iddynt ganolbwyntio ar gyhoeddi llyfrau sydd o ddiddordeb i Gymru. Felly, bydd rhai awduron Cymreig yn teimlo bod eu gwaith yn fwy addas i gyhoeddwr Cymreig. Bydd hyn yn sicr yn wir os byddant yn ysgrifennu yn Gymraeg. Gall awduron sy'n byw yng Nghymru hefyd deimlo - gyda pheth cyfiawnhad - bod cyhoeddwr yng Nghymru yn fwy tebygol o dalu sylw iddynt.

Mae gan rannau eraill o'r DU y tu allan i Lundain fentrau cyhoeddi arwyddocaol megis Caeredin a Rhydychen - mae'r rhain yn ddinasoedd sy'n debycach o ran maint i Gymru na Llundain. Fel rhan o'i drafodaethau nododd y Panel adroddiad tebyg ar gyfer y sectorau cyhoeddi a llenyddiaeth yn yr Alban a gyhoeddwyd yn 2015.⁵²

- c) **Hunangyhoeddi** Opsiwn arall sydd yn dod yn fwyfwy poblogaidd yw i awduron gyhoeddi eu gwaith eu hunain, naill ai'n ddigidol neu mewn print, neu'r ddau. I rai, mae hyn yn ddewis cadarnhaol: maent yn mwynhau'r rheolaeth a ddaw yn sgil hunangyhoeddi. I eraill, wrth gwrs, dyma'r dewis olaf pan fyddant wedi cael ei gwrthod gan gyhoeddwr confensiynol.

Y Broses Gyhoeddi

- a) **Golygu.** Dyma'r broses lle mae golygydd sy'n cyhoeddi yn gweithio gyda'r awdur i fireinio a gwella ei lawysgrif. Mae safonau golygu yn y byd cyhoeddi yng Nghymru yn amrywiol iawn: ceir rhai golygyddion da iawn a rhai gwael iawn. Gellir dadlau na fu digon o ffocws ar waith golygyddol ym maes cyhoeddi o blaid ffocws ar y meysydd mwy gweladwy megis dylunio.
- b) **Dylunio.** Mae'r Cyngor Llyfrau wedi bod yn gyfrifol am ryw fath o adfywiad mewn gwerthoedd dylunio a chynhyrchu ar gyfer gyhoeddwr Cymru. Drwy gynnig arbenigedd mewnol mae'r Cyngor Llyfrau wedi helpu i godi safonau yn gyffredinol fel bod bron pob cyhoeddwr yng Nghymru yn cynhyrchu llyfrau i safon broffesiynol (yn sicr, nid oedd hynny'n wir ddegawd neu fwy yn ôl).
- c) **Marchnata.** Dyma'r broses o gael llyfrau o'r cyhoeddwr i siopau llyfrau ac ar y rhyngwyd. Un o effeithiau anffodus diwydiant cyhoeddi sy'n derbyn cymhorthdal yw mai ychydig iawn o waith marchnata a wneir. Ni ddisgwylir i lyfrau wneud arian ac o ganlyniad anaml iawn y byddant yn gwneud hynny. O ganlyniad, mae amlygrwydd cyhoeddwr Cymreig yn y siopau ac ar y rhyngwyd yn wael iawn yn gyffredinol. Mae ambell eithriad, ond maent i raddau helaeth yn profi'r rheol.

Cyhoeddusrwydd. Y broses o gael sylw i lyfrau yn y wasg a'r cyfryngau. Unwaith eto, fel gyda marchnata, mae hwn yn faes sy'n dioddef yn yr economi gymorthdaledig. At hynny, ac yn bwysicach efallai, - mae'n dioddef oherwydd diffyg cyfryngau diwylliannol datblygedig yng Nghymru. Nid oes unrhyw fforwm poblogaidd ar gyfer adolygu llyfrau Cymreig. Dylid ystyried mwy o gydweithredu rhwng cyhoeddwr a fforymau megis Wales Arts Review

Dosbarthu

⁵² <http://www.creativescotland.com/resources/our-publications/sector-reviews/literature-and-publishing-sector-review>

Ar ôl i'r llyfrau gael eu golygu, eu dylunio a'u hargraffu, cyfrifoldeb y dosbarthwyr yw sicrhau eu bod yn cyrraedd y siopau a gwefan Amazon ac ati. O ran dosbarthu o fewn Cymru, y prif gorff yw Cyngor Llyfrau Cymru, sydd wedi datblygu busnes llwyddiannus yn dosbarthu gwaith a gynhyrchir gan gyhoeddwr Cymreig ledled Cymru. Mae'r Cyngor Llyfrau yn gwneud gwaith da o ran cyrraedd siopau llyfrau a safleoedd gwerthu eraill - canolfannau celf a chrefft, amgueddfeydd ac ati - nad yw dosbarthwyr eraill yn eu cyrraedd. Nid yw'r Cyngor Llyfrau yn dosbarthu y tu allan i Gymru, felly er mwyn i gyhoeddwr Cymru ledaenu eu gwaith ar draws Prydain byddai angen iddynt ddefnyddio un o'r nifer o ddosbarthwyr masnachol mawr sy'n gwasanaethu'r DU gyfan. Gall fod problemau'n ymwneud â chymalau cyfyngu pan fydd cyhoeddwr eisiau defnyddio Cyngor Llyfrau Cymru yn ogystal â dosbarthwr sy'n cwmpasu'r DU gyfan.

Gwerthiannau

a) Siopau llyfrau. Mae nifer o siopau llyfrau annibynnol, bach, da ar hyd a lled Cymru, sy'n aml yn arbenigo mewn llyfrau cyhoeddedig Cymraeg a Chymreig. Mae llond llaw o siopau cadwyn yn y trefi mwy - Waterstones yn bennaf - sydd yn gyffredinol yn cynnig deunydd cyhoeddedig Cymraeg sy'n ddim mwy nag arwydd symbolaidd yn unig

b) **Y Rhyngrwyd.** Y prif werthwr yma yn amlwg yw Amazon. Mae rhai cyhoeddwr o Gymru wedi cael llwyddiant yn hyrwyddo eu llyfrau drwy Amazon - yn ychwanegiadau ffisegol a rhai digidol - ond gan mwyaf mae adrannau marchnata y cyhoeddwr mawr yn Llundain yn drech na hwy. Yn arwyddocaol ymddengys fod rhai o'r awduron sy'n cyhoeddi eu gwaith eu hunain wedi gwneud yn well drwy werthu e-lyfrau ar Amazon o gymharu â chwmnïau cyhoeddi sefydledig yng Nghymru. Gwnaed cryn ymdrech i sefydlu llwyfan manwerthu ar gyfer llyfrau o Gymru - gwales.com. Er bod y defnydd o'r gwasanaeth ar gynnydd mae cyfyngiadau iddo ac mae lle i wella - er enghraifft, ar hyn o bryd caiff rhifynnau digidol o gwales eu darparu mewn fformat ansafonol a all lesteirio gwerthiant.

c) **Ffeiriau Llyfrau.** Mae'r rhain yn ffenomen sydd ar gynnydd - digwyddiadau rhanbarthol sy'n aml yn arbenigo mewn gweisg bach a gwaith a hunangyhoeddir. Er nad yw'r rhain yn dylanwadu'n fawr ar werthiant, maent yn arwydd o ba mor iach yw'r diwylliant darllen yn gyffredinol. Anaml y byddant yn cael llawer o gyllid.

Digwyddiadau Byw

Ar ôl i lyfr gael ei gyhoeddi, maes arall o'r dirwedd lenyddol i'w harchwilio yw digwyddiadau byw. Mae'r rhain yn amrywio o ddarlleniadau barddoniaeth mewn ystafell gefn tafarn - weithiau gyda chymorthdal gan raglen awduron ar daith Llennyddiaeth Cymru - i wyliau llenyddol sefydledig fel y Gelli a Phenwythnos Talacharn, y mae'r ddwy ohonynt yn derbyn cymorthdaliadau gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Cyfieithu

